

# CABINET

## CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD</b>	Dydd Mawrth, 24ain Ionawr, 2023
<b>AMSER</b>	1.00 y.h.
<b>LLEOLIAD</b>	Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu <a href="https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home">https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home</a>
<b>PWYNT CYSWLLT</b>	Sioned Mai Jones 01286 679665 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru

### AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig Siencyn	Arweinydd y Cyngor
Nia Wyn Jeffreys	Dirprwy Arweinydd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Beca Brown	Aelod Cabinet Addysg
Berwyn Parry Jones	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC
Dafydd Meurig	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Elin Walker Jones	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Menna Jones	Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol

## RHAGLEN

	<b>Eitem</b>	<b>Cyflwynir gan</b>	<b>Swyddog</b>	<b>Tud.</b>
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFODYDD A GYNHALIWDYD AR 22 TACHWEDD A 13 RHAGFYR 2022			4 - 20
6	CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG - TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDU	Cyng. Dyfrig Siencyn	Sioned E. Williams and Dylan Griffiths	21 - 30
7	CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2022	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	31 - 53
8	TROSOLWG ARBEDION - ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	54 - 61
9	RHAGLEN GYFALAF 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2022	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	62 - 71
10	CYNLLUN FFLYD WERDD 2023-29	Cyng. Berwyn Parry Jones	Steffan Jones	72 - 89
11	ADRODDIAD YMGYNGHORIAD STATUDOL YSGOL CHWILOG A DIWEDDARIAD O'R GRANT CYFALAF ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG	Cyng. Beca Brown	Gwern ap Rhisiart	90 - 150

12	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID	Cyng. Ioan Thomas	Dewi Aeron Morgan	151 - 156
13	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET ADDYSG	Cyng. Beca Brown	Garem Jackson	157 - 163
14	BLAEN RAGLEN Y CABINET	Cyng. Dyfrig Siencyn		164 - 166

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 22 TACHWEDD 2022

### Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

### Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 7: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Wyn Williams (Rheolwr Cefn gwlad)

Eitem 8: Carys Fon (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) a David Mark Lewis (Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol)

Eitem 9: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

Eitem 10: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith)

Eitem 11: Catrin Roberts (Aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru)

Eitem 12: Sophie Ann Tyne Hughes (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Gweithlu)

Eitem 13: Catrin Thomas (Dirprwy Bennaeth Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Nia Jeffreys a'r Cyng. Menna Jones.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fudiant personol.

### 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater brys.

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

### 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 27 Medi a 7 Hydref 2022 fel rhai cywir.



## 6. PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

### PENDERFYNIAD

Argymhell i'r Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24:

- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).
- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%).
- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn gam yn y drefn llywodraethu wrth i'r Cyngor symud ymlaen i wneud penderfyniad ar sut i ymateb i newidiadau deddfwriaethol diweddar o safbwynt y Premiwm Treth Cyngor.

Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw benderfyniad ar raddfa'r Premiwm ar ben ei hun yn datrys y broblem y sefyllfa ddifrifol a niferoedd ail gartrefi o fewn ardaloedd yng Ngwynedd. Eglurwyd fod y defnydd o'r broses gynllunio a sicrhau trwyddedu ail gartrefi yn llawer mwy perthnasol. Croesawyd ymateb diwedd Llywodraeth Cymru gan amlygu mai dyfalbarhad wrth lobio a chyflwyno tystiolaeth y Cyngor sydd wedi sicrhau gweithredu.

Esboniwyd fod Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu adrannau newydd i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mynegwyd fod y cymalau newydd yn caniatáu i awdurdodau bilio Cymru i godi Treth Cyngor ychwanegol ar ddsbarthiadau penodol o eiddo. Eglurwyd mai'r sefyllfa diodyn yn Neddf 1992 yw rhoi disgownt o 50% i'r eiddo os nad yw'r Cyngor yn gwneud penderfyniad pob blwyddyn i'w ariannu o goffrau'r Cyngor. Mynegwyd fod gan y Cyngor hawl dewisol ers sawl blwyddyn i beidio rhoi disgownt i'r eiddo yma, ac ers 2017 yr hawl i godi premiwm.

Amlygwyd fod y Cyngor wedi codi premiwm o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021, ac yna 100% ers 1 Ebrill 2021. Esboniwyd ar yr achlysuron ble cyflwynwyd y Premiwm a'i gynyddu fod gwaith sylweddol wedi ei wneud i asesu'r sefyllfa ynghyd a chynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mynegwyd fod Adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 wedi eu newid eto yn ddiweddar a bydd y newidiadau yn weithredol o 1af Ebrill 2023. Nodwyd fod y newidiadau hyn wedi eu gwneud yn ei wneud yw cynyddu lefel y Premiwm gall awdurdodau lleol ei godi. Eglurwyd y bydd modd codi hyd at 300%.

Bu i'r Pennaeth Adran dywysu drwy ganlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus. Eglurwyd fod y Cabinet wedi cytuno ddiwedd Medi i gomisiynu Ymgynghoriad Cyhoeddus i dderbyn barn y cyhoedd ar sut dylai'r Cyngor ymateb i'r ddeddf. Lanswyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y 30 Medi ac roedd yn agored tan 28 Hydref. Eglurwyd ei bod yn hanfodol i weithredu yn unol â'r gyfraith i ymgysylltu gyda rhan ddeiliad allweddol ac o ganlyniad bu i lythyrau uniongyrchol gael eu hanfon at y perchnogion.

Derbyniwyd 7,330 o ymatebion i'r holiadur ac mae hyn ymhell tu hwnt i niferoedd arferol sy'n ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus arferol a dros fil o ymatebion yn fwy na'r ymgynghoriad tebyg a gynhaliwyd ddwy flynedd yn ôl. Mynegwyd fod dros hanner o'r ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hir dymor. Nodwyd fod 47% yn berchen ar ail gartref a llai na 3% yn dweud eu bod yn berchen ar annedd gwag hir dymor.

Ategwyd fod y canlyniadau yn nodi fod 58.7% o'r ymatebion o'r farn fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd yn gynnydd o'r ffigwr cyfatebol o 55.1% pan gynhaliwyd ymgynghoriad tebyg lai na dwy flynedd yn ôl. Amlygwyd fod 27.7% yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith negyddol gyda 8.2% yn credu nad ydynt yn cael effaith ar y cyfan. Eglurwyd fod gwahaniaethau amlwg rhwng barn yr ymatebwyr oedd yn berchen ail gartrefi a'r rhai nad ydynt. Nodwyd fod 80% o'r ymatebwyr sydd yn berchen ail gartrefi yn credu fod ail gartrefi yn rhoi effaith gadarnhaol, tra fod 39% o'r rhai sydd dim berchen ail gartref nac annedd gwag hir dymor o'r un farn. Amlygwyd fod hyn eto yn gynnydd arwyddocaol o'r ffigwr cyfatebol o 27% llai na dwy flynedd yn ôl. Mynegwyd fod 48% o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor yn meddwl bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai dim ond 5% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref sydd o'r farn yma.

Nodwyd fod gwahaniaeth barn clir am gynyddu'r premiwm rhwng y rhai sydd berchen ail gartrefi a rhai nad ydynt. Amlygwyd fod y rhai sydd eisoes yn talu'r premiwm ddim yn awyddus talu mwy, gyda llai na hanner o'r rhai nad ydynt yn talu'r premiwm yn cefnogi cynyddu'r premiwm.

O ran ymatebion am safbwynt eiddo gwag hirdymor nodwyd fod oddeutu tri chwarter o'r rhai a ymatebodd o'r farn fod eiddo gwag hir dymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol. Amlygwyd fod 82% o'r rhai sy'n berchen eiddo gwag yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ond amlygwyd fod niferoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad a oedd yn datgan eu bod yn berchnogion eiddo gwag hirdymor yn isel. Pwysleisiwyd mai ymgynghoriad oedd hwn yn chwilio am farn a sylwadau er mwyn cynorthwyo'r Cabinet a'r Cyngor i wneud penderfyniad.

Cyflwynwyd y mater yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ogystal er mwyn cael ei graffu. Pwysleisiwyd nad eu rôl oedd awgrymu lefel y Premiwm ond i fodloni ei hun fod y dystiolaeth oedd wedi ei gasglu yn ddigonol er mwyn dod i benderfyniad rhesymol ar sail y wybodaeth. Eglurodd y Pennaeth Cyllid y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ymysg y sylwadau hyn oedd anfodlonrwydd un aelod o'r Pwyllgor am y sylw a roddwyd i'r effaith ar y Gymraeg o fewn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Ym marn yr aelod yma nid oedd ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i effaith y premiwm ar y garfan frodorol sy'n siarad Cymraeg. Pwysleisiwyd yn ogystal nad oes tystiolaeth am yr angen am 2000 o dai newydd yn ardal Dwyfor ac fod angen i asesiad effaith ieithyddol cynhwysfawr gael ei gwblhau.

Amlygwyd fod angen nodi pa mor llwyddiannus mae'r premiwm wedi bod ac yn nodi sut mae'r niferoedd o ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor wedi newid dros amser ers cyflwyno'r Premiwm. Amlygwyd fod un aelod o'r Pwyllgor wedi cwestiynu moesoldeb codi arian gan bobl o un rhan o'r sir i ddiwallu effaith digartrefedd mewn llefydd eraill a'i fod yn awyddus i'r adroddiad ddangos rhestrau aros am dai ymhob ward.

I orffen bu i'r Aelod Cabinet nodi wrth wneud unrhyw newid arwyddocaol sy'n effeithiol ar bobl, fod yn rhaid i'r Cyngor ystyried os oes digon o gyfiawnhad wedi ei gasglu i wneud hyn gan ystyried gwir effaith ar bobl Gwynedd. Eglurwyd fod angen i'r Cyngor weithredu'n rhesymol ar sail y dystiolaeth. Nodwyd fod dewis damcaniaethol i ostwng neu ddiddymu'r premiwm ond eglurwyd fod yr arian sydd yn cael ei gasglu yn cael ei glustnodi i bwrpas penodol, sef cefnogi Cynllun Gweithredu Tai. Mynegwyd ar yr un modd byddai angen cyfiawnhad cadarn iawn dros gynyddu'r Premiwm i 300%, ac eglurwyd nad yw'r adran o'r farn fod hyn yn bodoli ar hyn o bryd. Felly ar ôl ystyried yr ymgynghoriad a'r sefyllfa bresennol yn y sector tai dwi'n argymhell cadw'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn 100% a chynyddu'r Premiwm ar ail gartrefi i 150%.

#### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad ac amlygwyd y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Amlygwyd y cwestiwn cyson sydd wedi ei godi gan nifer o'r ymatebion os oes eithriadau i'w cael os oes gan unigolion gysylltiadau lleol, gan fod pryder gan unigolion sydd wedi trosi adeiladau yn llety gwyliau yn dilyn cais cynllunio y bydd angen talu treth am y tro cyntaf. Eglurwyd fod eithriad statudol yn eithrio tai tymhorol yn unig a'r trefniadau cynllunio sydd yn methu cael ei meddiannu am flwyddyn gyfan. Eglurwyd fod cynnig ger bron ar hyn o bryd i addasu'r geiriad i fod yn gallu ei feddiannu am flwyddyn gyfan ond nad os modd ei ddefnyddio fel prif gartref. Amlygwyd fod modd defnyddio eithriadau dewisol yn unol ag Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol i roi'r hawl i'r Cyngor addasu bil treth Cyngor unrhyw annedd yn y sir os yn gallu bodloni fod lles cymdeithasol ac ehangach i drethdalwyr o'i wneud. Ond pwysleisiwyd er bod yr eithriadau ar gael fod angen rhoi gwir ystyriaeth i gydraddoldeb pan yn eithrio unrhyw annedd gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth benodol yma.
- Nodwyd fod canlyniad yr ymgynghoriad wedi amlygu nad yw'r sefyllfa yn ddu a gwyn. Eglurwyd fod disgwyliad i'r ymgynghoriad amlygu fod unigolion ag ail gartrefi am bwysleisio peidio codi premiwm, ac unigolion heb ail gartref yn dweud i godi'r premiwm i 300% ond nid dyma'r canlyniad. Nodwyd fod hanner o'r unigolion heb ail gartrefi yn cytuno â pheidio cynyddu'r premiwm, a hyn o ganlyniad i gyflogaeth a bywoliaeth nifer o bobl yn ddibynnol ar ail gartrefi a phryderon am deuluoedd yn etifeddu ail gartrefi.
- Mynegwyd fod yr adroddiad hwn yn gynhwysfawr ond eglurwyd yr angen hefyd i ddadansoddi gwybodaeth hanesyddol yn ogystal, megis yr ymchwil i ail gartrefi. Nodwyd y prif gwestiwn sydd angen ei ateb yw sut i ddatrys problemau sy'n bodoli mewn cymunedau o ganlyniad i ail gartrefi. Amlygwyd fod dros 5000 o dai o fewn y sir yn wag nifer helaeth o'r flwyddyn tra fod niferoedd digartref ac eisiau prynu tai yn uchel tu hwnt. Er hyn amlygwyd er fod gan y Cyngor hawl i godi'r premiwm i 300% ni ddylid gwneud hyn heb gyfiawnhad. Eglurwyd fod ei godi i 150% yn mynd i godi £3m a hynny mewn blwyddyn ble mae'r Cyngor wedi gorwario £3m ar y maes digartrefedd ac ei bod yn edrych yn debygol y bydd yn codi eto y flwyddyn nesaf, amlygwyd felly fod y cynnydd o 150% yn rhesymol ar hyn o bryd.

- Holwyd er fod unigolion ag ail gartrefi wedi derbyn llythyr yn amlygu'r ymgynghoriad holwyd os oedd angen gwneud hyn ar gyfer y digartref, y rhai ar restrau aros neu'r rhai sydd methu fforddio tai yn eu cymunedau ac amlygwyd efallai y buasai'r ymatebion wedi bod yn wahanol. Mynegwyd fod cynnydd i 300% eleni i'w weld braidd yn uchel ac fod ei gynyddu i 150% yn deg ac yn ymateb i'r problemau sydd i'w gweld yn y maes tai.
- Cadarnhawyd fod bwriad newid yr eithriadau statudol fydd yn golygu bydd unrhyw fusnes lleol sydd â thai gwyliau ble mae amodau cynllunio yn eu cyfyngu i ddefnydd gwyliau wedi eu heithrio o dalu'r Premiwm, ond nodwyd nad oes angen caniatâd er mwyn cael tai AirBnB. Nodwyd fod nifer o'r rhain yn plethu i fusnesau ac o ganlyniad yn talu treth busnes. Eglurwyd fod newid ar droed gyda treth busnes yn nodi'r angen i osod yr eiddo 182 o ddyddiau'r flwyddyn ac os na fydd hyn bosib y bydd angen mynd yn ôl i dalu treth Cyngor. Amlygwyd mai cyfrifoldeb y Swyddfa Prisiwr fydd i gadw golwg ar hyn.
- Pwysleisiwyd fod digartrefedd cudd yn bodoli ar draws y sir gyda unigolion yn aros ar soffa neu yn methu symud o'i cartref. Croesawyd fod yr arian ychwanegol yn sgil y premiwm yn mynd i gynorthwyo y maes digartrefedd a nodwyd y bydd angen adolygu yn gyson er mwyn cadw golwg ar y sefyllfa.
- Amlygwyd nad oes bai ar yr unigolion sydd yn berchen ail gartrefi ac mai argyfwng tai sydd i'w weld ar draws y sir. Pwysleisiwyd fod angen atgoffa mai bai Llywodraeth San Steffan yw'r sefyllfa yma, ac er fod Senedd Caerdydd yn ceisio gwella'r sefyllfa nid yw'n ddigonol ac nid yw'n ymateb ddigon cyflym. Eglurwyd yn ogystal fod hon yn broblem gynyddol sydd i'w gweld ar draws Prydain.
- Eglurwyd fod y mater yn un cymhleth ac nad yw'n sefyllfa du a gwyn, ond fod angen ystyried yr holl ddogfennau ynghyd a sefyllfa ein cymunedau ac fod argymhelliad presennol i'w godi i 150% yn un call ar hyn o bryd.

## **7. MABWYSIADU'R CYNLLUNIAU GWELLA HAWLIAU TRAMWY**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

### **PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran Amgylchedd i wneud addasiadau ansylweddol i'r ddogfen cyn ei chyhoeddi.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Eglurwyd fod Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn amlygu dyletswydd ar y Cyngor i fod yn cyhoeddi ac yn adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Ychwanegwyd fod y cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio fel arf i wella'r rhwydwaith yn ogystal. Mynegwyd fod y Cynllun wedi bod ar dipyn o daith cyn cyrraedd y Cabinet a oedd yn cynnwys Pwyllgor Craffu yn ôl yn 2021, ymgynghoriad cyhoeddus am 3 mis dros gyfnod yr haf cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ym mis Hydref i drafod canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus. Atebwyd fod man addasiadau wedi ei gwneud i'r Cynllun yn dilyn y Pwyllgor Craffu.

Nodwyd mai gofyn sydd yma i fabwysiadu'r Cynllun ac i roi hawl i'r Pennaeth Adran wneud man addasiadau ieithyddol cyn i'r ddogfen gael ei chyhoeddi.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a codwyd pryder am y newid i roi hawl i farchogaeth ar bob llwybr cyhoeddus. Holwyd am sut y bydd asesiadau risg yn cael ei gwneud yn benodol ar lwybrau sydd ar ochor ffordd. Nodwyd fod yr addasiad wedi ei wneud o ganlyniad i anghysondeb ar draws y sir ac fod gofyn rhesymol wedi bod i gael ei ddefnyddio gan geffylau, eglurwyd y bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal a bod yr addasiad yn benodol ar gyfer llwybrau oddi wrth y ffordd fawr.
- Holwyd am y broses o adnabod Llwybrau Llesiant y sir gan nad yw Bala wedi'i gynnwys. Eglurwyd fod amodau penodol i'w gweld sydd yn cael ei gwrio gan Lywodraeth Cymru o ran Llwybrau Llesiant ac yn ffafrio canolfannau ble mae'r boblogaeth yn gweithio yn yr ardal ac angen ffordd amgen o gyrraedd y gwaith. Mynegwyd o ganlyniad fod angen bosib adolygu hyn er mwyn cynnwys cymunedau fwy gwledig.

## 8. CYNLLUN PANELI PV CYNHYRCHU TRYDAN – GWEDD 4

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

### PENDERFYNIAD

Bwrw 'mlaen i fuddsoddi £2.8m yn y bedwaredd wedd o'r cynllun paneli PV cynhyrchu trydan gan arwain at arbediad refeniw blynyddol.

Ariannu'r buddsoddiad cyfalaf o gronfeydd y Cyngor gan arwain at arbedion refeniw parhaol yn syth fel cyfraniad i'n cynllun arbedion / toriadau.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyngor yn arwain yng Nghymru ac o bosib Prydain am y camau mae'n ei wneud i leihau ôl troed carbon. Eglurwyd fod camau yn cael ei gwneud ar draws y Cyngor i wneud y newidiadau pwysig yma er mwyn edrych ar ôl yr amgylchedd ac yn ogystal er mwyn arbed arian.

Mynegodd y Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol mai dyma bedwaredd wedd y Cynllun Solar sydd wedi bod yn gynllun hynod lwyddiannus. Eglurwyd fod gwedd 3 wedi dod i ben o ganlyniad i newid gan y Llywodraeth ond o ganlyniad i leihad mewn costau paneli solar a chynnydd mewn costau ynni mae hyn wedi arwain at greu gwedd 4. Pwysleisiwyd fod y Cynllun wedi ei sefydlu ar gostau ynni heddiw, ac felly os costau ynni yn parhau i godi mae'n amlygu fod yr achos busnes ar ei gyfer yn aeddfed.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad, a holwyd os mai gwedd 4 fydd y cam olaf. Eglurwyd mai dyma fydd y cam olaf o safbwynt adeiladau'r Cyngor ond fod opsiynau pellach yn bodoli yn dilyn hyn megis Ffermydd Solar.
- Amlygwyd fod y cynllun hwn yn un sydd yn lleihau carbon ac yn cynorthwyo'r Cyngor gyda cyfarch y bwlch ariannol. Mynegwyd fod gofyn yma i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i'w ariannu fod bod modd derbyn yr arbedion ariannol o ganlyniad i'r Cynllun yn syth.

## 9. DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2021 - HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD (DRAFFT) 2021/22

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

### PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Hunanasesiad Cyngor Gwynedd (Drafft) 2021/22 gan dderbyn argymhellion a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai dyma'r Hunanasesiad cyntaf i'r Cyngor ei wneud sydd yn edrych yn ôl ar 2021/22. Eglurwyd fod gofyn statudol newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi'r angen i'w greu a'i gyhoeddi yn flynyddol. Ychwanegwyd fod yr hunanasesiad yn tynnu ar dipyn o ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth a bod nifer o'r wybodaeth wedi ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac yn Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol. Pwysleisiwyd er mwyn cadw'r adroddiad yn gryno fod cyfeiriad at y dogfennau yma.

Nodwyd fod y ddeddf yn nodi disgwyliad i gyflwyno drafft o'r Hunanasesiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn derbyn sylwadau. Mynegwyd fod hyn wedi digwydd wythnos diwethaf ac fod un sylw wedi ei dderbyn sef yr angen i gyfeirio ar yr hyfforddiant sydd ar gael i Gynghorwyd o dan Cynllunio Corfforaethol er mwyn adnabod y gwaith da sy'n digwydd o fewn y Cyngor.

Eglurwyd mai dyma'r tro cyntaf i gyflwyno'r Hunanasesiad ac mae ymdrech wedi ei wneud i'w gadw yn gryno ac yn ddarllenadwy. Esboniwyd fod trefniadau yn parhau i ddatblygu o ran ei baratoi ac fod trefniadau i'r dyfodol i'w gyfuno gyda threfniadau herio perfformiad ac i'w gynnwys yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro fod hon yn drefn newydd ac fod gofyn statudol i fynd i ymgynghoriad ar y drefn ond fod hynny i ddod.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod y bwriad i'w gyfuno â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn gyfle i ychwanegu haen arall o lywodraethant o fewn y Cyngor. Fod Cynllun y Cyngor yn dangos beth mae'r Cyngor am ei wneud, Adroddiad Perfformiad yn nodi beth sydd wedi ei wneud ac fod hwn fel haen yn y canol yn amlygu pa mor dda mae'r Cyngor wneud gwneud y gwaith.

## 10. CYNLLUN DEISEBAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

### PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Cynllun Deisebau ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn gofyn i gymeradwyo'r Cynllun Deisebau a'i argymhell i'r Cyngor Llawn nesaf i'w fabwysiadu. Eglurwyd fod gofyniad statudol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 i'r Cyngor fod yn mabwysiadu Cynllun Deisebau. Mynegwyd fod y Cynllun yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ymdrin â deisebau pan yn eu derbyn.

Nodwyd fod deiseb yn ffordd y gall unigolion, grŵp cymunedol a sefydliadau godi materion sy'n peri pryder iddynt a rhoi cyfle i Gynghorwyr ystyried yr angen am newid. Ychwanegwyd fod y cynllun yn gosod camau ar sut i gyflwyno deiseb a'r hyn y gellir ei ddisgwyl fel ymateb a'r camau fydd yn cael ei wneud gan y Cyngor. Pwysleisiwyd fod rhai achosion megis ail strwythuro ysgolion yn dilyn gofynion cyfreithiol a statudol am ymgynghori a chyfnodau ymateb statudol a ni fydd deiseb yn cael ei dderbyn tu allan i'r trefniadau hyn.

Amlygwyd fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi trafod y Cynllun wythnos diwethaf, a derbyniwyd sylwadau ac mae man addasiadau wedi eu gwneud i'r Cynllun yn dilyn y trafodaethau yma.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd os yn derbyn y ddeiseb bod modd cael ei drafod gan Aelod Cabinet, y Cabinet neu Cyngor Llawn a holwyd pwy sy'n dewis lefel y penderfyniad. Eglurwyd ei fod yn ddibynnol ar natur y ddeiseb ac ei fod yn dilyn trywydd synhwyrol.
- Cwestiynwyd os yw'r cynllun yn wahanol i beth sydd yn digwydd yn bresennol Eglurwyd fod y Cynllun hwn yn ffurfioli'r trefniadau ac yn codi ymwybyddiaeth trigolion.
- Nodwyd fod yn braf gweld y Cabinet yn gallu ymlacio wrth drafod gofynion y Ddeddf ac fod hyn o ganlyniad i drefniadau llywodraethu cadarn iawn sydd i'w weld mewn nifer o dimau sydd yn gweithio yn y cefndir ar draws y Cyngor.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2021/2022 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod hon yn adroddiad Blynyddol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Esboniwyd fod yr adroddiad yn amlygu gwaith y bwrdd ar gyfer 2021/22 ac wedi ei lunio a'i ysgrifennu i fodloni canllawiau'r Llywodraeth. Eglurwyd fod y bwrdd wedi ei sefydlu yn ôl yn 2014, er mwyn cydymffurfio a rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.

Tynnodd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol sylw at y prif bwyntiau a'r gwaith allweddol sydd yn cael ei wneud yn y rhanbarth. Eglurwyd mai rôl y Bwrdd yw i ddod a phartneriaid at ei gilydd er mwyn integreiddio gwasanaethau pan yn bosib. Mynegwyd fod y system lywodraethu yn un gymhleth ond mai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r prif fwrdd ac mae'n gyfrifol am rhoi cyfeiriad clir i weithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth ynghyd a sicrhau fod gwaith yn cael ei gyflawni. Esboniwyd fod y bwrdd yn adrodd i Fwrdd Arweinwyr y Gogledd.

Amlygwyd fod 2 brif raglen i'w gweld yn gan y Bwrdd yn 2021/22 sef Cronfa Gofal Integredig a Rhaglen Trawsnewid. Eglurwyd fod y gronfa Gofal Integredig wedi ei sefydlu yn ôl yn 2014, ac wedi galluogi'r rhanbarth i weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo pobl hyn ag anghenion cymhleth, plant ag anghenion cymhleth, gofalwyr a phlant mewn gofal neu mewn peryg o fynd i ofal. Nodwyd fod y rhaglen Trawsnewid wedi ei sefydlu yn Ebrill 2018 gyda'r pwrpas o wella gwasanaethau a oedd i gychwyn yn gynllun 3 blynedd, ond y bu iddo ymestyn o ganlyniad i'r pandemig.

Esboniwyd fod y ddwy raglen wedi dod i ben yn 2021/22 ac fod rhaglen newydd bellach ers Ebrill 2022, sef Cronfa Integreiddio Rhanbarthol. O ganlyniad mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o waith y ddwy brif raglen ynghyd a prif bwyntiau a godwyd o'r gwerthusiad a oedd yn cynnwys y cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau a gwella perthynas rhwng partneriaid. Mynegwyd fod arian wedi bod yn broblem gan fod y gyllideb wedi bod am flwyddyn unig ac felly yn ei gwneud yn anodd i gynllunio ymhellach.

Mynegwyd fod y tîm wedi bod yn gweithio yn ogystal ar greu Asesiad Anghenion Poblogaeth a oedd yn cynorthwyo'r rhanbarth i ddatblygu blaenoriaethau ac i awdurdodau lleol allu cynllunio yn lleol. Nodwyd i'r dyfodol fod y Pwyllgor yn awyddus i adeiladu ar waith eleni ac i gynllunio ar gyfer y 5 i 10 mlynedd nesaf.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar ddiwedd cyfnod Morwena Edwards yn ei swydd. Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu ei fod yn faes llawer ehangach na gofal yn unig gydag elfennau i'w gweld yn y maes Tai ac Addysg. Amlygwyd fod dylanwad y Bwrdd yn holl bwysig wrth symud ymlaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd balchder o wedi buddsoddiad am gyfnod mwy 'na blwyddyn fel bod modd i'r Bwrdd gynllunio i amserlen realistig i drawsnewid gwasanaethau.

## **12. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIAN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**



Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn rhoi diweddariad ar waith yr adran gan amlinellu beth sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor, adrodd ar berfformiad yr adran ynghyd a'r sefyllfa ariannol. Mynegwyd balchder fod yna gynnydd wedi ei wneud er gwaethaf yr heriau oedd yn wynebu'r adran a'r mwyafrif o'r rhain o ganlyniad i anawsterau capasiti o fewn yr adran. Diolchwyd l'r adran am eu hymroddiad i'r maes a'r unigolion maent yn ei gefnogi, ac ar y cyfan ei fod yn fodlon a pherfformiad yr adran.

Nodwyd fod nifer o'r materion sydd wedi eu codi yn yr adroddiad perfformiad hefyd wedi eu hamlygu fel rhan o'r archwiliad diweddar a gafwyd gan Arolygaeth Gofal Cymru. Eglurwyd y bydd adroddiad pellach am yr archwiliad yn dod i'r Pwyllgor Craffu Gofal cyn hir.

Tywyswyd drwy brosiectau Cynllun y Cyngor a oedd yn cynnwys safle Penrhos sydd yn gynllun ar y cyd gyda'r Adran Dai ac Eiddo ynghyd â'r cynnydd mewn gwllâu dementia yn y sir a'r pryder am unedau gwag o ganlyniad i ddiffyg staffio. Amlygwyd mai un o brif anawsterau yr adran yw recriwtio a chadw staff ac esboniwyd fod hyn yn fater sydd yn cael ei drafod yn gorfforaethol o fewn y Cyngor ynghyd ac yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

O ran perfformiad yr adran nodwyd fod camau breision wedi eu gwneud i sicrhau mesurau cywir. Tynnwyd sylw at nifer ar y rhestrau am ofal cartref gan nodi fod yn nifer yn parhau i gynyddu ac fod hyn o ganlyniad i ddiffyg capasiti o ran staffio. Esboniwyd fod yr adroddiad diwethaf yn amlygu rhwystredigaeth gyda mesurydd yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl gan fod staff y timau integredig yn parhau i ddefnyddio ffeiliau papur. Mynegwyd fod gwaith wedi ei wneud i ddod o hyd i fesurydd dros dro i'r gwasanaeth hwn.

O ran y sefyllfa ariannol, nodwyd fod rhagolygon ariannol fel rhan o adolygiad diwedd Awst yn rhagamcanu gorwariant o £1.9miliwn gan yr Adran erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Eglurwyd fod yr adran yn cyflwyno bidiau er mwyn gallu parhau gyda gwasanaethau statudol neu newidiadau deddfwriaethol. Mynegwyd fod yr adran ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd i gyflawni rhai gwasanaethau mewn ffordd wahanol a drwy hyn cyflawni arbedion.

#### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod heriau staffio i'w gweld ar draws y Cyngor a hynny oherwydd methu recriwtio ac nid oherwydd diffyg ariannol. Pwysleisiwyd nad oes ateb hawdd i'r broblem ac fod hyn o ganlyniad i benderfyniadau ar lefel Brydeinig. Eglurwyd fod yr adran yn edrych ar beth mae siroedd eraill yn ei wneud er mwyn sicrhau gwasanaethau a gwneud defnydd gorau o'r gefnogaeth sydd ar gael.
- Eglurwyd fod £1.9miliwn o orwariant yn cael ei ragweld ac fod £1m arall o arbedion nad ydynt wedi eu cwblhau yn ogystal â hynny, heb edrych ar arbedion y flwyddyn nesaf. Nodwyd fod cyfarfod gyda'r adran yn cael ei gynnal yn fuan i edrych ar y sefyllfa hynod heriol yma.
- Nodwyd fod pryder am allu'r adran i fesur perfformiad ond fod mesurau bellach yn cael eu datblygu. Eglurwyd fod peth ffordd i fynd eto ond fod camau breision wedi eu gwneud.

### **13. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Elin Walker Jones

## **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn rhoi diweddariad ar waith yr adran gan amlinellu beth sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor, adrodd ar berfformiad yr adran ynghyd a'r sefyllfa ariannol. Diolchwyd i staff yr adran am eu hymroddiad i blant a phobl ifanc yn sir.

Eglurwyd fod prosiectau blaenoriaeth yn parhau i symud yn eu blaen er fod staff wedi eu dargyfeirio i gefnogi unigolion o'r Wcraïn. Eglurwyd fod y blaenoriaethau yn cyd-fynd a prif risgiau'r adran a nodwyd fod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y prosiectau hyn. Tywyswyd drwy'r prosiectau a oedd yn cynnwys nodi fod Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd wedi derbyn cadarnhad o ran ei ariannu ac yn gallu symud ymlaen gyda'r gwaith. Mynegwyd fod yr adran wedi llwyddo i recriwtio i swyddi yn y tîm cyfeiriadau er mwyn ymateb i'r cynnydd sydd wedi bod mewn galwadau a rhestrau aros.

O ran y Cynllun Cefnogi Pobl nodwyd fod gwaith yn parhau ond bellach yn canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw. Amlygwyd gwaith y Cynllun a oedd yn cynnwys, ymestyn y rhwydwaith hybiau a chyfres o ddigwyddiadau galw heibio.

Nodwyd fod capasiti gweithlu yn broblem o fewn yr adran hon yn ogystal, ac fod gwaith diweddar wedi ei wneud gydag ymgynghorydd annibynnol ond nad oedd canlyniad i'w gweld eto. Eglurwyd fod newid wedi bod yn natur yr achosion sydd yn cyrraedd yr adran gydag anghenion plant yn dwysáu ac o ganlyniad angen pecynnau gofal fwy cymhleth.

Eglurwyd fod rhagolygon yn amlygu y fod yr adran yn debygol o orwario o oddeutu £88,000. Mynegwyd fod yr adran wedi rhoi cais am dros £1m o fidiau er mwyn cwrdd â phwysau ychwanegol ac i gyflawni cynlluniau blaenoriaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd o ran y Cynllun Cefnogi Pobl beth yw'r ymateb sydd wedi ei dderbyn gan y cyhoedd. Eglurwyd ei fod wedi bod yn amrywiol gyda llawer yn gwerthfawrogi'r cymorth sydd ar gael.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3:25pm

---

**CADEIRYDD**

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 13 RHAGFYR 2022

---

### Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Craig ab Iago, Beca Brown, Nia Jeffreys, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

### Hefyd yn bresennol-

Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 3: Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirionnydd) a Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).

Eitem 6: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd)

Eitem 7: Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Prif Weithredwr, Dafydd Gibbard.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

### EITEM FRYS: YSGOL TREFERTHYR – CYNYDDU CYLLIDEB CYFALAF Y PROSIECT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown.

### PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd cynyddu cyllideb ar gyfer datblygu Ysgol Trefertyr newydd i **£8,145,206**.

Caniatawyd trosglwyddo **£3,261,880** o gyllideb gweddill amlen Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Band B) er mwyn cyfarch cynnydd sylweddol yng nghostau'r prosiect, gan dderbyn y bydd yn arwain at lai o gyllideb ar gael i wireddu prosiectau eraill o fewn Band B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Gwynedd.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r camau sydd wedi eu cwblhau hyd yma ar y daith o adeiladu Ysgol newydd yng Nghriccieth ond bod cynnydd sylweddol wedi bod yng nghostau adeiladu'r Ysgol. Nodwyd bod yr adroddiad yn manylu ar y ffyrdd i gyfarch y

diffyg ariannol ac i godi rhagor o gyllideb. Amlygwyd y camau sydd wedi digwydd ers mis Mai 2021. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru bryd hynny wedi cymeradwyo ariannu cyllideb lawn o £4.9 miliwn ar gyfer adeiladu'r Ysgol ac yn cyfrannu 65% tuag at y gost gyda'r Cyngor yn cyfrannu 35%. Adroddwyd bod y cynnydd sylweddol i gostau adeiladu sydd wedi digwydd dros yr 18 mis diwethaf wedi arwain at gynnydd yn y gost i ychydig dros £8 miliwn oherwydd ffactorau fel costau cynyddol mewn deunyddiau, ynni a chwyddiant.

Adroddwyd ar y cais sydd wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu cyllideb ariannu'r Ysgol a gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnydd hwn a throsglwyddo'r gyllideb o gynllun band B er mwyn cyfarch y cynnydd sylweddol yng nghostau'r prosiect. Ychwanegwyd mai sgil effaith trosglwyddo'r gyllideb fydd effaith ar weddill cyllideb band B a llai o gyllideb i wireddu'r prosiectau yno.

#### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd bod safle presennol yr Ysgol yn anaddas. Nodwyd bod y datrysiad yn ymddangos yn syml ond bod oblygiadau i'w hystyried.
- Mynegwyd cefnogaeth i'r cais gan nodi bod opsiynau eraill yn brin.
- Holwyd beth yn union yw sgil effeithiau band B.
- Mewn ymateb nodwyd mai £1.1 miliwn fydd yr effaith sef 35% o'r cynnydd o £3.2 miliwn gan bod y gweddill eisoes wedi ei adnabod. Bydd y swm yma yn cael ei ddargyfeirio o gynlluniau eraill megis y gyllideb Ôl-16; bydd y gyllideb yma yn gostwng er mwyn cyfarch yr arian ychwanegol ar gyfer y cynllun hwn.
- Croesawyd y cais er lles plant Criccieth a credwyd y bydd y gymuned yn falch iawn o'r Ysgol newydd. Gwnaethpwyd sylw bod wir angen buddsoddiad yn Ysgol Eifionydd a bod angen i'r Cyngor bwysu ar Lywodraeth Cymru er mwyn gwella'r adnoddau yn yr Ysgol hon.
- Mewn ymateb nodwyd bod Ysgol Eifionydd yn rhan o'r Cynllun Cyflwr ac Addasrwydd i fod yn uwchraddio a gwella amodau a chyfleusterau ac nid yw'r swm yn un sylweddol.
- Credwyd er gwaetha'r cynnydd yng nghostau adeiladu'r Ysgol bod y Cyngor yn cael Ysgol gwerth am arian yng Nghriccieth. Edrychwyd ymlaen at weld y prosiect yn cael ei gwblhau a credwyd y bydd y buddsoddiad yn llesol i addysg plant dalgylch Criccieth am flynyddoedd lawer.

#### **4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

#### **5. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2022 fel rhai cywir.

#### **6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AMGYLCHEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig.

#### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor presennol. Adroddwyd ar y sefyllfa ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor yn y Sir gan nodi fod yr Adran yn arwain ar y gwaith o baratoi Cyfarwyddyd Erthygl 4 fydd yn rhoi hawl i awdurdodau cynllunio reoli ail gartrefi. Nodwyd fod y gwaith yma yn parhau gyda'r bwriad o ddod ag adroddiad ger bron y Cabinet yn y flwyddyn newydd.

Soniwyd am rai heriau oedd yn wynebu'r Adran sy'n cynnwys y gwasanaeth cynllunio a'r heriau staffio oedd yn bodoli, yn benodol o fewn y gwasanaeth gorfodaeth cynllunio. Adroddwyd bod 740 o geisiadau yn agored ddiwedd Mehefin sydd bellach wedi lleihau i 586 o geisiadau erbyn diwedd mis Hydref. Canmolwyd y gwaith aruthrol sydd wedi ei gyflawni gan gydnabod bod heriau yn parhau i fodoli ond bod yr Adran yn gwneud eu gorau i gwrdd â'r galw ar y gwasanaeth.

Yn yr un modd adroddwyd ar y gwaith i glirio'r ôl-groniad yn y maes Pridiannau Tir ac i leihau'r cyfartaledd amser i brosesu'r ceisiadau hynny. Nodwyd bod staff dros dro wedi eu penodi a bod y gwasanaeth yn y broses o drosglwyddo i system gyfrifiadurol newydd yn y gobaith y gwnaiff hyn gyflymu'r broses unwaith bydd y system mewn lle.

I gloi adroddwyd ar lwyddiannau o fewn yr Adran oedd yn cynnwys 90% o waith o fewn y maes Gwaith Stryd yn cael ei gyflawni gan gontractwyr o fewn yr amserlen wreiddiol

### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd bod y gwaith sy'n cael ei gwblhau gan yr Adran yn enfawr a'u bod yn chwarae rhan flaenllaw ym mlaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Credwyd eu bod yn haeddu canmoliaeth am yr hyn a gyflawnir.
- Mynegwyd balchder bod amser prosesu ceisiadau Pridiannau Tir yn lleihau a chydabuwyd yr hyn roedd yr Adran yn ei wneud i ymdrin â'r materion. Credwyd ei bod yn amlwg bod yr Adran yn ceisio eu gorau ac yn llwyddo i daclo'r llwyth gwaith ac awgrymwyd i'r Adran rannu eu hymdrechion a'u datrysiadau gan y gall hyn newid canfyddiadau.
- Dymunwyd y gorau i'r Adran tra'n cymryd drosodd rhai agweddau o wasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
- Holiwyd am reolaeth cartrefi modur gan gwestiynu os oedd yr amserlen a nodwyd yn yr adroddiad yn realistig o ran capasiti ac amserlen caniatâd cynllunio.
- Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cynorthwyol bod heriau yn bodoli er enghraifft adnabod safleoedd priodol, roedd hyn wedi bod yn her oherwydd cyfyngiadau cynllunio. Nodwyd bod y ceisiadau cynllunio i fod i gael eu cyflwyno ar gyfer y safleoedd cyn y Nadolig sy'n dangos bod yr amserlen wedi llithro. Cadarnhawyd bod trafodaethau yn parhau o ran yr ochr gyllido efo Croeso Cymru, sy'n cael ei arwain gan yr Adran Economi a Chymuned. Gobeithir gallu cael penderfyniadau yn fuan iawn ar y ceisiadau cynllunio i allu symud ymlaen efo'r wedd datblygu.
- Gofynnwyd am ddiweddariad ar y cynllun 20 milltir yr awr mewn pentrefi. Amlygwyd bod elfen o ddryswch ymhlith y cyhoedd ynglŷn a pwy sy'n arwain ar y cynllun.
- Mewn ymateb nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i newid y terfyn cyflymder o 30 milltir yr awr i 20 mewn pentrefi. Credwyd y bydd hyn yn gwella

ansawdd yr aer a gwneud pentrefi yn fwy diogel. Adroddwyd ei fod yn benderfyniad Llywodraeth Cymru a bod trafodaethau wedi eu cynnal efo Awdurdodau Lleol gyda'r bwriad o'i weithredu erbyn mis Ebrill 2023. Nodwyd y bydd rhai sefyllfaoedd ble bydd y terfyn cyflymder yn aros yn 30, bydd ymgynghorwyr yn cael eu penodi i edrych ar yr eithriadau a bydd ymgynghori yn digwydd efo Cyngorau Cymuned yn fuan iawn. Adroddwyd bod bwriad i ddiweddarau'r Porth Aelodau efo'r wybodaeth fel bod Cyngorwyr yn ymwybodol o'r ymgyrch. Bydd hyn yn amserol oherwydd bod angen codi ymwybyddiaeth o'r cyfnod ymgynghori efo Cyngorau Cymuned. Bydd angen edrych ar yr eithriadau ond ar y cyfan bydd pob man sydd â therfyn cyflymder o 30 ar hyn o bryd o fewn pentrefi / system goleuadau stryd yn newid i 20 milltir yr awr yn fuan.

- Gwnaethpwyd sylw pellach bod gwrthwynebiad gan sawl Cyngor i'r newid hwn gyda cwestiynau yn codi ynglŷn â pha mor ymarferol yw'r cynllun. Adroddwyd bod cais wedi ei wneud i'r Llywodraeth ohirio'r cynllun yn sgil yr argyfwng ariannol presennol am ei fod yn ymddangos yn brosiect costus.
- Holwyd am faterion trafniadaeth gyhoeddus ac am ddiweddariad ar y trafodaethau am drefniadau bysus ar draws Gymru. Pryderwyd am ymarferoldeb hyn mewn lleoliadau gwledig.
- Mewn ymateb nodwyd bod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau rhai wythnosau yn ôl am y maes trafniadaeth gyhoeddus. Nodwyd bod Trafniadaeth i Gymru a Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth i Awdurdodau Lleol i edrych ar rwydweithiau a gwella'r rhain. Cydnabuwyd bod hyn yn heriol mewn ardaloedd gwledig. Adroddwyd bod gwelliannau i'w gweld mewn rhai gwasanaethau a bod ail ddylunio gwasanaeth wedi arwain at fudd i gymunedau lleol. Wedi dweud hyn, nodwyd bod y partneriaethau yn ei chael hi'n anodd cyfarch y costau ychwanegol. Cyfeiriwyd at y bysiau trydan sy'n gynllun arloesol â'r ddarpariaeth i wefru bysiau trydan ym Mhorthmadog. Golyga hyn bod gofyn am gyfraniad gan y Cyngor tuag at y gwaith yma. Nodwyd bod gwelliannau i'w gweld yn y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus ond bod y gwasanaeth cludiant yn gorwario dros £300,000 eleni felly bod y sefyllfa yn un anodd wrth geisio gwella'r ddarpariaeth a chyfrannu at y gwelliant.

## **7. ADRODDIAD PERFFORMIAD PRIFFYRDD, BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Berwyn Parry Jones.

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gyfleu gwerthfawrogiad yn y lle cyntaf i'r gweithwyr sydd yn gweithio dan amgylchiadau anodd a phrysur yn graeanu yn sgil y tywydd oer diweddar a diolchwyd am eu gwaith. Adroddwyd bod y gwasanaethau Casglu a Thrin Gwastraff wedi cael eu trosglwyddo i'r Adran Amgylchedd a bod yr Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi symud i fod yn rhan o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Dymuna'r Aelod Cabinet nodi ei werthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran gan gydnabod y cyfraniad allweddol a wnaethpwyd ganddynt yn

ystod y cyfnod hwn. Amlygwyd y bwriad i newid enw'r Adran yn sgil y symudiadau diweddar. Yr enw a ffafrir yn dilyn ymgynghori â staff yw Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC.

Nodwyd bod cryn dipyn o waith yn wynebu'r Adran dros y misoedd nesaf sy'n cynnwys adolygiad o'r Gwasanaeth Glanhau Stryd a hefyd gwaith manwl yn ymwneud â'r gyllideb. Adroddwyd ar y prosiectau yng Nghynllun presennol y Cyngor sy'n cynnwys y prosiect Cymunedau Glan a Thaclus, Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r prosiect Mapio Gwasanaethau. O dan y prosiect hwn bwriedir gosod gwahanol asedau'r Adran ar fap ble bydd modd i drigolion weld statws yr ased ac adrodd ar unrhyw ddiffygion e.e. lampau stryd neu finiau halen.

Tynnwyd sylw at y Strategaeth Fflyd gan gymryd y cyfle i bwysleisio'r penderfyniad a wnaethpwyd gan y Bwrdd Newid Hinsawdd, sef na ddylai unrhyw Reolwr adnewyddu na gwaredu unrhyw gerbyd heb drafod yn gyntaf efo'r Rheolwr Fflyd. Esboniwyd bod hyn yn hanfodol i lwyddiant y Strategaeth Fflyd. Roedd hyn yn sgil canfyddiad bod gormod o brynu cerbydau wedi digwydd ar sail ad-hoc yn y gorffennol. Credwyd y bydd y cyfarwyddyd hwn yn cael ei rannu ag Adrannau yn fuan.

Amlygwyd prosiectau eraill yr adroddwyd arnynt megis y prosiect Fairbourne cyn symud ymlaen i adrodd ar berfformiad yr Adran gan nodi bodlonrwydd ynglŷn â'r perfformiad. Cyfeiriwyd at y gwaith o amnewid holl oleuadau stryd y Cyngor i dechnoleg LED yn ogystal â'r gwaith glanhau strydoedd, cynnal priffyrdd a'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus.

I gloi soniwyd am waith Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) sydd yn wasanaeth sy'n dod ag incwm sylweddol i'r Cyngor ac yn ymgymryd â swyddogaethau statudol yn y maes dŵr a rheoli llifogydd cyn cyfeirio at sefyllfa ariannol yr Adran. Mynegwyd bod gorwariant o £600,000 o fewn yr Adran bresennol Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn dilyn trosglwyddo rhai gwasanaethau i'r Adran Amgylchedd ond bod gwaith ar y gweill i ddeall y rhesymau dros y gorwariant ac i roi mesurau mewn lle i unioni'r sefyllfa. Adroddwyd bod YGC yn tanwario bron i £30,000.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a chroesawyd newid enw'r Adran.
- Mynegwyd ansicrwydd ynglŷn â pha Adran mae rhai cyfrifoldebau ac agweddau gweithredol y Cyngor yn gorwedd a bod elfen o gymhlethdod yma.
- Ategwyd gwerthfawrogiad i waith yr Adran yn y tywydd oer diweddar gan ychwanegu bod angen i yrwyr neu gerddwyr ystyried os yw eu teithiau yn angenrheidiol gan na all y Cyngor yn anffodus raeanu pob man.
- Credwyd y dylid cyfleu trefn blaenoriaethu graeanu'r ffyrdd i holl Aelodau'r Cyngor fel eu bod yn glir bod trefn yn bodoli. Ategwyd bod trefn o ran graeanu llwybrau dosbarth cyntaf a bod pwysau ar yr Adran i ymateb i bob lleoliad. Cytunwyd y dylid amlygu'r drefn i Aelodau'r Cyngor drwy efallai gyfeiriad ym mwletin yr Arweinydd neu nodyn gan y Pennaeth Adran. Soniwyd hefyd am App Gwynedd sy'n rhestru pa ffyrdd sy'n cael eu graeanu.
- Mynegwyd bod llawer o newyddion da a calonogol yn ymddangos yn yr adroddiad. Credwyd bod cynlluniau cadarn a realistig yn eu lle ar gyfer cwrdd â'r gorwariant at y dyfodol.
- Cyfeiriwyd at yr incwm sy'n cael ei greu o dan y gwasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd gan holi os oedd targed yn bodoli ar gyfer yr elw yma. Cadarnhaodd y

Pennaeth Adran bod targed yn bodoli ond nad yw'r union ffigur ganddo ar hyn o bryd. Eglurwyd bod bwriad dod ag adroddiad ger bron y Tîm Arweinyddiaeth ar y maes YGC yn y flwyddyn newydd a gellir cyfeirio at yr elfen incwm yn yr adroddiad yno.

- Holwyd os gellir pylu goleuadau yn enwedig yng nghanol y nos. Nodwyd y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cynllun arbedion.
- Cyfeiriwyd at y pwyntiau gwefru sy'n cael eu gosod ac os oes incwm yn cael ei dderbyn ohonynt. Cadarnhawyd bod y pwyntiau gwefru sydd mewn meysydd parcio yn eistedd o dan gyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd.

Cymerwyd y cyfle ar ddiwedd y cyfarfod i ddymuno Nadolig Llawen i drigolion y Sir ac i Gyd-aelodau a Swyddogion y Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:05pm

---

**CADEIRYDD**



# Eitem 6

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	24 Ionawr 2023
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn Arweinydd y Cyngor
<b>Swyddog cyswllt:</b>	Sioned Williams Pennaeth Economi a Chymuned  Dylan Griffiths Rheolwr Gwasanaeth Datblygu'r Economi
<b>Manylion cyswllt:</b>	<a href="mailto:sionedewilliams@gwynedd.llyw.cymru">sionedewilliams@gwynedd.llyw.cymru</a> 01286 679547   <a href="#">MSTeams</a>  <a href="mailto:dylanrhysgriffiths@gwynedd.llyw.cymru">dylanrhysgriffiths@gwynedd.llyw.cymru</a> 01286 679611   <a href="#">MSTeams</a>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDU

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Cytuno fod Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â'r rôl 'awdurdod arweiniol' ar gyfer gweithredu Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngogledd Cymru ar ran chwe sir y Gogledd.
- 1.2. Cytuno i'r trefniadau llywodraethu rhanbarthol ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngogledd Cymru fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.
- 1.3. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr – i sefydlu cytundeb cyfreithiol rhyng-awdurdod ac amodau ariannu gyda siroedd eraill Gogledd Cymru i warchod buddiannau Cyngor Gwynedd.
- 1.4. Cytuno i'r trefniadau llywodraethu lleol ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngwynedd fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.
- 1.5. Awdurdodi sefydlu Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd i gynnwys Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol i gadarnhau pa gynlluniau fydd yn cael eu dewis i dderbyn arian ar sail y meini prawf nodir yn adrannau 3.1 a 3.21 yr adroddiad.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UK Shared Prosperity Fund / UKSPF) yw un o'r cronfeydd amgen sefydlwyd gan Lywodraeth y DG yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd.
- 2.2. Cyflwynwyd [adroddiad i Gabinet y Cyngor ar 19 Gorffennaf 2022 \(Eitem 7\)](#) yn amlinellu cefndir a chynnwys yr UKSPF a'r gofynion o ran sicrhau mynediad i'r arian.
- 2.3. Fel cam gyntaf, cyflwynwyd 'Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol' ar gyfer Gogledd Cymru ar 01 Awst 2022 yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer defnydd y cyllid a'r bwriad ar gyfer ei weinyddu.
- 2.4. Ar 05 Rhagfyr 2022, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth y DG fod Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ei ddilysu.
- 2.5. Bellach mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025, ynghyd â Llythyrau Penderfyniad Grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 wedi dod i law.
- 2.6. Gyda hyn mae angen cadarnhau'r trefniadau llywodraethu a gweithredu ar gyfer yr UKSPF yng Ngwynedd ac yng Ngogledd Cymru.

## 3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Cyhoeddwyd [prospectws Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG \(UKSPF\)](#) ar 13 Ebrill 2022. Bydd y Gronfa yn dosbarthu £2.6 biliwn o gyllid ar draws y DG erbyn Mawrth 2025.
- 3.2. Bydd pob rhan o'r DG yn derbyn rhan o'r arian gyda'r cyllid wedi ei ddethol i ardaloedd unigol ar sail fformiwla.
- 3.3. Yn Lloegr, bydd y cyllid yn mynd yn uniongyrchol i siroedd unigol i'w ddefnyddio neu dddosbarthu i sefydliadau eraill. Yng Nghymru (a'r Alban), mae'n ofynnol i ardaloedd lleol gydweithio gydag eraill o fewn eu rhanbarth (Gogledd Cymru yn achos Gwynedd).
- 3.4. Dyranriad Gwynedd ar gyfer y cyfnod hyd at Fawrth 2025 yw £24.4 miliwn. Mae £4.2 miliwn o'r cyfanswm wedi ei warchod i gefnogi oedolion wella eu sgiliau rhifedd.
- 3.5. Mae'r dyranriad i Wynedd yn rhan o £126.46 miliwn sydd wedi ei ddyrannu i siroedd Gogledd Cymru.
- 3.6. Un 'awdurdod arweiniol' fydd yn atebol am yr arian ar ran rhanbarth. Mae Prif Weithredwyr y Gogledd wedi gofyn i Gyngor Gwynedd - gyda

chefnogaeth Swyddfa Rheoli Rhaglen, Uchelgais Gogledd Cymru - gyflawni'r rôl.

- 3.7. Er bod pwyslais ar gydweithio rhanbarthol yng nghyd-destun yr UKSPF, gwneud gwahaniaeth i fywydau trigolion lleol yw'r perwyl ac mae pob sir yng Ngogledd Cymru yn gytûn:
- fod angen i ardaloedd elwa yn unol â gwerth eu dyraniad unigol;
  - mai mater i ardaloedd lleol yw penderfynu ar ddefnydd eu cyllid; ac,
  - fod angen i ardaloedd lleol ddewis bod yn rhan o gynlluniau sy'n dymuno gweithredu ar draws siroedd.
- 3.8. O ran dyrannu'r gyllideb mae canllawiau Llywodraeth y DG yn caniatáu'r dulliau canlynol:
- grantiau cystadleuol (yr opsiwn a ffafrir gan Llywodraeth DG);
  - caffael / comisiynu; a,
  - cyflawni'n uniongyrchol
- 3.9. Gan adlewyrchu'r gofynion, mae siroedd y Gogledd yn gytûn mai drwy grantiau cystadleuol dylid dyrannu yr arian yn arferol, gyda disgrisiwn i siroedd unigol ddewis defnyddio'r dulliau amgen petai'r angen yn codi.

### Swyddogaethau Cyngor Gwynedd gyda'r UKSPF

- 3.10. Yng ngoleuni'r uchod, bydd tair swyddogaeth gan Gyngor Gwynedd gyda'r UKSPF:
- a) gweinyddu a rheoli'r UKSPF yn rhanbarthol ar ran siroedd Gogledd Cymru gan gyfarch gofynion Llywodraeth y DG;
  - b) gweinyddu a rheoli'r UKSPF yn lleol (fel siroedd eraill y Gogledd); a,
  - c) yn yr un modd â sefydliadau eraill, ymgeisio am adnoddau o'r UKSPF a gweithredu cynlluniau petai ceisiadau'r Cyngor yn llwyddo.
- 3.11. Y ddwy swyddogaeth gyntaf sydd dan sylw yn yr adroddiad yma. Bydd ceisiadau gan Gyngor Gwynedd am adnoddau o'r UKSPF yn ddarostyngedig i drefniadau arferol y Cyngor ar gyfer cymeradwyo ceisiadau ariannol.

### Y dyletswyddau i'w cyflawni'n sirol ac yn rhanbarthol

- 3.12. Dyma grynodedeb o'r prif dasgau sydd i'w cyflawni'n sirol ac yn rhanbarthol o ran rheoli a gweinyddu'r UKSPF yng Ngogledd Cymru:


<b>Rhanbarthol</b> (Cyngor Gwynedd)	<b>Sirol</b> (chwe sir y Gogledd gan gynnwys Cyngor Gwynedd)
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo'r UKSPF yn rhanbarthol</li> <li>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol</li> <li>• Hwyluso datblygu prosiectau rhanbarthol</li> <li>• Darparu cyngor a chefnogaeth i ymgeiswyr a noddwyr ceisiadau llwyddiannus (cynlluniau yn gweithredu ar draws sawl sir)</li> <li>• Derbyn ceisiadau a'u dosbarthu i siroedd perthnasol</li> <li>• Casglu adborth rhanddeiliaid ar geisiadau yn gweithredu ar draws sawl sir</li> <li>• Asesu a yw ymgeiswyr yn addas i dderbyn arian UKSPF (cynlluniau yn gweithredu ar draws sawl sir)</li> <li>• Monitro perfformiad y rhaglen yn rhanbarthol</li> <li>• Cynnal strwythurau llywodraethu rhanbarthol</li> <li>• Rhyddhau llythyrau cynnig i ymgeiswyr llwyddiannus ar ran y siroedd sy'n eu cymeradwyo</li> <li>• Rhyddhau, derbyn a phrosesu hawliadau cynlluniau</li> <li>• Monitro perfformiad prosiectau unigol</li> <li>• Coladu gwybodaeth monitro cynlluniau ac adrodd yn ôl y gofyn.</li> <li>• Sicrhau fod yr UKSPF yng Ngogledd Cymru yn gweithredu yn unol â gofynion Llywodraeth y DG</li> <li>• Cynnal perthynas gyda Llywodraeth y DG</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo'r UKSPF yn lleol</li> <li>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol</li> <li>• Hwyluso datblygu prosiectau lleol</li> <li>• Darparu cyngor a chefnogaeth i ymgeiswyr a noddwyr ceisiadau llwyddiannus (cynlluniau yn gweithredu o fewn un sir yn unig)</li> <li>• Cynnal partneriaeth leol i gynghori ar flaenoriaethau</li> <li>• Derbyn ceisiadau (drwy law'r awdurdod arweiniol)</li> <li>• Casglu adborth rhanddeiliaid ar geisiadau</li> <li>• Blaenoriaethu ceisiadau a dewis prosiectau</li> <li>• Asesu a yw ymgeiswyr yn addas i dderbyn arian UKSPF (cynlluniau yn gweithredu o fewn un sir yn unig)</li> <li>• Monitro perfformiad y rhaglen yn lleol</li> </ul>

Rhanbarthol (Cyngor Gwynedd)	Sirol (chwe sir y Gogledd gan gynnwys Cyngor Gwynedd)
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno hawliadau ac adroddiadau i Lywodraeth y DG</li> <li>• Gwerthuso'r perfformiad yr UKSPF yng Ngogledd Cymru.</li> </ul>	


- 3.13. I gyflawni'r dyletswyddau uchod bydd angen sicrhau fod trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu sefydlu, fod cytundeb priodol rhwng siroedd y Gogledd ac adnoddau ariannol a staff digonol i gyflawni'r gwaith.
- 3.14. Mae cytundeb cyfreithiol yn cael ei sefydlu rhwng Cyngor Gwynedd a siroedd y Gogledd i warchod buddiannau'r Cyngor. Bydd y cytundeb yn gwarantu fod siroedd unigol yn atebol am eu penderfyniadau a'r atebolrwydd ariannol fydd yn deillio o hynny.
- 3.15. Yn gyfochrog, mae'r chwe sir wedi bod yn gweithio ar y cyd i sicrhau fod strwythurau llywodraethu priodol - a thimau /cyllidebau addas - yn cael eu sefydlu'n rhanbarthol ac ymhob sir i reoli a monitro'r rhaglen (caniateir defnydd cyfran o'r dyraniad ariannol i sicrhau adnoddau priodol i gyflawni'r gwaith).

### Strwythurau llywodraethu ac adnoddau gweinyddu rhanbarthol

- 3.16. Mae'n anorfod y bydd angen sefydlu fîm o swyddogion yn benodol i sicrhau fod y tasgau a amlinellwyd yn 3.10 uchod yn cael eu cyflawni a bod buddiannau Cyngor Gwynedd fel awdurdod arweiniol - a holl siroedd y Gogledd - yn cael eu gwarchod.
- 3.17. I'r perwyl, bydd y pump swydd ganlynol yn cael eu creu dros dro - gan ddefnyddio'r gyllideb weinyddol sydd ar gael o'r UKSPF - i weinyddu a rheoli'r UKSPF yng Ngogledd Cymru:



- 3.18. Yn ogystal â'r uchod bydd cyllidebau penodol yn cael eu sefydlu ar gyfer cyfarch y costau canlynol:
- Gorbenion / teithio a chynhaliaeth
  - Cyfreithiol
  - Cyllid
  - Gwerthuso
  - Cyfathrebu a marchnata
- 3.19. Bydd cyllideb hefyd yn cael ei gadw wrthgefn yn y tymor byr i leihau'r risg o gostau annisgwyl gan fod gofynion Llywodraeth y DG yn parhau i esblygu.
- 3.20. I gefnogi'r swyddogion yn eu gwaith ac i sicrhau goruchwyliaeth briodol o'r gronfa, bwriedir sefydlu'r strwythur llywodraethu canlynol gan esblygu'r trefniadau sydd eisoes yn eu lle ar gyfer datblygu cynigion Gogledd Cymru ar gyfer yr UKSPF:



### Strwythurau llywodraethu ac adnoddau gweinyddu sirol Gwynedd

- 3.21. Yn yr un modd, mae angen sicrhau adnoddau priodol i alluogi'r Cyngor gyflawni'r rôl sirol a amlinellwyd yn 3.10 uchod.
- 3.22. Mae'r gofynion sirol yn llai na'r gofyn yn rhanbarthol, gan adlewyrchu hyn, dim ond un swydd llawn amser bwriedir ei sefydlu sef Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd, gyda diwrnod yr wythnos o amser i gefnogi monitro, gwerthuso a chydymffurfiaeth yn lleol a diwrnod yr wythnos o adnodd gweinyddol yn cael eu darparu o blith staff presennol y Cyngor.

- 3.23. Eto yn lleol bydd cyllidebau penodol yn cael eu sefydlu ar gyfer cyfarch y costau gorbenion / teithio a chynhaliaeth; cyfreithiol; cyllid a chyfathrebu / marchnata; a chyllideb yn cael ei gadw wrth-gefn yn y tymor byr i leihau'r risg o gostau annisgwyl.
- 3.24. Bydd yr holl gostau lleol ar gyfer gweinyddu'r UKSPF yn cael eu talu gan y gronfa.
- 3.25. O ran llywodraethu a blaenoriaethu cynlluniau sydd yn dymuno derbyn arian o'r UKSPF mae canllawiau Llywodraeth y DG yn glir mae awdurdodau lleol sydd yn atebol am yr arian a'i ddefnydd ac felly'n gyfrifol am benderfynu pa geisiadau fydd yn cael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, mae'n ofynnol, fod awdurdodau yn derbyn mewnbwn ystod ehangach o rhanddeiliaid wrth flaenoriaethu ceisiadau.

#### Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd

- 3.26. I'r perwyl, mae'r Cyngor wedi dod a phartneriaeth leol - Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd - ynghyd, gan gynnwys rhanddeiliaid lleol allweddol yn cynrychioli'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector:
- Cyngor Gwynedd
  - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
  - Grŵp Llandrillo-Menai
  - Prifysgol Bangor
  - Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr
  - Mantell Gwynedd
  - Rhwydwaith Mentrau Cymunedol Gwynedd
  - Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Gwynedd
  - Y Ffederasiwn Busnesau Bach
  - Rhwydwaith Busnes Gwynedd
- 3.27. Mae'r Grŵp wedi bod yn cwrdd ar sail gysgodol ers yr Hydref er mwyn datblygu dealltwriaeth a chydysniad eang i fwriadau'r Cyngor o ran gweinyddu'r UKSPF yng Ngwynedd.
- 3.28. Bydd argymhellion Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd yn cael eu cyflwyno i sylw'r Cyngor i'w hystyried ac i ddod i benderfyniad terfynol a bwriedir sefydlu panel mewnlol yn benodol i gyflawni'r dasg.

#### Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd

- 3.29. Bydd aelodaeth 'Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd' yn cynnwys Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithol.

- 3.30. Bydd y Panel yn ystyried argymhellion y Grŵp Ymgynghorol gan roi sylw i'r meini prawf canlynol yng nghyswllt y cynlluniau unigol:
- Cymhwysedd y cynnig ar gyfer yr UKSPF a'i berthnasedd i Amcanion y Gronfa
  - Perthnasedd y cynnig i amcanion strategol y sir a'i gyfraniad i'w cyflawni
  - Gallu'r ymgeisydd i gyflawni ac ymarferoldeb y cynnig
  - Gwerth am arian / canlyniadau'r cynnig
  - Ychwanegedd y cynnig i weithgaredd presennol / arfaethedig
- 3.31. Bydd y Panel hefyd yn ystyried cydbwysedd y detholiad o weithgaredd fydd yn derbyn cefnogaeth drwy law'r UKSPF yn ei gyfanrwydd.
- 3.32. Bydd yr Aelodau Etholedig ar y Panel yn eithrio eu hunain o drafod cynllun wedi leoli o fewn eu hetholaeth neu ble mae buddiant personol yn y cais. Dylid ystyried cyfeirio sefyllfa o'r fath i'r Cabinet am benderfyniad er sicrhau priodoldeb a thryloywder
- 3.33. Bydd ceisiadau sydd yn cynrychioli risg uchel i'r Cyngor yn sgil asesiad yn cael eu cyfeirio i'r Cabinet

### Y drefn ymgeisio a dewis prosiectau

---

- 3.34. Yn fras, bydd y drefn ar gyfer derbyn a dewis ceisiadau yn dilyn y camau canlynol:

#### Cam un

Ymgeiswyr yn cyflwyno ceisiadau cryno o fewn cyfnod penodol (drwy law porth ar y we sy'n gyffredin i bob sir). Ceisiadau yn cael eu dosbarthu gan y fîm rhanbarthol i siroedd perthnasol.

#### Cam dau

Tîm lleol (a rhanbarthol yn achos cynlluniau yn dymuno gweithredu ar draws sawl sir) i asesu'r ceisiadau cryno.

#### Cam tri

Yng Ngwynedd, Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd i ystyried y ceisiadau a chynnig argymhellion i'r Cyngor yn glŷn â pha brosiectau dylid eu blaenoriaethu.

#### Cam pedwar

Cyngor Gwynedd i benderfynu pa geisiadau i'w cefnogi / gwrthod yn y sir (Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd - i'w gadarnhau drwy law Taflen Penderfyniad Aelod Cabinet gan yr Arweinydd)

#### Cam pump

Ymgeiswyr llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn yn manylu ymhellach ar gynnwys y ceisiadau cryno.

#### Cam chwech

Siroedd i ddilysu'r ceisiadau llawn a chadarnhau penderfyniad.



## Cam saith

Cyngor Gwynedd - yn ei rôl awdurdod arweiniol - i ryddhau llythyrau cynnig ar sail cyfarwyddyd gan y siroedd

### **4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIADAU**

- 4.1. Mae cynnwys yr adroddiad a'r penderfyniadau a argymhellir yn ffrwyth trafodaethau manwl rhwng siroedd y Gogledd.
- 4.2. Mae'r dull o weithredu yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng gwarchod buddiannau Cyngor Gwynedd yn ei rôl o fod yn awdurdod arweiniol ar gyfer Gogledd Cymru a chaniatáu dull ymarferol o weithredu i'r siroedd unigol.
- 4.3. Er hyn mae angen bod yn ymwybodol fod nifer o faterion fydd angen parhau i'w rheoli drwy gydol oes gweithredu'r UKSPF, gan gynnwys:
  - Y diffyg arweiniad a manyler mae Llywodraeth y DG wedi ei ddarparu ynglŷn â'u gofynion
  - Y cyfnod afresymol o fyr sydd ar gael ar gyfer cyflawni'r rhaglen
  - Y cymhlethdod anorfod sy'n deillio o'r dull gweithredu lleol / rhanbarthol mae'r UKSPF yn ei orfodi yng Nghymru
  - Yr ansicrwydd sy'n deillio o ddarparu Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth ar gyfer cyfnod y rhaglen ond dim ond llythyrau cynnig ar gyfer un flwyddyn ariannol ar y tro. Mae hyn yn arbennig o wir yn 2022/23 gyda dim ond tri mis o'r flwyddyn ariannol yn weddill.

### **5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

- 5.1. O dderbyn cytundeb y Cabinet, bydd y drefn o dderbyn ceisiadau ar gyfer arian UKSPF yn cychwyn diwedd Ionawr gyda chyfnod penodol i ymgeiswyr gyflwyno eu ceisiadau cryno.
- 5.2. Gyda golwg ar y cyfnod byr sydd ar gael i gyflawni'r rhaglen anelir i ymrwymo dyraniad ariannol Gwynedd mor fuan â phosib - yn ddelfrydol cyn yr haf - i uchafu'r amser sydd ar gael i weithredu cynlluniau.

### **6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

- 6.1. Mae'r cynigion ar gyfer rheoli a gweinyddu'r UKSPF yng Ngogledd Cymru fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad yn ffrwyth llafur cydweithio parhaus ymhlith siroedd y Gogledd ers cyfnod yr haf.
- 6.2. Fel nodwyd yn 3.27 mae Grŵp Cyngchori Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd wedi bod yn cwrdd ar ffurf cysgodol ers yr Hydref er

mwyn sicrhau fod dealltwriaeth a chydysyniant eang i'r bwriad ar gyfer gweinyddu'r gronfa yng Ngwynedd.

6.3. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*"Wrth dderbyn y swyddogaeth awdurdod arweiniol mae Cyngor Gwynedd fel y nodir yn ymrwymo i amodau'r gronfa gyda' Llywodraeth y DG. Mae'n allweddol felly fod cytundebau rhwng awdurdod a grantiau yn caniatáu i Wynedd gyfarch unrhyw ofynion sydd yn disgyn ar Cyngor i gael sicrwydd a gwirio fod defnydd yr arian yn unol a'r amodau. Mae hyn yn gyfundrefn sydd yn hollol arferol mewn sefyllfa o'r fath ac yn adlewyrchiad o drefn rheoli a didoli risgiau yn briodol. Mae hefyd yn bwysig fod trefniadau gweinyddu y gronfa yng Ngwynedd yn dryloyw ac yn atebol. Mae'n hanfodol fod y Cabinet felly yn gosod disgwyliadau a fframwaith dirprwyedig eglur ar gyfer y gweinyddu gan gynnwys cadw rôl wrth gefn er sicrhau hyn."*

6.4. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

*"Mae'r adroddiad yn nodi (ym mharagraff 3.10) fod Cyngor Gwynedd â thair rôl unigryw wrth ymdrin â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DG. Bydd pob un o'r rolau hyn yn gofyn am sefydlu trefniadau llywodraethu a gweithredu cadarn er mwyn gwarchod buddiannau'r Cyngor; mae rôl y Cyngor fel awdurdod arweiniol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru yn enwedig yn creu risgiau unigryw. Credaf fod y trefniadau a gynhigir yn yr adroddiad hwn yn rhoi sylfaen gadarn er mwyn gallu symud ymlaen gyda cham nesaf y broses, a gwarchod buddiannau Cyngor Gwynedd. Byddaf yn gweithio gyda'm cyd-swyddogion wrth ddatblygu'r trefniadau."*

## ADRODDIAD I'R CABINET 24 IONAWR 2023

**Aelod Cabinet:** Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2022/23 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2022

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

### 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2022 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Er nad yw'r effaith mor sylweddol bellach o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, nodi bod effaith ariannol Covid ar rai meysydd yn parhau yn 2022/23, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colled incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion.
- Nodi bod rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Tai ac Eiddo eleni. Manylir ar y rhesymau penodol sydd yn effeithio'r adrannau yn rhan 5 o'r adroddiad, ond mae effaith y cynnydd mewn chwyddiant a phrisiau trydan yn benodol yn ffactor.
- Cymeradwyo trosglwyddiad o £3.188 miliwn o danwariant ar gyllidebau Corfforaethol i Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.
- Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, argymhellir mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:
  - yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r costau ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymhorthyddion, staff gweinyddol a thrydan sydd uwchlaw lefel y gyllideb yn yr ysgolion
  - yn ail, defnyddio'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor i gyllido'r pwysau ychwanegol yn y maes Digartrefedd
  - yn olaf, defnyddio'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Tachwedd yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2022/23, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Addysg, Economi a Chymuned, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Thai ac Eiddo yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Adroddir ar orwariant sylweddol gan bump o'r chwe adran, tra bod gweddill adrannau'r Cyngor yn gweithredu o fewn eu cyllideb.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

## 3. Covid

Mae sgil effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm oedd werth dros £20 miliwn yn 2020/21 a £17.5 miliwn pellach yn 2021/22. Bu modd i Awdurdodau Lleol hawlio o gronfa caledi Llywodraeth Cymru i'w digolledu yn 2020/21 ac yn 2021/22, ond gan fod y gronfa bellach wedi dod i ben, mae'r pwysau yn disgyn ar y Cyngor yn 2022/23.

Er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, mae costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad ar gynlluniau arbedion yn sgil Covid yn parhau mewn rhai meysydd.

## 4. Sefyllfa Arbedion

Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa arbedion, ymddengys fod gwerth £33.5 miliwn sef 95% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu. Bu oediad mewn gwireddu rhai cynlluniau arbedion o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwelwyd fod yr oediad mewn gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda chynlluniau gwerth £930k, tra bod £608k gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

## **5. Adrannau'r Cyngor**

Ceir rhagolygon gorwariant sylweddol am amrywiol resymau mewn pum adran eleni. Mae'r prif faterion o fewn yr adrannau fel a ganlyn:

### **5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu dros £2.2 miliwn o orwariant, sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu gwerth £930k o arbedion. Pwysau ar lety cefnogol a phecynnau taliadau uniongyrchol yn faterion yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn tra bod staffio uwchlaw lefel y gyllideb a diffyg incwm yn faterion yng Ngofal Cymunedol.

### **5.2 Adran Addysg**

Rhagwelir gorwariant o £1.6m gan yr Adran Addysg sydd o ganlyniad i effaith cost ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymorthyddion a staff gweinyddol £1,031k uwchlaw'r gyllideb eleni. Rhagwelir fod effaith prisiau trydan uwch ar yr ysgolion am y chwe mis o Hydref 2022 ymlaen yn £614k. O ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ystyrir ei bod felly yn briodol i ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni.

### **5.3 Byw'n Iach**

O ganlyniad i sgil effaith Covid, bu i Gwmni Byw'n Iach dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru oedd werth £1.4 miliwn yn 2021/22 a £2.7 miliwn yn 2020/21. Nid yw cymorth o'r fath ar gael gan y Llywodraeth eleni. Ond, gan fod sgil effaith ariannol covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar y gallu i gynhyrchu incwm, bu i'r Cyngor gadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau Byw'n Iach drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd 2022/23. Yn ôl y rhagolygon diweddaraf gwerth y cymorth sydd ei angen yw £839k. Prisiau trydan uwch o £183k sydd yn gyfrifol am weddill y gorwariant yn Byw'n Iach.

## **5.4 Gwastraff ac Ailgylchu**

Y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau. Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol hefyd yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £608k, gyda £335k ohono yn y maes gwastraff.

## **5.5 Tai ac Eiddo**

Oblygiadau newid deddfwriaethol yn ymwneud â Digartrefedd yn golygu pwysau ariannol sylweddol eleni. Er bod dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau yn sgil covid y Cyngor wedi ei roi i gynorthwyo'r sefyllfa, rhagwelir gorwariant net o £2.7 miliwn eleni.

## **5.6 Corfforaethol**

Rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23 a newid i ddeddfwriaeth trethiant yn ffactor sydd yn cyfrannu at gynnyrch treth ychwanegol, gyda thai yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor. Lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Y rhagolygon derbyniad llog £1.3 miliwn yn fwy ffafriol yn dilyn y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog.

## **6. Casgliad Cyffredinol**

Sefyllfa gorwariant o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu arbedion, sgil effaith ariannol Covid, chwyddiant cyflogau uwchlaw lefel y gyllideb, prisiau cynyddol trydan ynghyd â nifer o faterion eraill yn amlwg o fewn yr adrannau eleni. Rhagwelir y bydd yn rhaid gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn Ysgolion a'r Cyngor i gyllido'r bwlch ariannol o £7.4 miliwn a ragwelir am 2022/23.

## **7. Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet yn ystod Mis Mai ar sefyllfa diwedd y flwyddyn ariannol.

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol****Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

**Cyllideb Refeniw 2022/23 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran**

	<b>Adolygiad Diwedd Tachwedd</b>				<i>Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23</i> £ '000
	<b>Cyllideb Arfaethedig 2022/23</b> £'000	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b> £ '000	<b>Addasiadau a Argymhellir</b> £'000	<b>Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b> £ '000	
<b>Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	<b>65,976</b>	<b>2,242</b>	<b>0</b>	<b>2,242</b>	<b>1,920</b>
<b>Plant a Theuluoedd</b>	<b>21,502</b>	<b>36</b>	<b>0</b>	<b>36</b>	<b>88</b>
<b>Addysg</b>	<b>103,142</b>	<b>1,645</b>	<b>0</b>	<b>1,645</b>	<b>1,312</b>
<b>Economi a Chymuned</b>	<b>6,407</b>	<b>839</b>	<b>0</b>	<b>839</b>	<b>1,231</b>
<b>Prifffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>29,110</b>	<b>1,740</b>	<b>0</b>	<b>1,740</b>	<b>1,836</b>
<b>Amgylchedd</b>	<b>4,376</b>	<b>(188)</b>	<b>0</b>	<b>(188)</b>	<b>(13)</b>
<b>Ymgynghoriaeth Gwynedd</b>	<b>229</b>	<b>(69)</b>	<b>0</b>	<b>(69)</b>	<b>(30)</b>
<b>Tai ac Eiddo</b>	<b>10,227</b>	<b>2,728</b>	<b>0</b>	<b>2,728</b>	<b>3,283</b>
<b>Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol</b>	<b>2,176</b>	<b>(18)</b>	<b>0</b>	<b>(18)</b>	<b>(27)</b>
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol</b>	<b>7,999</b>	<b>(19)</b>	<b>0</b>	<b>(19)</b>	<b>(42)</b>
<b>Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)</b>	<b>7,249</b>	<b>(14)</b>	<b>0</b>	<b>(14)</b>	<b>(21)</b>
<b>Cyllidebau Corfforaethol</b> <i>(Gwahaniaethau yn unig)</i>	*	<b>(4,668)</b>	<b>3,188</b>	<b>(1,480)</b>	<b>(2,483)</b>
<b>Cyfansymiau (net)</b>	<b>265,642</b>	<b>4,254</b>	<b>3,188</b>	<b>7,442</b>	<b>7,054</b>



**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Gwasanaethau Oedolion</u></b>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	18,257	17,497	(760)		(760)	(554)
Gofal Cartref	7,978	7,712	(266)		(266)	(189)
Eraill	296	1,588	1,292		1,292	1,256
	26,531	26,797	266	0	266	513
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,794	2,323	(471)		(471)	(510)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	24,211	24,935	724		724	215
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	4,176	4,400	224		224	258
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	3,853	3,799	(54)		(54)	(41)
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u></b>	<b>61,565</b>	<b>62,254</b>	<b>689</b>	<b>0</b>	<b>689</b>	<b>435</b>
<b><u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u></b>						
Gofal Preswyl	585	638	53		53	122
Gofal Dydd	21	(159)	(180)		(180)	(165)
Gofal Cymunedol	412	2,192	1,780		1,780	1,550
Eraill	19	30	11		11	35
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u></b>	<b>1,037</b>	<b>2,701</b>	<b>1,664</b>	<b>0</b>	<b>1,664</b>	<b>1,542</b>

<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD</b>						
<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Gwasanaethau Eraill</u></b>						
Gwasanaethau Canolog Adrannol ( <i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i> )	3,315	3,601	286		286	340
Gwariant Ychwanegol Gweithlu Gofal Sgil Covid 19	59	59	0		0	0
Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran		(397)	(397)		(397)	(397)
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u></b>	<b>3,374</b>	<b>3,263</b>	<b>(111)</b>	<b>0</b>	<b>(111)</b>	<b>(57)</b>
<b><u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u></b>	<b>65,976</b>	<b>68,218</b>	<b>2,242</b>	<b>0</b>	<b>2,242</b>	<b>1,920</b>

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - Yn 'Eraill' cynnydd yn y pwysau ar lety cefnogol ac yn nifer y pecynnau taliadau uniongyrchol, ond fod llai o bwysau ar breswyl a nyrsio a gofal cartref. Trafferthion gwireddu arbedion hefyd yn cyfrannu at y darlun.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - lleihad yn y galw am ofal cartref ond pwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - nifer o achosion newydd costus llety cefnogol a phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol sydd yn cael ei leihau gan lai o gynlluniau cefnogol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - y tueddiad o bwysau cynyddol ar breswyl a nyrsio yn parhau.

**Gwasanaethau Darparu** - staffio uwchlaw lefel y gyllideb a diffyg incwm yn faterion yn gofal cymunedol, tra fod prisiau uwch trydan wedi arwain at orwariant gan gartrefi preswyl. Bu i effaith Covid amharu ar ddarpariaeth Gofal Dydd, sydd yn parhau ac felly yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - arbedion gwerth £545k yn parhau heb eu gwireddu ond trosiant staff yn lleihau'r effaith.

**Cyllideb 2022/23** - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £3.4 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2022/23 gan gynnwys i'r maes Preswyl a Nyrsio, Anabledd Dysgu a Phobl Hŷn.

**Arbedion** - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £930k o gynlluniau yn parhau heb eu gwireddu.

Mae'r adran wedi defnyddio £397k o'u cronfa tanwariant i leihau'r gorwariant a adroddir i £2.2 miliwn.

Yn dilyn adrodd ar orwariant o £1.9m yn yr Adolygiad Diwedd Awst, bu i'r Prif Weithredwr alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol i fynd i wraidd y gorwariant gyda'r bwriad o adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

<b>Adran Plant a Theuluoedd</b>	<b>Cyllideb Arfaethedig 2022/23</b>	<b>Amcan Sefyllfa 2022/23</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	<b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23</b>
<b>Maes:-</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Rheolaeth Gwasanaeth	860	853	(7)		(7)	(43)
Gweithredol	2,502	2,703	201		201	146
Lleoliadau					0	
Lleoliadau All-Sirol	5,064	4,993	(71)		(71)	(335)
Maethu Drwy Asiant	1,696	1,607	(89)		(89)	(16)
Maethu Mewnol	2,613	2,314	(299)		(299)	(100)
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,819	1,878	59		59	117
	11,192	10,792	(400)	0	(400)	(334)
Ôl-16	1,367	1,408	41		41	195
Arbenigol/Derwen	2,240	2,671	431		431	327
Cyfiawnder Ieuenctid	270	232	(38)		(38)	(39)
Blynyddoedd Cynnar	143	141	(2)		(2)	(21)
Ieuenctid	930	741	(189)		(189)	(208)
Eraill	1,998	1,997	(1)		(1)	65
<b>Cyfanswm Plant a Theuluoedd</b>	<b>21,502</b>	<b>21,538</b>	<b>36</b>	<b>0</b>	<b>36</b>	<b>88</b>

**Plant a Theuluoedd**

**Gweithredol** - gwariant yn uwch gan fod y niferoedd sydd yn derbyn cefnogaeth cynlluniau cefnogol yn uwch ac felly yn cael oblygiadau ar gostau eraill gan gynnwys teithio.

**Lleoliadau** - nifer cyfartalog Lleoliadau All-Sirol eleni yn 23.3 ac yn gyson i gymharu gyda 23.25 ar gyfer 2021/22. Er bod y nifer cyfartalog yn Maethu drwy Asiant yn 33 ar ddiwedd Tachwedd i gymharu â 31 yn 2021/22, rhagwelir y bydd y gost o fewn y gyllideb. Yn Maethu Mewnol, o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o geiswyr lloches derbyniad incwm gan y Swyddfa Gartref ar eu cyfer yn golygu bod tanwariant o (£299k) yn cael ei ragweld. Yn Gwasanaethau Cefnogol Eraill cyflogau uwchlaw'r sefydliad yn y Tim Lleoliadau ond fod llai o bwysau ar y gyllideb gweithwyr

**ŌI-16** - dau becyn dwys bellach wedi dod i ben a lleihad yn y pwysau a dwyster pecynnau eraill.

**Arbenigol/Derwen** – y tueddiad gorwariant cynyddol yn parhau o ganlyniad i gynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol. Newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach sydd yn gyfrifol am £100k o'r gorwariant.

**Cyfiawnder leuenctid** - trosiant staff yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

**leuenctid** – derbyniad grant yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth. Bu i Covid amharu ar weithgaredd y gwasanaeth ac felly ceir llai o wariant o ganlyniad.

**Eraill** - mwy o drosiant staff yn lleihau'r gorwariant ar amrywiol benawdau eraill.

<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD</b>						
<b>Adran Addysg</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	85,924	85,924	0		0	0
Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Chwyddiant Staff a Thrydan Uwchlaw'r Gyllideb	0	1,645	1,645		1,645	1,508
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(989)	(1,027)	(38)		(38)	(115)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	6,017	6,499	482		482	211
Gwasanaeth Atodol	1,254	1,284	30		30	40
Eraill	3,158	2,991	(167)		(167)	(93)
	10,429	10,774	345	0	345	158
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,488	2,214	(274)		(274)	(228)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	5,290	5,306	16		16	(11)
Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran		(49)	(49)		(49)	0
<b>Cyfanswm Addysg</b>	<b>103,142</b>	<b>104,787</b>	<b>1,645</b>	<b>0</b>	<b>1,645</b>	<b>1,312</b>

**Addysg**

**Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Chwyddiant Staff a Thrydan uwchlaw'r gyllideb** - cost ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymorthyddion a staff gweinyddol yn £1,031k uwchlaw'r gyllideb eleni. Effaith prisiau trydan uwch ar yr ysgolion am y chwech mis o Hydref 2022 ymlaen yn £614k. O ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ystyrir ei bod felly yn briodol i ddefnyddio £1,645k balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni.

**Cludiant** - er fod £146k o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes tacsis a threnau ysgolion yn 2021/22 a £150k pellach yn 2022/23, rhagwelir gorwariant o £279k eleni. Cynnydd sylweddol hefyd yn y pwysau ar y gyllideb bysus ysgolion gyda £199k o orwariant yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, awgrymir fod yr angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - cynllun Llywodraeth Cymru i gyllido cinio am ddim i blant derbyn a Blwyddyn 1 o Fedi 2022 a Blwyddyn 2 o Ionawr 2023, yn golygu nad yw'r tueddiad diffyg incwm a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf ar ginio ysgol yn amlwg eleni. Cynnydd mewn prisiau bwyd, diffyg incwm a chostau staff uwch i'w gweld ar yr elfen gofal o'r clybiau brechwast. Arian grant, swyddi gwag a llai o bwysau ar gyllidebau eraill yn lleihau lefel y gorwariant.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol gan gynnwys derbyniad grant i gyllido gwariant craidd.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £218k.

Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant o £1,645k yr Adran Addysg o ganlyniad i gostau ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymorthyddion a staff gweinyddol a thrydan sydd uwchlaw lefel y gyllideb yn yr ysgolion, **argymhellir** fod y Cabinet yn ystyried os y dylid cyllido'r costau ychwanegol eleni o falansau'r ysgolion unigol.

<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD</b>						
<b>Adran Economi a Chymuned</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	397	397	0		0	0
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	1,169	1,132	(37)		(37)	15
Morwrol a Pharciau Gwledig	56	(9)	(65)		(65)	(89)
Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill	1,597	2,620	1,023		1,023	1,178
Rhaglenni Datblygu Economiadd	56	56	0		0	0
Marchnata a Digwyddiadau	364	369	5		5	5
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,727	1,704	(23)		(23)	(24)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	918	977	59		59	146
Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran	123	0	(123)		(123)	
<b><u>Cyfanswm Economi a Chymuned</u></b>	<b>6,407</b>	<b>7,246</b>	<b>839</b>	<b>0</b>	<b>839</b>	<b>1,231</b>



## Economi a Chymuned

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant gan gynnwys rhagori targedau incwm yn y traethau a Hafan, Pwllheli yn dilyn tywydd ffafriol ac felly tymor prysur. Trosiant staff yn yr Harbyrau a Hafan, Pwllheli hefyd yn cynorthwyo'r sefyllfa ond fod costau cynyddol trydan yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

**Cytundebau Byw'n Iach ac Hamdden Eraill** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. O ganlyniad i sgil effaith Covid, bu i Cwmni Byw'n Iach dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru oedd werth £1.4miliwn yn 2021/22 a £2.7 miliwn yn 2020/21. Nid yw cymorth o'r fath ar gael gan y Llywodraeth eleni. Ond, gan fod sgil effaith covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar y gallu i gynhychu incwm, bu i'r Cyngor gadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau Byw'n Iach drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn ôl y rhagolygon diweddaraf gwerth y cymorth sydd ei angen yw £839k. Prisiau trydan uwch o £183k sydd yn gyfrifol am weddill y gorwariant.

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - cyfuniad o danwariant staff a derbyniad grantiau amrywiol.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - ni ragwelir y bydd y cynllun arbedion gwerth £70k yn Neuadd Dwyfor yn cael ei wireddu eleni gan fod sgil effaith Covid wedi amharu'n negyddol ar y lefelau incwm a gan y bydd y Neuadd hefyd ar gau am gyfnod o ddau fis ar gyfer gwaith gwedd 2 ar yr adeilad. Lleihad yn y diffyg ar gyfer Storiol i £8k.

Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant yr Adran Economi a Chymuned o ganlyniad i gymorth ariannol gwerth £839k i Gwmni Byw'n Iach.

<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD</b>						
<b>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	10,853	10,868	15		15	18
Gwasanaethau Peirianeg	394	509	115		115	209
Gwasanaethau Bwrdeistrefol Gwastraff	12,509	13,729	1,220		1,220	1,151
Eraill	5,354	5,744	390		390	458
<b>Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>29,110</b>	<b>30,850</b>	<b>1,740</b>	<b>0</b>	<b>1,740</b>	<b>1,836</b>

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Priffyrdd** - effaith oediad i wireddu cynlluniau arbedion yn cael ei leihau gan leihad yn y gweithiau a gomisiynir gan y prif glientau.

**Gwasanaethau Peirianeg** - oediad i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng fydd yn cyflawni yn ystod 2023/24 a methiant i wireddu arbedion Pont yr Aber.

**Gwastraff** - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau. Gorwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu ond yr incwm ar werthiant defnyddiau ailgylchu yn rhagori'r gyllideb. Lleihad mewn gwastraff gweddilliol yn golygu fod y costau cysylltiedig yn is. Costau trydan uwch a thrafferthion i wireddu arbedion yn y maes hefyd yn cyfrannu at lefel y gorwariant a adroddir.

Yn dilyn y tueddiad gorwariant cynyddol yn y maes gwastraff dros y blynnyddoedd diwethaf, bu i adolygiad allanol gael ei gomisiynu gan WRAP Cymru. Mae'r adroddiad a'r argymhellion ar ffyrdd i wella'r gwasanaeth eisoes dan ystyriaeth gan yr adran gyda camau i ymateb i'r sefyllfa i'w gweithredu yn y flwyddyn newydd.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys cynlluniau arbedion yn parhau heb eu darganfod a cholledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd, glanhau toiledau cyhoeddus, gwastraff masnachol ac hefyd prisiau cynyddol trydan. Rhagwelir incwm uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Yn dilyn adrodd ar orwariant o £1.8m yn yr Adolygiad Diwedd Awst, bu i'r Prif Weithredwr alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol i fynd i wraidd y gorwariant gyda'r bwriad o adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD</b>						
<b>Adran Amgylchedd</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	852	846	(6)		(6)	27
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	628	520	(108)		(108)	(95)
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	269	(142)	(411)		(411)	(377)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,810)	(1,638)	172		172	346
Cludiant Integredig	1,809	2,188	379		379	267
	268	408	140	0	140	236
Cefn Gwlad a Mynediad	777	771	(6)		(6)	(4)
Gwarchod y Cyhoedd	1,851	1,643	(208)		(208)	(177)
<b>Cyfanswm Amgylchedd</b>	<b>4,376</b>	<b>4,188</b>	<b>(188)</b>	<b>0</b>	<b>(188)</b>	<b>(13)</b>

**Amgylchedd**

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu** - y rhagolygon incwm wedi gwella yn dilyn i geisiadau sylweddol gael eu cyflwyno dros y misoedd diwethaf. Tanwariant ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol, gwasanaethau proffesiynol ac apeliadau.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**

**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)** - yn rhagori ymhellach ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio** - diffyg incwm parcio o £221k a gorwariant o £28k ar brisiau trydan sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.

**Cludiant Integredig** - cynnydd yn y gorwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus i £487k, ond incwm uwch a thanwariant amrywiol yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddapariaeth Cludiant yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

**Gwarchod y Cyhoedd** - swyddi gwag, incwm ychwanegol a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr, gwasanaethau a chyflenwadau.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

<b>Adran Ymgynghoriaeth</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(352)	(424)	(72)		(72)	(36)
Uned Rheoli Risg Llifogydd	613	613	0		0	0
Gwasanaeth Adeiladu	(34)	(31)	3		3	6
<b><u>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</u></b>	<b>229</b>	<b>160</b>	<b>(69)</b>	<b>0</b>	<b>(69)</b>	<b>(30)</b>

**Ymgynghoriaeth**

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg** - swyddi gwag a gwelliant yn y rhagolygon incwm gan sefydliadau allanol megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

**Gwasanaeth Adeiladu** - swyddi gwag a throsiant staff sydd yn cael effaith negyddol ar y gallu i gynhyrchu incwm.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

<b>Adran Tai ac Eiddo</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	286	257	(29)		(29)	(29)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	3,942	6,816	2,874		2,874	3,210
Tai Sector Breifat	466	399	(67)		(67)	(25)
Eraill	451	328	(123)		(123)	(75)
	4,859	7,543	2,684	0	2,684	3,110
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	5,074	5,137	63		63	194
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	8	18	10		10	8
	5,082	5,155	73	0	73	202
<b>Cyfanswm Tai ac Eiddo</b>	<b>10,227</b>	<b>12,955</b>	<b>2,728</b>	<b>0</b>	<b>2,728</b>	<b>3,283</b>

**Tai ac Eiddo**

**Gwasanaethau Tai, Digartrefedd** - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn Digartrefedd yn parhau i fod yn ddwys. Yn ystod 2021/22 bu i Lywodraeth Cymru ein digolledu am £2.9 miliwn o'r gwariant ychwanegol perthnasol o £3.3 miliwn o gronfa caledi Covid. Ond, eleni dim ond £475k yw gwerth y grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y gost. Yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, gwelwyd cynnydd pellach yn y galw, ynghyd â chostau cyfartalog uwch gan fod argaeledd llety dros dro yn y sir wedi cyrraedd ei gapasiti. Mae'r gorwariant net o £2.9m a adroddir ar Digartrefedd yn dilyn dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau adfer yn sgil covid y Cyngor i'r gwasanaeth.

**Gwasanaethau Tai, Tai Sector Breifat ac Eraill** - tanwariant ar gostau staff ac ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Gwasanaethau Eiddo** - yn Eiddo effaith y cynnydd mewn prisiau trydan yn £37k ynghyd â gwariant un-tro uwchlaw lefel y gyllideb. Yn y maes Gofalu, Arlwyo a Glanhau cyfuniad o ddiffyg incwm a llai o wariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant yr Adran Tai ac Eiddo o ganlyniad i newid i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Digartrefedd, gyda'r oblygiadau yn golygu gorwariant net o £2.7 miliwn eleni. **Argymhellir** fod y Gronfa Premiwm Treth Cyngor yn cael ei ddefnyddio i gwrdd â'r gorwariant eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

<b>Adrannau Canolog</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,176	2,158	(18)		(18)	(27)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	7,249	7,235	(14)		(14)	(21)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,999	7,980	(19)		(19)	(42)
<b>Cyfanswm Adrannau Canolog</b>	<b>17,424</b>	<b>17,373</b>	<b>(51)</b>	<b>0</b>	<b>(51)</b>	<b>(90)</b>

**Adrannau Canolog**

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - effaith swyddi gwag y ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol am ran o'r flwyddyn ynghyd â throsiant staff a swyddi gwag yn Cyfreithiol, sydd yn cael ei leihau gan ddefnydd o gyfreithwyr asiantaeth.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant gan gynnwys tanwariant ar swyddi gwag ynghyd ag incwm am weinyddu grantiau amrywiol a derbyniad incwm uwch mewn nifer o feysydd.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - tanwariant ar drosiant staff ac ar nifer o benawdau'r ar draws yr adran yn cael ei leihau gan ragolygon o ddiffyg incwm o £67k gan yr Argraffdy.

<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD</b>						
<b>Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)</b>	Cyllideb Arfaethedig 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2022/23
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor	*	*	(1,955)	1,955	0	(962)
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(1,233)	1,233	0	(913)
Costau Cyfalaf	*	*	(310)		(310)	(310)
Derbyniad Llog	*	*	(1,292)		(1,292)	(1,145)
Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb	*	*	1,315		1,315	1,907
Darpariaeth Arbedion	*	*	(1,200)		(1,200)	(1,200)
Gofynion Sgil Effaith Ariannol Covid	*	*	467		467	474
Eraill	*	*	(460)		(460)	(334)
<b><u>Cyfanswm Corfforaethol</u></b>	*	*	<b>(4,668)</b>	<b>3,188</b>	<b>(1,480)</b>	<b>(2,483)</b>



**Corfforaethol**

**Treth Cyngor** - rhagwelir sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol eleni gan fod newid deddfwriaethol yn golygu fod mwy o dai yn destun treth cyngor gan nad ydynt yn gymwys ar gyfer trethi annomestig, ynghyd â rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23. Er hyn, hyd at ddiwedd Tachwedd, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 299 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Mae £6m o bremiwm treth cyngor wedi ei raglennu i'w dderbyn yn ystod 2022/23 i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - lleihad pellach yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

**Costau Cyfalaf** - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca yn allanol sydd o ganlyniad yn creu tanwariant.

**Derbyniad Llog** - y cynnydd pellach mewn cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog yn rhagori'r gyllideb ddisgwyliedig.

**Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb** - yn dilyn cadarnhad ar lefel genedlaethol o'r cynnydd i gyflogau gweithwyr Llywodraeth Leol yn ystod yr Hydref, gellir cadarnhau fod gwerth y cynnydd yn £1.3m uwchlaw'r gyllideb, sydd yn sylweddol uwch na'r chwyddiant o 4% a gynghorwyd i Gynghorau ei gyllidebu wrth sefydlu'r gyllideb am 2022/23 a ystyrid i fod yn ddarbodus ar y pryd.

**Darpariaeth Arbedion** - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud i'r pwrpas sydd ar gael i'w ddyrannu yn briodol.

**Gofynion Sgil Effaith Ariannol Covid** - y gofyn uwchlaw £1.4m a ddarparwyd yn y gyllideb am Covid yn £467k, sydd i'w gyllido o gronfa.

**Argymhellir** fod £3.188 miliwn yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.

Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd hyn nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, **argymhellir** mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:

- yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r costau ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymhorthyddion, staff gweinyddol a thrydan sydd uwchlaw lefel y gyllideb yn yr ysgolion
- yn ail, defnyddio'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor i gyllido'r pwysau ychwanegol yn y maes Digartrefedd
- yn olaf, defnyddio'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor.

# Eitem 8

## ADRODDIAD I'R CABINET

<b>Dyddiad</b>	<b>24 Ionawr 2023</b>
<b>Aelod Cabinet</b>	<b>Y Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid</b>
<b>Pwnc</b>	<b>Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion</b>
<b>Swyddog Cyswllt</b>	<b>Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid</b>

---

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2022/23 a blynyddoedd blaenorol.

### 2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

2.1 Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2022/23 a blynyddoedd blaenorol.

2.2 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion sydd werth £595,000 yn 2022/23, ynghyd â'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol, yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2022.

2.3 Bellach gellir adrodd fod cyfanswm o bron i £33.5 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 95% o'r £35.4m gofynnol dros y cyfnod.

2.4 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

### 3. AIL-ASESU ARBEDION

3.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2022, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2022/23 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.

3.2 O ran cynlluniau arbedion 2022/23, penderfynodd y Cabinet ar 10 Chwefror 2022 i symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol, cydnabod fod y sefyllfa wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, gan adael £595,000 o arbedion i'w gwireddu yn 2022/23. Gweler Tabl 1 isod.

**Tabl 1: Arbedion wedi eu dileu neu eu gohirio**

	Gwreiddiol £	Gohirio £	Dileu £	Balans £
Cynlluniau 2022/23	2,375,000	1,290,250	489,750	595,000

#### **4. CYNLLUNIAU ARBEDION ADRANNOL 2015/16 – 2021/22**

- 4.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion diwygiedig o 2015/16 - 2021/22, **cyfanswm o bron i £35m. Gellir adrodd bod £33.4m, neu 96% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau arbedion yn parhau.
- 4.2 Mae risgiau cyflawni a llithriadau gwerth £64,000 ar gynlluniau 2017/18, £98,800 yn 2018/19, £361,000 yn 2019/20, £623,110 yn 2020/21 a £292,500 yn 2021/22. Cyfanswm o £1,439,410.
- 4.3 Nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem gwireddu 13 cynllun, gwerth cyfanswm o £665k.
- 4.4 Mae'r 9 cynllun sy'n weddill sef gwerth £775k gyda risgiau i'w cyflawni. 5 cynllun gan yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant (cyfanswm o £483k), 1 gan Priffyrdd a Bwrdeistrefol (£133k) 1 gan Economi a Chymuned (£45k), 1 gan Tai ac Eiddo (£100k) ac 1 gan Cyfreithiol (£14k). Mae ymateb i'r argyfwng Covid wedi golygu fod rhai elfennau o gynlluniau arbedion wedi llithro.

#### **5. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2022/23**

- 5.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2022/23. Mae'r cyfanswm targed arbedion yn £595k gyda gwerth £133k, sef 22% o gynlluniau eisoes wedi eu gwireddu a £13k pellach sef 2% ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 5.2 Bu oediad ar gynllun gwerth £105k *Teledu Cylch Cyfyng* yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a chynllun *Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd* gwerth £100k yn yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant, ond rhagwelir y byddant yn cael eu gwireddu yn 2023/24.
- 5.3 Rhagwelir risgiau i gyflawni gwerth £245k o gynlluniau. Mae 1 cynllun gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sef *Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai* (£150k), 1 cynllun *Neuadd Dwyfor* (£70k) gan yr Adran Economi a Chymunedau ac 1 cynllun *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol* (£25k) gan yr Adran Gyllid.

## 6. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2023/24 YMLAEN

- 6.1 Yn sgil yr hinsawdd economaidd presennol a'r lefelau chwyddiant uchel, mae'n anorfod y bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo y sefyllfa ariannol. Mae cynlluniau arbedion a thoriadau ychwanegol ar gyfer 2023/24 eisoes dan ystyriaeth gan Gyngor Gwynedd ac mi fyddant yn destun adroddiad yn fuan.
- 6.2 Rhestrir arbedion presennol 2023/24 ymlaen, fesul Adran yn **Atodiad 3**, ond mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

## 7. CASGLIAD

- 7.1 Mae'n anorfod bod gwireddu £33.5m o arbedion (o gyfanswm o £35.4m) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol.
- 7.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 yn ôl statws gyda gwerth 95% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

**Tabl 2: Crynodeb o statws holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015**

Statws yr Arbediad	Porth	£m	%
Wedi gwireddu	1	33.5	94.6
Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol	2	0.1	0.3
Oediad, ond yn symud yn ei flaen	3	0.8	2.3
Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu fethu	4	0.7	2.0
Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol	5	0.3	0.8
<b>Cyfanswm arbedion</b>		<b>35.4</b>	

- 7.3 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, nodi bod effaith Covid wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion a chefnogi'r adrannau i symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion.

## **Barn yr Aelod Lleol**

Dim yn berthnasol

---

## **Barn y Swyddogion Statudol**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

### **Atodiadau:**

Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 - 2021/22 fesul Adran

Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2022/23 fesul Adran

Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2023/24 ymlaen fesul Adran

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2021/22 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2021/22 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	1,756,360	1,756,360	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Ysgolion	4,235,000	4,235,000	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Amgylchedd	2,824,963	2,787,463	37,500	1	-		Bu llithriad ar y cynllun <i>Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio</i> .
Cefnogaeth Gorfforaethol	2,469,218	2,469,218	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid Tud. 58	1,856,636	1,856,636	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Economi a Chymuned	2,896,422	2,791,422	60,000	2	45,000	1	Bu llithriad gyda 2 gynllun sef <i>Cysoni trefniadau ac adolygu ffioedd parcio</i> gwerth cyfanswm o £60k. Mae risg o wireddu gweddill yr arbedion sef £45k ar y cynllun <i>Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15</i> .
Oedolion, Iechyd a Lesiant	7,048,161	6,218,051	347,360	6	482,750	5	Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 5 cynllun sef <i>Integreiddio a Thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn</i> gyda £210k o darged yn 2019/20 ac mae sawl ffactor yn cyfrannu at yr her barhaus o'i gyflawni, <i>Cydweithio â'r trydydd sector i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog</i> (£75k), <i>Adolygu pecynnau gofal anabledau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen</i> (£100k), <i>Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran</i> (£34k) ac <i>Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran</i> (£64k) ond mae'r Adran yn gweithio i symud ymlaen gyda rhain. Mae 6 cynllun pellach gwerth cyfanswm o dros £347k wedi llithro ond mae'r Adran yn gweithredu i symud rhain yn eu blaen; y 3 mwyaf yw <i>Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus</i> (£150k), <i>Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes</i> (£49k) a <i>Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theluoedd ar adeg oed trosglwyddo</i> (£60k).
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,318,908	2,318,908	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2021/22 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2021/22 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer	Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	6,244,410	5,891,410	220,000 4	133,000 1	Gyda'r cynllun Trefniadau Fflyd (£133k) bu oediad oherwydd gorfodaeth i ail agor trafodaethau gyda'r Undebau ynghyd â Covid. Mae'r cynllun yma bellach yn derbyn sylw gan obeithio symud yn ei flaen yn fuan. Mae 4 cynllun pellach gwerth cyfanswm o £220k wedi llithro ond mae'r Adran yn gweithio i symud rhain yn eu blaen, y cynlluniau mwyaf yw <i>Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr ac ar waredu deunyddiau DIY</i> (£90k) a <i>Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau</i> (£75k).
Ymgynghoriaeth	602,670	602,670	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tîm Polisi Corfforaethol a Chyfreithiol	403,240	389,440	-	13,800 1	Mae bellach yn amlwg na fydd <i>arbedion yng nghyllideb y Crwner</i> gwerth £13.8k yn gwireddu, gyda trefniant ar y cyd rhwng Cynghorau Gwynedd a Môn am barhau. Trafodaethau mewnol yn mynd ymlaen ar hyn o bryd.
Tai ac Eiddo	943,230	843,230	-	100,000 1	Mae risg o wireddu arbedion y cynllun <i>Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol</i> , sydd gyda tharged o £100k. Ers cyflwyno'r cynllun yma, mae newidiadau pellgyrhaeddol wedi digwydd o fewn maes digartrefedd. Cyn 2020/21 polisi Llywodraeth Cymru oedd cartrefu yn ôl yr angen, ond ers y pandemig Covid newidiwyd y polisi fel bod Awdurdodau Lleol yn cartrefu pawb. Er bod Strategaeth Tai yn cynnig atebion yn y hirdymor, mae'r sefyllfa ariannol yn sgil digartrefedd yn y tymor byr yn heriol i'r Adran
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>33,599,218</b>	<b>32,159,808</b>	<b>664,860 13</b>	<b>774,550 9</b>	
Arbedion Rheolaethol	1,200,360	1,200,360	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
<b>CYFANSWM</b>	<b>34,799,578</b>	<b>33,360,168</b>	<b>664,860 13</b>	<b>774,550 9</b>	Yn nhermau ariannol (£), mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2021/22 wedi eu gwireddu.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2022/23 FESUL ADRAN

Tud. 60

Adran	Cyfanswm Arbedion 2022/23 £ - nifer		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - nifer		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - nifer		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
Amgylchedd	12,500	1	-		12,500	1	-		Mae'r un cynllun sydd wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23 ar drac i gyflawni'n amserol.
Cefnogaeth Gorfforaethol	100,000	1	100,000	1	-		-		Mae'r un cynllun sydd wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23 wedi ei gyflawni.
Cyllid	25,000	1	-		-		25,000	1	Nid yw'r cynllun <i>Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol</i> am wireddu'r targed arbedion o £25k felly bydd yr Adran yn edrych am gynllun amgen.
Economi a Chymuned	70,000	1	-		-		70,000	1	Mae'r cynllun sy'n ymwneud â Neuadd Dwyfor gyda risgiau i wireddu.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	100,000	1	-		-		100,000	1	Mae llithriad ar wireddu arbedion o £100k ar y cynllun <i>Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)</i> .
Plant a Chefnogi Teuluoedd	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	287,500	3	32,500	1	-		255,000	2	Mae risgiau i wireddu arbedion o £150k y cynllun <i>Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai</i> . Bu oediad ar y cynllun <i>Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'</i> (£105k).
Ymgynghoriaeth	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
Tai ac Eiddo	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
<b>CYFANSWM</b>	<b>595,000</b>	<b>8</b>	<b>132,500</b>	<b>2</b>	<b>12,500</b>	<b>1</b>	<b>450,000</b>	<b>5</b>	<b>Yn nhermau ariannol (£), mae 22% o gynlluniau arbedion 2022/23 eisoes wedi eu gwireddu a 2% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.</b>



**ATODIAD 3**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 YMLAEN MESUL ADRAN**

Adran	2023/24	2024/25	2025/26	Cyfanswm Arbedion 2023/24 hyd at 2025/26	
	£	£	£	£ - <i>nifer</i>	
Economi a Chymuned	170,000	15,000	-	185,000	2
Oedolion, Iechyd a Llesiant	935,250	-	200,000	1,135,250	4
Plant a Chefnogi Teuluoedd	23,840	-	-	23,840	1
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,129,090</b>	<b>15,000</b>	<b>200,000</b>	<b>1,344,090</b>	<b>7</b>

# Eitem 9

## ADRODDIAD I'R CABINET 24 IONAWR 2023

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2022/23 –  
Adolygiad Diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2022)

**Swyddog Cyswilt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

### Penderfyniad a geisir

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2022) o'r rhaglen gyfalaf.
  - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
    - cynnydd o £30,000 mewn defnydd o fenthyca,
    - cynnydd o £2,947,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
    - cynnydd o £101,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
    - cynnydd o £20,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
    - dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
    - cynnydd o £1,167,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.
- 

### 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2022/23. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £140.603m am y 3 blynedd 2022/23 – 2024/25.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £4.265m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manyllder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £53m yn 2022/23 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £20.1m (38%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda 40% o'r gyllideb wedi ei wario hyd at ddiwedd Tachwedd eleni, o'i gymharu â 37% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl; 31% ddwy flynedd yn ôl; 51% yn 2019/20, cyn amhariad Covid 19.
- Mae £28.7m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24 a 2024/25, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2022/23 i 2024/25

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Tachwedd 2022.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF
	2022/23	2023/24	2024/25	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Addysg	12,711	16,829	3,085	32,625	3,679
Amgylchedd	8,128	592	245	8,965	749
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-	-	-	-
Cyllid	923	1,742	619	3,284	-
Economi a Chymuned	2,878	1,137	150	4,165	117
Tai ac Eiddo	10,182	28,285	7,008	45,475	1,690
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,761	4,287	-	7,048	22
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,421	250	-	1,671	-
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	8,452	6,535	5,686	20,673	1,500
Ymgynghoriaeth	5,499	3,116	-	8,615	27
Corfforaethol	-	5,019	3,063	8,082	(3,519)
<b>CYFANSWM</b>	<b>52,955</b>	<b>67,792</b>	<b>19,856</b>	<b>140,603</b>	<b>4,265</b>

#### 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £4.265m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers yr adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2022/23	2023/24	2024/25	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Benthyca gyda chefnogaeth	8,238	9,173	9,173	26,584	0
Benthyca Arall	3,013	9,804	3,137	15,954	30
Grantiau a Chyfraniadau	20,064	12,008	330	32,402	2,947
Derbyniadau Cyfalaf	725	189	0	914	101
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	3,281	30	0	3,311	20
Cronfa Cyfalaf	5,019	13,434	0	18,453	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	12,615	23,154	7,216	42,985	1,167
<b>CYFANSWM</b>	<b>52,955</b>	<b>67,792</b>	<b>19,856</b>	<b>140,603</b>	<b>4,265</b>

#### 5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Awst, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £3,484k. Mae nifer o addasiadau, er enghraifft ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol, yn dod â chyfanswm y symudiad i £2,947k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £2,044k Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Ysgol Trefferthyr
- £898k Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- £396k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig – gwella mynediad
- £146k Grantiau Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru a Chyfraniadau eraill tuag at ail wynebu Maes Parcio Y Glyn Llanberis a chynlluniau eraill Parciau Gwledig

## **6. Argymhellion**

### **Gofynnir i'r Cabinet:**

- dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 i 2024/25, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

## **7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2022/23 – 2024/25.

## **8. Ystyriaethau Perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## **9. Camau Nesaf ac Amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**

Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol****Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
  - Atodiad B: Symudiadau o 2022/23 i 2023/24
  - Atodiad C: Gwariant 8 mis cyntaf 2022/23
-

**Manylion y Prif Newididau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

	2022/23	2023/24- 2024/25
	£'000	£'000
<b>Benthyciadau Arall</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cywiro ariannu cynlluniau rheoli carbon rhwng benthyciad a cronfa (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).</li> </ul>	30	
<b>Grantiau a Chyfraniadau</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (<i>Adran Addysg</i>).</li> </ul>	898	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Ysgol Trefferthyr (<i>Adran Addysg</i>).</li> </ul>		2,044
<ul style="list-style-type: none"> <li>Amrywiol gynlluniau yn y maes adfywio wedi cwblhau neu grant wedi dod i ben (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).</li> </ul>	(206)	(140)
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grantiau Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru a Chyfraniadau eraill tuag at ail wynebu Maes Parcio Y Glyn, Llanberis a chynlluniau eraill Parciau Gwledig (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).</li> </ul>	146	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).</li> </ul>	(32)	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grantiau Llywodraeth Cymru yn y maes cynlluniau gwledig tuag at wella mynediad (<i>Adran Amgylchedd</i>).</li> </ul>	104	292
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cywiro grant Cronfa Rhyddhau Tir (LRF) gan Lywodraeth Cymru tuag at Safle Segontiw (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).</li> </ul>	(157)	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Clustnodi a throsglwyddo Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol dderbyniwyd yn 21-22 i ariannu costau ychwanegol Cynllun Pont Bodfel (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).</li> </ul>	1,344	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Clustnodi a throsglwyddo Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol dderbyniwyd yn 21-22 i ariannu costau ychwanegol Cynllun Pont Bodfel (<i>Corfforaethol</i>).</li> </ul>	(1,344)	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Clustnodi a throsglwyddo Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol dderbyniwyd yn 21-22 i ariannu elfen o'r Cynllun Paneli Solar Gwedd 4 (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).</li> </ul>	1,838	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Clustnodi a throsglwyddo Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol dderbyniwyd yn 21-22 i ariannu elfen o'r Cynllun Paneli Solar Gwedd 4 (<i>Corfforaethol</i>).</li> </ul>	(1,838)	
<b>Derbyniadau Cyfalaf</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau yr Adran Economi gan gynnwys Ail Wynebu Maes Parcio y Glyn, Llanberis a Neuadd Dwyfor (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).</li> </ul>	102	
<b>Refeniw Adrannol a Chorfforaethol</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfraniadau Ysgolion tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys cerbydau (<i>Adran Addysg</i>).</li> </ul>	26	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfraniad tuag at gerbyd yr Uned Morwrol a Pharciau Gwledig (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).</li> </ul>	27	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfraniadau tuag at gynlluniau cartrefi preswyl (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).</li> </ul>	22	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfnewid dull ariannu cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau trwy ddefnyddio cronfeydd yn hytrach na refeniw (<i>Adran Amgylchedd</i>).</li> </ul>	(61)	
<b>Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trosglwyddo elfen o'r gronfa Cynnal a Chadw i ariannu cynlluniau Cynnal a Chadw ysgolion sydd bellach yn Gyfalaf o ran natur (<i>Adran Addysg</i>).</li> </ul>	756	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).</li> </ul>	22	185
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfnewid dull ariannu cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau trwy ddefnyddio cronfeydd yn hytrach na refeniw (<i>Adran Amgylchedd</i>).</li> </ul>	64	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cywiro ariannu cynlluniau rheoli carbon rhwng benthygiad a cronfa (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).</li> </ul>	(30)	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adnewyddu cerbydau ac offer (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Adran Ymgynghoriaeth; Adran Tai ac Eiddo</i>).</li> </ul>	174	



## Manylion Ail-broffilio

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2022/23 £'000	2023/24 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynladwy ac Eraill) ( <i>Adran Addysg</i> )	(5,451)	5,451
Adfywio Tref a Glannau Caernarfon ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> )	(140)	140
Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig, Diwylliant a Hamdden ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> )	(307)	307
Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> )	(465)	465
Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirichen ( <i>Adran Plant a Theuluoedd</i> )	(250)	250
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> )	(2,500)	2,500
Cynlluniau Sefydliadau Preswyl a Gofal Dydd Oedolion ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> )	(1,162)	1,162
Rhaglen Atal Dirywiad Ffyrdd ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> )	1,000	(1,000)
Cynlluniau Atal Llifogydd ( <i>Adran Ymgynghoriaeth</i> )	(3,039)	3,039
Adnewyddu Cerbydau ( <i>Adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo</i> )	(4,105)	4,105
Pryniant Tir Claddu ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> )	(428)	428
Ail-wynebu Meysydd Parcio ( <i>Adran Amgylchedd</i> )	(69)	69
Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )	(3,395)	3,395
Cynlluniau Strategaeth Tai ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )	(11,449)	11,449
Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )	(123)	123
Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )	(3,352)	3,352
Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )	(2,925)	2,925

Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth ( <i>Adran Cyllid</i> )	(904)	904
Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 23/24 ( <i>Corfforaethol</i> )	(1,748)	1,748

**Noder:**

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

## Gwariant Cyfalaf 8 Mis Cyntaf 2022/23

<b>CRYNODEB</b>	<b>RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Tachwedd) 2022/23 £'000</b>	<b>GWIR WARIANT 8 MIS HYD AT 30/11/2022 £'000</b>
Addysg	12,711	2,982
Amgylchedd	8,128	4,181
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	923	621
Economi a Chymuned	2,878	1,252
Tai ac Eiddo	10,182	6,245
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,761	92
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,421	524
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	8,452	5,007
Ymgynghoriaeth	5,499	144
Corfforaethol	-	-
<b>CYFANSWM</b>	<b>52,955</b>	<b>21,048</b>

**Noder:**

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (40%) yn uwch na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 8 mis 2021/22 yn 37%), ac yn uwch na dwy flynedd yn ôl (31% yn 2020/21) ond yn is na tair mlynedd yn ôl (51% yn 2019/20, cyn amhariad Covid 19).

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y Cyfarfod:	24 Ionawr, 2023
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Berwyn Parry Jones
Swyddog Cyswllt:	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Bwrdeistrefol a YGC
Rhif Ffôn Cyswllt:	32400
Teitl yr Eitem:	Cynllun Fflyd Werdd

### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Fod y Cabinet yn mabwysiadu'r Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 (a weler yn Atodiad 1) a chytuno:
- fod Adrannau'r Cyngor ddim i brynu, adnewyddu, neu waredu unrhyw gerbyd cyn yn gyntaf trafod ei anghenion gyda'r Rheolwr Fflyd, a chael ei gydsyniad;
  - fod angen creu system pŵl corfforaethol yn lle rhai Adrannol;
  - fod y Rheolwr Fflyd i arwain ar y gwaith o chwynnu'r stoc bresennol o gerbydau'r Cyngor, a chreu strwythur cerbydau i bob Adran.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Amgylchedd (Cymru), Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (Llywodraeth Cymru) a Chynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23-2029-2030 Cyngor Gwynedd.
- 2.2 Nod y Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 yw i leihau allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd Fflyd y Cyngor.
- 2.3 Rhoddir trosolwg o'r dulliau ariannu posib o fewn rhan 6.2 o'r Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 (Atodiad 1). Mae'r wybodaeth ariannol ar gyfer y sefyllfa waethaf ac yn debygol na fyddai angen adnewyddu'r fflyd gyfan a gellir gwaredu rhai yn dilyn y gwaith chwynnu.

#### 3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Cyflwynwyd adroddiad drafft yn amlinellu gweledigaeth y Gwasanaeth Fflyd ger bron y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur ar y 14 o Dachwedd 2022.
- 3.2 Yn dilyn y cyfarfod hwn, cytunwyd byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet am gymeradwyaeth.

3.3 Mae cyfle i newid nifer o gerbydau drwy'r broses 'chwynnu' Fflyd y Cyngor ac edrych ar sgôp i leihau nifer o gerbydau fflyd ar hyn o bryd.

#### **4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1 Yn ystod Mawrth 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Argyfwng Newid Hinsawdd ac arweiniodd hyn at Gabinet y Cyngor yn cyhoeddi Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur fis Mawrth 2022.

4.2 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi gosod uchelgais y "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030" sy'n cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i'r sector gyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon sero net erbyn y dyddiad hwn.

4.3 Gan ddefnyddio data am ein hallyriadau, mae'n darlunio'r dasg anodd sy'n ein hwynebu i drawsffurfio ein Fflyd.

4.4 Mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu'r cynllun o ddatgarboneiddio'r fflyd gan ffocysu ar y tri prif them amlinellir o fewn y Cynllun Fflyd Werdd sef Chwynnu, Arloesi ac Adnewyddu.

4.5 Mae'n bwysig nodi bod cryn waith i'w gyflawni a gall unrhyw oedi amharu ar ein rhaglen o gyrraedd ein nod.

#### **5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015.**

5.1 Mae dyletswydd i wireddu 'Cymru Lewyrchus' fel rhan o'r ddeddf hon sydd yn edrych yn benodol ar greu cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd).

5.2 Mae cost yn gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon, ond rhaid taro cydbwysedd rhwng hyn a'r gost uwch o lawer a fyddai'n deillio o wneud dim byd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn allweddol felly i'r modd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n mynd i'r afael â'r heriau hyn. Trwy roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith a chyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol ar Lefel Byd-eang, gallwn ddangos ei gyfraniad tuag at ymateb i argyfwng yr hinsawdd.

5.3 Mae'r Cynllun Fflyd Werdd yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

#### **6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

6.1 Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r camau o fewn y Cynllun Fflyd Werdd 2023-23 yn ogystal â'r argymhellion nodir o fewn 3.3.

## **7. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Amlygir yn yr adroddiad a'r Cynllun fod y cynigion yma yn cynrychioli cam pwysig i gyfarch dyletswyddau ac amcanion y Cyngor o safbwynt cynaliadwyedd a lleihau carbon. 'Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniadau a geisir.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir. Mae Rhan 7 o'r Cynllun Fflyd Werdd yn nodi bydd angen i'r Gwasanaeth Fflyd gydweithio gyda'r Adran Cyllid ar wahanol agweddau ariannol y cynllun a buaswn yn ategu mai amcangyfrifon sydd yn ymddangos yn y cynllun ar hyn o bryd. Bydd gwaith pellach ei angen ac rwyf yn disgwyl bydd hyn yn digwydd yn fuan os bydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu gan y Cabinet.

## ATODIAD 1

# ADRAN PRIFFYRDD, BWRDEISTREFOL a YGC

## Cynllun Fflyd Werdd (2023-2029)

### 1. Gweledigaeth y Gwasanaeth Fflyd

- 1.1 I ddarparu fflyd o gerbydau diogel, effeithiol a di-allyriad i wasanaethau'r Cyngor er mwyn ei galluogi i gyflawni i bobol Gwynedd.

### 2. Cyd-destun Cenedlaethol

- 2.1 Ers pasio Deddf yr Amgylchedd (Cymru), sy'n dilyn y trywydd a osodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau a rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio'r sector cyhoeddus. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau tŷ gwyrdd yng Nghymru o leiaf 80% erbyn 2050 gan ddefnyddio system o dargedau allyriadau a chyllidebau carbon interim.

Yng nghyd-destun y defnydd o gerbydau gan y sector gyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer ddatgarboneiddio. Yn y ddogfen Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel a gyhoeddwyd yn ystod Mawrth 2019 fe geir y targed canlynol:

**Cynnig 4 - Bydd holl geir a cherbydau nwyddau ysgafn newydd fflyd y sector cyhoeddus yn rhai allyriadau isel iawn erbyn 2025 a, ble yn ymarferol, bydd yr holl gerbydau nwyddau trwm yn rhai allyriadau isel iawn erbyn 2030.**

### 3. Cyd-destun Lleol (Gwynedd)

- 3.1 Yn ystod Mawrth 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Argyfwng Newid Hinsawdd ac arweiniodd hyn at Gabinet y Cyngor yn cyhoeddi Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur fis Mawrth 2022.

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi gosod uchelgais y "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030" sy'n cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i'r sector gyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon sero net erbyn y dyddiad hwn.

Mae'r Cynllun yn defnyddio data o'r flwyddyn 2019/20 fel gwaelodlin, ac yn mesur ein cynnydd i leihau allyriadau carbon yn erbyn ffigurau'r flwyddyn honno. Roedd ein allyriadau carbon o'n fflyd (sy'n cynnwys cerbydau casglu gwastraff ac ailgylchu) yn 5,145 tCO<sub>2</sub>e, sef 7% o allyriadau carbon y Cyngor, ar gyfer y flwyddyn honno. Bydd y Strategaeth Werdd Fflyd yn rhoi arweiniad ar sut y gallwn ostwng ein allyriadau carbon ymhellach i'r dyfodol.

#### 4. Fflyd Cyngor Gwynedd

4.1 Mae Fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i bobl Gwynedd o gasglu gwastraff i ymweliadau gofal, o gynnal Priffyrdd i gludo disgyblion. Yn wir, mae'r mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor yn gwneud defnydd o gerbydau mewn un ffordd neu'r llall ac fe arweiniwyd hyn drwy'r Gwasanaeth Fflyd.

Ar gychwyn Medi 2022, roedd 543 o gerbydau ar y Fflyd. Fe welir yn y tabl isod y toriad o'r math o gerbydau (ac offer) mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio.


Math	Eiddo'r Cyngor	Hurio		Cyfanswm
Cerbyd 4x4	35	1		36
Ceir	64	1		65
Bws Mini	41	3		44
Cerbyd Masnachol Ysgafn	189	63		252
Cerbyd Masnachol Trwm	130	16		146
	<b>459</b>	<b>84</b>		<b>543</b>

I weithredu cerbydau masnachol dros 3500kg GVW, mae'n hanfodol fod y Cyngor yn dal Trwydded i Weithredu Cerbydau Trymion (Goods Vehicle Operator Licence). Mae Cyngor Gwynedd yn dal Trwydded Genedlaethol Safonol ac wedi cofrestru (Gorffennaf 2021) 98 o gerbydau ar y drwydded, gyda'r gallu i ychwanegu 22 cerbyd arall os oes angen.

Mae'r drwydded yn cael ei ddyroddi gan Swyddfa'r Comisiynydd Traffig ar yr amod fod canllawiau pendant yn cael ei ddilyn a bod rheolaeth a monitro cyson yn ei le i ymdrin â, er enghraifft, sicrhau fod cerbydau yn addas i fod ar y ffordd, cyfraddau pasio profion MOT, materion yn ymwneud a gyrwyr megis goryrru ac oriau gyrru.

Yn bresennol, y Rheolwr Fflyd, sydd wedi ei enwi ar y drwydded fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am hyn ar draws y Cyngor ac fe'i gefnogi'r gan 3 aelod arall o staff.





Dan arweiniad y Rheolwr Fflyd mae 3 gweithdy wedi ei leoli ar gyfer cynnal a chadw cerbydau'r Cyngor. Lleolir y rhain yn strategol ar draws y Sir yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Yn ogystal â chynnal Fflyd y Cyngor, mae'r gweithdai yng ngwasanaethau'r cyhoedd drwy gynnal profion MOT yn ogystal â chynnal cerbydau i gontractwyr allanol.

- 4.2 Yn ogystal â'r defnydd o gerbydau, mae'r Cyngor yn gwneud defnydd o offer ar rai o'i safleoedd fel "forklift" a "loading shovel". Mae 20 o'r rhain ar y Fflyd yn bresennol ac yn defnyddio disel fel tanwydd.

## 5. Camau i Drawsnewid y Fflyd

- 5.1 Mae ein cynllun i ddatgarboneiddio'r fflyd wedi ffocysu ar draws tri phrif themâu, Chwynnu, Arloesi ac Adnewyddu.

### 5.2 Chwynnu

Rhoddir y cam yma i mewn i'r cynllun er mwyn gwir adnabod beth ydi maint y fflyd yn ogystal â gwir anghenion y gwasanaethau er mwyn eu galluogi i gyflawni dros bobl Gwynedd.

- 5.2.1 Fe welir o'r tabl yn 4.1 fod gwneuthuriad y Fflyd wedi ei wneud allan o gyfuniad o gerbydau sy'n eiddo i'r Cyngor yn ogystal â cherbydau sydd wedi hurio (boed hyn yn gyfnod byr neu hir dymor). Mae 84 o gerbydau wedi ei hurio gan y Cyngor, ac mae'r rhain yn gyfuniad o:

- Cerbydau ychwanegol oherwydd pwysau gwaith.
- Cerbydau ychwanegol oherwydd diffyg rheolaeth o adnoddau.
- Cynlluniau arbedion unigryw.

Er mwyn gwir adnabod maint y Fflyd, ac y gwir angen sydd gan wasanaethau, mae angen herio'r Rheolwyr ar yr angen o fod gyda'r cerbydau hyn.

5.2.2 Fe welir esiamplau o fewn y fflyd sydd yn eiddo i'r Cyngor (459) o gerbydau sydd heb unrhyw gynlluniau ariannol i'w adnewyddu. Mae'r rhan helaeth o'r rhain yn gerbydau sydd wedi eu cadw unwaith maent wedi adnewyddu. Nid yn unig mae hyn yn creu straen ar gyllidebau gwasanaethau ond yn ogystal golyga'i fod cerbydau aneffeithlon ar y fflyd. Yn ychwanegol, drwy beidio cael trefniant i adnewyddu'r cerbydau hyn, mae'n rhoi'r Cyngor dan risg ariannol gan feddwl am y gost ychwanegol sydd i bwrcasu cerbydau trydan.

Cynllun ariannu	Nifer
Benthyciad Mewnol	29
Bid Cyfalaf (Cronfa Fflyd)	51
Dibrisiant	283
Hunan gyllido	96

Yn amlwg, mae rhesymau dilys dros gynnwys rhai o'r cerbydau hyn yn y fflyd ond mae angen herio'r Rheolwyr perthnasol o ran beth yw eu cynlluniau ar gyfer adnewyddu'r cerbydau hyn.

5.2.3 Mae esiamplau o fewn fflyd y Cyngor o gerbydau sydd ddim yn cael ei defnyddio rhyw lawer. Er mwyn i gynllun megis cerbydau trydan fod yn effeithiol, ac yn werth am arian, mae angen i'r cerbydau deithio o gwmpas 8,000 milltir y flwyddyn. Gwelir esiamplau o fewn y Cyngor o gerbydau sydd ond yn teithio chwarter y cyfanswm yma.

Gyda gwersi yn cael ei dysgu bellach o ganlyniad i COVID-19, fe welir hefyd llai o deithio gan staff yng nherbydau'r Cyngor oherwydd y defnydd ehangach o dechnoleg (cyfarfodydd rhithiol er enghraifft).

Bydd angen cynnal trafodaethau gyda Rheolwyr perthnasol ar eu cynlluniau nhw, a sut maent yn gweld trefniadau gwaith yn y dyfodol yn ogystal â'i herio ar yr angen i fod a cherbydau sydd ond yn teithio milltiroedd bychain.

5.2.4 Unwaith bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau, teimlwn ei fod yn hanfodol fod strwythur cerbydau, tebyg i strwythur staff, yn cael ei sefydlu o fewn pob Adran. Fe wnaiff hyn atal Rheolwyr allu cadw cerbydau unwaith maent wedi adnewyddu, rhoi ychydig o sicrwydd fod cyllideb ddigonol ar gael i adnewyddu a chynnal y cerbydau a sicrhau mai ond cerbydau hanfodol i wasanaethu pobl Gwynedd sydd ar ein fflyd.

Cyf.	Manylion
5.2.1	Cynnal trafodaeth a Rheolwyr am y gwir angen o hurio cerbydau ychwanegol.
5.2.2	Cynnal trafodaeth a Rheolwyr ar eu cynlluniau i adnewyddu cerbydau sydd heb gynlluniau ariannol i'w adnewyddu.
5.2.3	Cynnal trafodaeth a Rheolwyr er mwyn dallt eu cynlluniau nhw a sut maent yn gweld y defnydd o gerbydau o fewn ei gwasanaethau
5.2.4	Cynnal trafodaeth rhwng Rheolwyr a Chyllid ar sefydlu strwythur cerbydau ar draws y Cyngor.


### 5.3 Arloesol

Yn y cam hwn, edrychwn ar sut y gellir technoleg neu newidiadau mewn trefniadau gwaith cael ar y Fflyd.

5.3.1 Yn bresennol, mae'r mwyafrif o gerbydau'r Cyngor yn defnyddio bynceri tanwydd i'w lenwi a disel. Fe reolir y tanwydd hwn drwy system tanwydd y Cyngor, Timeplan. Mae'r system yma bellach wedi cyrraedd diwedd ei oes ac nid yw'n cael ei ddatblygu bellach. Golyga'i hyn nad yw'n bosib rheoli ac adrodd ar y defnydd o ddisel o'n tanciau sydd yn risg sylweddol i'r Cyngor.

Mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi derbyn prisiau ar gyfer adnewyddu'r dechnoleg sydd yn ein tanciau a fydd yn golygu y gellir adrodd yn rheolaidd i Reolwyr ar y gwir ddefnydd o danwydd gan ei Fflyd. Drwy wneud hyn fe ellir adnabod cerbydau sydd yn cyfrannu'r allyriadau carbon mwyaf o fewn y fflyd yn ogystal â rheoli unrhyw gamddefnydd potensial.

Oherwydd y cyfeiriad mae'r Cyngor yn ei gymryd gyda cherbydau trydan/ULEV, mae angen ystyried a oes angen buddsoddi mewn uwchraddio'r system. Opsiwn arall ar gael i'r Cyngor byddai i beidio uwchraddio'r system a throsglwyddo pob cerbyd i gardiau tanwydd. Mae'r opsiwn hyn yn caniatáu i ni adrodd ar y defnydd o danwydd ond mae cost ynghlwm a hyn (o gwmpas 4c y litr yn fwy).



Er mwyn gallu rheoli, herio ac adrodd yn effeithiol ar allyriadau carbon y fflyd, mae'r Gwasanaeth Fflyd yn credu ei fod yn hanfodol bod y cyfleuster yma ar gael iddynt.

5.3.2 Yn ystod archwiliadau o nifer o gerbydau gan ein gweithdai, fe ffeindir nifer o gerbydau yn cario offer sylweddol yn y cerbydau. Y rheswm pennaf dros hyn ydi "rhag ofn y bydd ei angen". Mae cario llwythi, yn bennaf mewn cerbydau llai na 3.5t GVW, yn cael effaith ar ddiogelwch y cerbyd (pan nad yw wedi llwytho yn ddiogel) yn ogystal â'r allyriadau carbon. Nid oes gweithdrefn yn bodoli yn y Cyngor ar yr effaith mae llwythi anniogel a diangen yn cael ar berfformiad cerbyd. Mae angen i'r Gwasanaeth Fflyd cydweithio a Rheolwyr ar draws y Cyngor yn ogystal â lechyd a Diogelwch i sefydlu gweithdrefn o'r fath.

5.3.3 Gwelir ar draws y Cyngor, nifer o gerbydau'r un fath, yn bennaf ceir a faniau bychain. Fel y nodir yn 5.2.3 mae nifer o'r cerbydau hyn yn teithio milltiroedd bychain ar amseroedd gwahanol o'r dydd.

O fewn rhai adrannau o'r Cyngor fe welir systemau pwl o gerbydau wedi ei sefydlu. Mae'r rhain ar gyfer cerbydau sydd heb unrhyw gyfarpar arbenigol wedi gosod arnynt.

Drwy sefydlu system bwl corfforaethol ar draws y Cyngor a datblygu system bwcio sydd yn integredig a system tracio a system asedau fflyd y Cyngor, gellir sicrhau'r defnydd gorau o'n hadnoddau. Mae cynlluniau o'r fath wedi ei gyflwyno gan y Gwasanaeth Fflyd sawl gwaith yn y gorffennol, ond nid oes dim awydd wedi bod o fewn gwasanaethau. Credwn fod hyn angen fod yn nôl ar yr agenda ac i bawb fod yn ystyriol o'r cyfleoedd sydd ar gael drwy sefydlu system bwl corfforaethol.

Mae angen trafodaeth aeddfed ar draws y Cyngor ar sefydlu system bwl corfforaethol.

5.3.4 Fel y nodir yn 4.1, mae cynnal a chadw o'r cerbydau presennol yn cael ei wneud gan weithlu'r Gwasanaeth Fflyd ar draws tri lleoliad strategol o fewn Gwynedd. Gyda'r symud ymlaen mewn technoleg i gerbydau trydan, dylid ystyried gallu'r gweithdai i gynnal y cerbydau.

Mae'r Gwasanaeth Fflyd yn gefnogol o gadw ei gweithdai ac i hyfforddi a darparu cyfarpar angenrheidiol i'w staff i gynnal cerbydau trydan.

Yn wir, nid oes gweithdy sydd yn cynnal cerbydau trydan yng Ngwynedd ac fe all y Cyngor ddefnyddio'r cyfle yma i roi gwasanaeth ychwanegol i bobl Gwynedd a chreu incwm allanol.

Cyf.	Manylion
5.3.1	Penderfyniad ar y cyfeiriad mae'r Cyngor angen eu cymryd ar reoli'r defnydd o danwydd.
5.3.2	Sefydlu gweithdrefn ar lwytho a chludo offer ar gerbydau.
5.3.3	Sefydlu system bwl corfforaethol.
5.3.4	Ymchwilio i be sydd angen o safbwynt hyfforddiant a chyfarpar yn y gweithdai i gynnal a chadw cerbydau trydan.

## 5.4 Adnewyddu

Yma ceir y cyfeiriad y dymunir eu cymryd ar gyfer adnewyddu'r Fflyd.

5.4.1 Nid oes polisi ar gyfer adnewyddu cerbydau'r Cyngor yn ei le yn bresennol. Drwy sefydlu polisi, a chyfeiriad clir, i adnewyddu fflyd y Cyngor fe allwn sicrhau fod y newidiadau sy'n cael ei wneud er budd hir dymor y Cyngor.

5.4.2 Gyda'r farchnad cerbydau trydan, hydrogen ac ULEV eraill yn symud yn eithaf sydyn mae angen i Gyngor Gwynedd sicrhau eu bod yn agored i drïo cerbydau a thechnolegau gwahanol allan. Mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi derbyn nifer o gerbydau arddangos dros y blynyddoedd ond nid yw'n dueddol o dderbyn unrhyw adborth cadarn yn ôl wedi ei ddefnydd.

Dylid sicrhau fod unrhyw gerbydau sydd ar fenthyg (treial neu arddangos) yn cael ei archwilio yn llawn a bod defnyddwyr y cerbydau yn cael mewnbwn yn y broses.

5.4.3 Ymhellach i'r arweiniad a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (2.1) yn ogystal â'r cerbydau sydd yn bresennol ar y farchnad, argymhellir y dylai Cyngor Gwynedd gymryd y camau canlynol:

### 5.4.3.1 Cerbydau 4x4 (35)

Nid oes cerbydau 4x4 trydan ar y farchnad ar hyn o bryd. Oherwydd hyn, fe ddylai unrhyw gerbyd sydd angen ei adnewyddu yn y grŵp hwn fod yn gerbydau disel/hybrid. Cyn adnewyddu'r cerbydau hyn fe ddylai Rheolwyr gadarnhau eu gofynion a rhesymeg dros gael cerbyd 4x4. Pan nad oes rhesymeg ddigonol, ni ddylid newid y cerbyd am 4x4 newydd a dylid edrych ar opsiynau gwyrdd eraill.

#### 5.4.3.2 Ceir (72)

Mae ceir o bob maint ar fflyd y Cyngor yn bresennol. Mae'r rhaniad fel a ganlyn:

Math	Nifer
Car (Estate)	10
Car (Hatchback)	34
Car (MPV)	20
Car (MPV) Cadair Olwyn	8

Fe welir ceir trydan o'r un math ar y farchnad heddiw ac fe ddylai bob car sydd angen ei adnewyddu cael ei newid i fersiwn trydan. Yn anffodus nid oes fawr o geir MPV sydd angen mynediad gan gadeiriau olwyn ar y farchnad ar hyn o bryd. Bydd angen edrych ar rain mewn mwy o fanylder pan fo'r gofyn yn galw.

Dylai Cyngor Gwynedd ei wneud yn bolisi bod unrhyw gar sy'n cael ei bwrcasu o hyn allan yn un trydan. Yr eithriad i hyn byddai bod rheolwyr perthnasol yn gallu profi pam nad ydi fersiwn trydan o'r cerbyd yn addas h.y. cwmpas y cerbyd, isadeiledd.

#### 5.4.3.3 Bws Mini (33)

Yn ystod y misoedd diwethaf mae bysiau mini wedi cychwyn dod i'r farchnad. Yn anffodus, nid yw'r dewis yn eang ac mae'r pellter mae'r cerbydau yn teithio ar fatri llawn yn ychydig yn isel ar hyn o bryd (ar wahân i un cerbyd sydd ar y farchnad). Rydym am fonitro y farchnad dros y misoedd nesaf i weld os oes datblygiadau pellach ac ail ymweld ar gychwyn 2023/24.

#### 5.4.3.4 Cerbydau Masnachol Ysgafn (189)

Gwelir y mwyafrif o gerbydau'r Cyngor yn y grŵp yma, sef faniau a lorïau (pick ups) llai na 3.5t GVW. Yn aml fe welir offer arbenigol ar y cerbydau yma ac fe rannir fel a ganlyn:

Math	Nifer
Lori (< 3.5t)	41
Lori (< 3.5t) Cage	21
Lori (< 3.5t) Stillage	10
Traffic Management	2
Van (< 3.5t)	111
Van (< 3.5t) Luton	4

Mae lorïau llai na 3.5t GVW yn cychwyn dod ar y farchnad ond nid yw'r cwmpas yn addas i ofynion Gwynedd. Mae'r un peth yn wir hefyd am gerbydau Luton. Oherwydd hyn fe ddylai gadw golwg am ddatblygiadau yn y farchnad.

Gwelir 111 o faniau ar fflyd y Cyngor yn bresennol. Mae fersiynau o'r cerbydau hyn ar y farchnad heddiw a dylid y Cyngor ei wneud yn bolisi i adnewyddu'r rhain i drydan pan fo'r gofyn yn galw. Yr eithriad i hyn byddai fod rheolwyr perthnasol yn gallu profi pam nad ydi fersiwn trydan o'r cerbyd yn addas h.y. cwmpas y cerbyd, isadeiledd.

#### 5.4.3.5 Cerbydau Masnachol Trwm (129)

Mae'r cerbydau arbenigol mae'r Cyngor yn ei redeg, er enghraifft cerbydau graeanu, gwastraff ac ailgylchu ac ysgubwyr. Nid yw'r dechnoleg trydan wedi gwir cyrraedd y farchnad yma eto (ddim i'r graddau a byddai'n effeithiol yng Ngwynedd p'run bynnag). Er hynny, mae cerbydau trydan ar y farchnad a dylai'r Cyngor parhau i dderbyn a thrio allan cerbydau o'r math yma yn rheolaidd.

Yn ogystal, mae cerbydau hydrogen yn cychwyn ymddangos ar y farchnad, dylid hefyd cadw golwg ar y cerbydau yma oherwydd dyma'r cyfeiriad mae'r Gwasanaeth Fflyd yn credu y bydd y farchnad yma yn symud yn yr hir dymor. Yn anffodus ni ellir ymchwilio yn iawn i'r farchnad yma gan nad oes isadeiledd hydrogen yn bodoli, hyd yma, tu fewn i Gymru.

#### 5.4.3.6 Offer (20)

Fel y nodir yn 4.2, mae'r Cyngor yn berchen ar 20 o "forklift" a "loading shovel" ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio yn sawl depo Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

Mae offer cyffelyb ar gael ar y farchnad heddiw a dylid adnewyddu'r rhain i fersiynau trydan pan fo'r gofyn y galw.

- 5.5 Fe welir, ar hyn o bryd, oedi sylweddol yng ngallu'r Cyngor i dderbyn cerbydau trydan i'w Fflyd. Mae'r broblem yma yn ymwneud a'r gadwyn cyflenwi ac anallu gwneuthurwyr i ddarparu'r cerbydau yn unol â'r galw. Gwelir oedi o fwy na 12 mis o'r pwynt archebu sydd yn amlwg am effeithio unrhyw amserlen adnewyddu.

Mae trafodaethau cychwynnol wedi ei gynnal rhwng Rheolwyr Fflyd Cymru a'r Llywodraeth ar y ffordd gorau i ddelio a'r broblem yma. Un datrysiad posibl sydd yn cael ei drafod ydi i awdurdodau Cymru gyfuno ei anghenion a mynd i'r farchnad ac un archeb fawr. Y gobaith drwy wneud hyn ydi i'w wneud yn fwy deniadol i wneuthurwyr, derbyn cerbydau yn gynt ac o bosib sicrhau pris prynu rhatach.

Cyf.	Manylion
5.4.1	Sefydlu polisi adnewyddu cerbydau ar draws y Cyngor.
5.4.2	Parhau i gynnal treialon ar gerbydau gwahanol a chael adroddiadau yn ôl wedi'r defnydd.
5.4.3.1	Herio'r angen o gael cerbydau 4x4 pan fo angen adnewyddu.
5.4.3.2	Adnewyddu pob car ar y fflyd (pan fydd angen) i fersiwn trydan.
5.4.3.3	Cadw mewn cysylltiad ar farchnad bysiau mini am ddatblygiadau.
5.4.3.4	Adnewyddu pob fan ar y fflyd (pan fo'r gofyn yn galw) i fersiynau trydan a chadw golwg ar ddatblygiadau loriau llai na 3.5t GVW
5.4.3.5	Cadw golwg ar y farchnad cerbydau masnachol trwm am ddatblygiadau pellach mewn technoleg
5.4.3.6	Adnewyddu offer i fersiynau trydan



## 6. Amserlen Adnewyddu

- 6.1 Cyfeiriwn at yr hyn a nodir yn 2.1 gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen sicrhau bod unrhyw gerbyd ysgafn (llai na 3.5t GVW) yn un allyriad isel o 2025 ymlaen, gyda gweddill y fflyd yn dilyn yn 2030.

Wrth gymryd i ystyried y cerbydau trydan sydd ar y farchnad heddiw, mae 175 o gerbydau yn disgyn i'r braced yma. Petai angen adnewyddu'r cerbydau rhain (bod gwir ei angen), byddai amserlen adnewyddu yn edrych fel a ganlyn:

Math	22/23	23/24	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29
Car (Estate)	10						
Car (Hatchback)	20	5	7	2			
Car (MPV)	7	2	4	3	1	2	1
Van (3.5t)	72	3	15	4	6	8	3

- 6.2 Effaith ariannol ar brynu cerbydau trydan (pris prynu yn unig)

Fel y nodir yn flaenorol mae dulliau ariannu yn dra wahanol o adran i adran. Edrychwn ar y gost ychwanegol o newid y cerbydau rhain yn flynyddol i rhai trydan. Noder mai amcan gost sydd yn erbyn y cerbydau trydan gan gofio nid oes dim arian wedi ei gronni gan wasanaethau ar gyfer rhai cerbydau.

2022/2023	£1,494,943.15
2023/2024	£165,495.67
2024/2025	£245,578.28
2025/2026	£124,489.28
2026/2027	£50,522.37
2027/2028	£99,260.69
2028/2029	-£12,712.12

Mae'r gwybodaeth yma i'w weld ar Atodiad 1.

## 6.2.1 Dull Ariannu

**Benthyciad mewnol:** ble mae'r Cyngor yn benthycu arian o gronfeydd eu hunain i ariannu gwariant cyfalaf. Yn aml mae'r arian yma wedi ei fenthycu o ffynonellau allanol yn gyntaf, felly dyna'r rheswm fod rhaid talu llog ar y math yma o gyllid. Mae'r ad-daliad am y benthyciad yn gost refeniw blynyddol i'r gwasanaeth.

**Cronfa fflyd:** cronfa o arian sydd wedi ei ddynodi yn benodol ar gyfer adnewyddu cerbydau mae'r Cyngor yn ei weld sydd o bwys strategol i sut mae'r Cyngor yn gweithio. Nid oes cost refeniw i'r gwasanaeth o brynu cerbyd drwy'r dull yma.

**Dibrisiant:** mae hwn yn gweithio yn debyg i fenthyciad mewnol, ond mae'n cael ei reoli yn uniongyrchol gan yr Adran. Prynir y cerbyd drwy'r arian sydd wedi ei gronni mewn cronfeydd a thelir y swm yn ôl dros gyfnod penodol, fel bod 'pot' o arian ar gael ar ddiwedd oes y cerbyd i'w adnewyddu. Mae'r ad-daliad/ dibrisiant yn gost refeniw blynyddol i'r gwasanaeth.

**Hunan gyllido:** ble telir am y cerbyd yn syth gan y gwasanaeth o'u cyllidebau. Fe all gwasanaethau brynu cerbyd drwy eu cyllidebau refeniw arferol, derbyniant grant, neu arian sydd wedi cronni mewn cyfrif cyfalaf. Nid oes cost refeniw blynyddol i'r gwasanaeth o brynu cerbyd drwy'r dull yma. Yn aml iawn, mae'r cerbydau sydd lawr fel hunan gyllido yn rhai sydd wedi eu cadw ymlaen gan y Gwasanaethau wedi iddi gael ei adnewyddu.

**Wedi cronni:** dyma'r cyfanswm a fydd wedi ei gronni i adnewyddu'r cerbydau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol dan sylw.

**Cost:** dyma yw'r amcan gost o brynu cerbyd cyffelyb mewn trydan. Prisiau wedi selio a'r;

- Van yn £20,000
- Car (Hatchback) yn £22,000
- Car (Estate) yn £25,000
- Car (MPV) yn £30,000

**Gwahaniaeth:** yw'r gwahaniaeth rhwng faint sydd wedi ei gronni a'r pris prynu.

## 6.3 Arbedion Posibl

### 6.3.1 Arbedion Carbon

Drwy newid y Fflyd i un trydan mae arbedion carbon sylweddol i'w weld. Defnyddir 8,000 milltir y flwyddyn (gan gofio fod rhai yn llai) fel y lleiafswm bydd y cerbydau yma yn ei deithio, ac yn defnyddio galwyn o ddisel pob 50 milltir (50mpg) fel cyfartaledd (727 litr o ddisel). Mae llosgi 1 litr o ddisel yn creu 2.62kg o CO<sub>2</sub>. Petai'r Cyngor yn adnewyddu yr holl gerbydau a nodir yn 6.1 bydd amcan arbedion o:

2022/2023	207,616.66kg
2023/2024	19,047.40kg
2024/2025	49,523.24kg
2025/2026	17,142.66kg
2026/2027	13,333.18kg
2027/2028	19,047.40kg
2028/2029	7,618.96kg

\* Mae'n rhaid ystyried na fydd pob cerbyd yn cael ei newid yn unol a'r cynllun os yn dilyn drwy y camau a nodir yn 5.2 a 5.3 gyntaf.

### 6.3.2 Arbedion Refeniw

Wrth i ni drawsnewid y Fflyd o danwydd disel i drydan, mae'n bosib amcan arbedion rhwng tanwydd a thrydan.

#### Costau Tanwydd (disel)

Defnyddir 8,000 milltir y flwyddyn (gan gofio fod rhai yn llai) fel y lleiafswm bydd y cerbydau yma yn ei deithio, ac yn defnyddio galwyn o ddisel pob 50 milltir (50mpg) ar gyfartaledd (160 galwyn o ddisel). Mae pris disel ar hyn o bryd o gwmpas 180c y litr/£8.18 y galwyn sydd o ganlyniad yn rhoi cost refeniw (tanwydd) o £1,309.27 y flwyddyn i bob cerbyd.

#### Costau Gwefru

Defnyddir 8,000 milltir y flwyddyn (gan gofio fod rhai yn llai) fel y lleiafswm bydd y cerbydau yma yn ei deithio, ac yn defnyddio ffigwr o 200 milltir ar wefriad llawn fel cyfartaledd o 20kwh. Mae pris uned o drydan ar hyn o bryd o gwmpas 34c (sef £6.80 bob tro mae gwefru y cerbyd). O ganlyniad bydd angen gwefru y cerbyd 40 o weithiau mewn blwyddyn sydd yn gost refeniw (trydan) o £272.00 y flwyddyn i bob cerbyd.

Petai'r Cyngor yn adnewyddu yr holl gerbydau a noder yn 6.1 bydd amcan arbedion o:

Blwyddyn	Nifer	Cost disel	Cost trydan	Arbedion referniw
2022/2023	109	£ 142,710.43	£ 29,648.00	-£ 113,062.43
2023/2024	10	£ 13,092.70	£ 2,720.00	-£ 10,372.70
2024/2025	26	£ 34,041.02	£ 7,072.00	-£ 26,969.02
2025/2026	9	£ 11,783.43	£ 2,448.00	-£ 9,335.43
2026/2027	7	£ 9,164.89	£ 1,904.00	-£ 7,260.89
2027/2028	10	£ 13,092.70	£ 2,720.00	-£ 10,372.70
2028/2029	4	£ 5,237.08	£ 1,088.00	-£ 4,149.08

Mae'n rhaid ystyried na fydd pob cerbyd yn cael ei newid yn unol a'r cynllun os yn dilyn camau a nodir yn 5.2 a 5.3 gyntaf.

## 7. Materion Ariannol

7.1 Bydd angen i'r Gwasanaeth Fflyd gydweithio gyda'r Adran Cyllid er mwyn cael eu mewnbwn ar:

- drefniadau ariannu'r cerbydau i'r dyfodol (costau cyfalaf uwch, dulliau ariannu).
- arbedion cyllidebau referniw o ganlyniad.
- cyfnodau cadw cerbydau yn gyffredinol gan gynnwys rhai trydan.

## 8. Materion Isadeiledd

8.1 Bydd angen i'r Gwasanaeth Fflyd gydweithio'r gyda'r Adran Tai ac Eiddo er mwyn cael ei mewnbwn ar:

- osod pwyntiau gwefru digonol o fewn asedau/swyddfeydd a depos y Cyngor.



## 9. Datblygiadau Eraill

Rydym yn awyddus i edrych ar bob opsiwn posibl i leihau allyriadau carbon y Cyngor. Mae nifer o gamau eraill rydym yn ei gymryd ar hyn o bryd i wneud hyn.

### 9.1 Treial HVO (Hydrotreated Vegetable Oil)

Yn ystod y misoedd nesaf bydd y Gwasanaeth Fflyd yn cychwyn treial ar redeg rhan o'n fflyd ar HVO yn hytrach na disel. Mae'r gost bresennol o HVO yn uchel (o gwmpas 30c y litr yn uwch) ond mae disgwyliad i'r pris yma ostwng yn sylweddol wrth i'r galw gynyddu. Gwelir lleihad yn allyriadau carbon uniongyrchol (Sgôp 1) o 90% wrth ddefnyddio HVO o gymharu â disel. Rhaid nodi, nid yw Llywodraeth Cymru yn caniatáu i ni gofnodi'r allyriadau uniongyrchol yn unig oherwydd bod yr allyriadau yn uchel yn Sgôp 2 a 3. O ganlyniad mae'r arbedion carbon o gwmpas 18%. Er hynny, mae'n lleihad ac yn rhywbeth rydym angen ei ystyried yn benodol ar gerbydau sydd ddim a cherbyd trydan cyffelyb i'w prynu.

### 9.2 Hydrogen

Yr ydym yn rhan o brosiect Trafnidiaeth a Datgarboneiddio (Hydrogen) sydd yn cael ei arwain gan Gyngor Sir y Fflint, sydd yn edrych ar gyfleon mewn datblygu hwb carbon. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig a rhaglen Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Gall yr hwb fod yn un hwb, neu ymgasgliad o elfennau o fewn y maes hydrogen. Yn sicr gweler ddatrasiad yma i gerbydau dros 3.5t.

# Eitem 11

<b>CYFARFOD</b>	<b>Cabinet Cyngor Gwynedd</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>24 Ionawr 2023</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>Cynghorydd Beca Brown</b>
<b>SWYDDOG</b>	<b>Gwern ap Rhisiart</b>
<b>TEITL YR EITEM</b>	<b>A) Adroddiad ymgynghoriad statudol Ysgol Chwilog B) Cyflwyno achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg</b>

## A) ADRODDIAD YMGYNGHORIAD STATUDOL YSGOL CHWILOG

### 1. Y Penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar gynyddu capasiti Ysgol Chwilog ynghyd â'r ymatebion i'r sylwadau hynny, a phenderfynu os dylid:

Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i ehangu safle'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol.

(Nid oes angen dilyn drefn statudol mewn perthynas â'r bwriad i ehangu safleoedd Ysgol Llanllechid ac Ysgol Bro Llew gan na fydd hynny'n cynyddu capasiti'r ysgolion yn ddigonol.)

### 2. Cyflwyniad

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i gyrff llywodraethol 3 ysgol a'u haelodau lleol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgolion hynny i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn eu dalgylchoedd naturiol, sef Ysgol Llanllechid, Ysgol Bro Llew ac Ysgol Chwilog.

Gwelwyd cyfle i gyflwyno cais am Grant Cyfalaf y Gymraeg, Llywodraeth Cymru i geisio ymateb i sefyllfaoedd yr ysgolion hyn, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol (cymunedau dros 70% o siaradwyr Cymraeg).

Drwy gyfrwng y cais hwn, mae'r Adran Addysg yn awyddus i gefnogi datblygiadau economaidd, tai a mentrau cymdeithasol mewn rhai cymunedau o arwyddocâd ieithyddol yn y sir, drwy gynyddu capasiti'r ysgolion mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth yn sgil y datblygiadau hyn. O blethu'r holl elfennau adfywio cymunedol hyn yn gelfydd ynghyd, gall greu seilwaith gadarn ar gyfer y cymunedau hyn, gan greu'r amodau gorau un i'r iaith Gymraeg a ffyniant y cymunedau.

Yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2022 bu i'r Cabinet gymeradwyo cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan adrodd yn ôl i'r Cabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

Bu iddynt hefyd gymeradwyo i symud ymlaen i gyflwyno achos fusnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer buddsoddi dros £1.5m cyfalaf a £0.3m referniw i gynyddu capasiti 3 ysgol (Llanllechid, Bro Llew a Chwilog) er mwyn

cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg) i ffynnu.

### 3. Yr angen am benderfyniad

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn *'ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.'*

Bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65 presennol, sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma. Golyga hyn yr angen i gynnal proses statudol cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fyddai'n arwain at gynyddu capasiti'r ysgol. Cam cyntaf y broses statudol oedd cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

Mae angen i'r Cabinet, felly, ystyried yr ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad statudol a phenderfynu os dylid cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023.

### 4. Yr ymgynghoriad statudol

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 19 Hydref 2022 a 13:00 o'r gloch ar 30 Tachwedd 2022.

Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) a dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol, drwy anfon e-bost a oedd yn cynnwys linc at dudalen arbennig ar wefan y Cyngor oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i'r ymgynghoriad ([www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)) Yn ogystal cynigwyd i anfon copïau caled o unrhyw ddogfennau ar gais gan ymgynghorai.

Anfonwyd copïau electroneg o'r ddogfen ymgynghori at Ysgol Chwilog, fel yr ysgol yr oedd y cynnig yn effeithio arni, gan wneud cais i'r Pennaeth ei dosbarthu i rieni/gwarchodwyr, staff ac aelodau corff llywodraethwyr yr ysgol.

Anfonwyd copïau electroneg o'r ddogfen ymgynghori i ysgolion cyfagos, sef Ysgol Abererch, Ysgol Bro Plenydd, Ysgol Llangybi ac Ysgol Llanystumdwy, gan wneud cais i'r Pennaeth eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr, staff ac aelodau cyrff llywodraethwyr yr ysgolion.

Cyhoeddwyd pecyn cefndirol yn ogystal, a oedd yn cynnwys asesiadau effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg, y gymuned, cydraddoldeb, economaidd-gymdeithasol, llesiant, yn ogystal ag asesiadau ar effaith tebygol y cynnig ar drefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg. Roedd y dogfennau ar gael i'w lawr lwytho oddi ar wefan y Cyngor.

Yn ogystal, crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig. Bu i swyddog o'r Tîm Moderneiddio a Phennaeth Ysgol Chwilog gynnal sesiwn ymgynghori gyda chynrychiolaeth o ddysgwyr Ysgol Chwilog er mwyn canfod barn y dysgwyr. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau wedi ei gynnwys yn **Atodiad B**.

Derbyniwyd 18 ymateb i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad. Dengys y tabl isod ffurf a chyfrwng iaith yr ymatebion i'r ymgynghoriad:

Ffurf ymateb	Cymraeg	Saesneg	Dwyieithog	Cyfanswm
<b>Ffurflen ymateb</b>	14	1	0	15
<b>E-bost</b>	2	0	0	2
<b>Llythyr</b>	0	0	0	0
<b>Adroddiad</b>	0	0	1	1

## 5. Sylwadau dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol

Pwrpas yr adran hon yw cyflwyno a chrynhai rhai o'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Nid oes posib ymateb i bob sylwad yn fanwl yng nghorff yr adroddiad hwn, fodd bynnag, ynghlwm (**Atodiad A**) ceir copi o dabl sy'n cynnwys yr holl sylwadau yn ogystal ag ymateb y Cyngor iddynt. Gellir gweld copïau o'r ymatebion unigol yn **Atodiad C**. Mae'r wybodaeth bersonol ar yr ymatebion wedi eu tynnu oddi arnynt er mwyn cydymffurfio â gofynion yr ymgynghorai yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 2008 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn manylu ar y materion a ganlyn:

### 5.1 Cefnogaeth i'r cynnig

*Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig.*

### 5.2 Niferoedd plant

*Roedd rhai sylwadau yn gofyn os oedd cynyddu niferoedd yr ysgol i 95 + 13 meithrin yn ddigonol gan ystyried fod y rhagamcanion niferoedd yn 109 (meithrin – blwyddyn 6) yn 2027.*

Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar wybodaeth rydym wedi ei dderbyn gan yr ysgol ym Medi 2022 ac amcan o unrhyw blant oed cynradd newydd posib fydd yn byw yn y tai newydd yn dilyn eu adeiladu. Mae rhaid nodi hefyd fod y rhagamcanion o 109 o ddysgwyr ar gyfer Medi 2027 ar gyfer plant meithrin – blwyddyn 6. Rydym felly o'r farn fod cynyddu capasiti i 95 (derbyn – blwyddyn 6) + 13 meithrin, sef 108 o ddisgyblion, yn synhwyrol i ymateb i'r rhagamcanion gan nad oes unrhyw sicrwydd y bydd y niferoedd hyn yn cael eu gwireddu. Serch hynny, byddwn yn monitro unrhyw gynnydd yn flynyddol ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw angen i gynyddu'r capasiti ymhellach.

### 5.3 Effaith ar drafnidiaeth

*Roedd rhai sylwadau yn nodi pryder am effaith y cynnydd yn niferoedd dysgwyr ar nifer y ceir fyddai'n cludo'r plant i'r ysgol.*

Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed neu palmentydd rhwng y stadau a'r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fyddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.

Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.

### 5.4 Addasrwydd yr ysgol

*Roedd sylwadau am addasrwydd yr ysgol i ddelio â chynnydd yn niferoedd dysgwyr.*

Mae swyddogion o'r Adrannau Addysg ac Eiddo wedi ymweld ag Ysgol Chwilog i gynnal asesiad addasrwydd er mwyn adnabod unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau amgylchedd addas a digonol ar gyfer anghenion yr ysgol.



O ganlyniad, gallwn gadarnhau y byddwn yn ymateb i'r angen i addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy wneud addasiadau i'r prif adeilad e.e. gwneud y neuadd yn fwy.

### 5.5 Opsiynau amgen

*Roedd rhai sylwadau yn gofyn pam nad oeddem yn creu ysgol newydd neu estyniad traddodiadol i'r adeilad presennol yn hytrach na gosod Uned ar y safle.*

Er mwyn ymateb i sefyllfa brys am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog rydym yn anelu i greu'r dosbarth ychwanegol erbyn 1 Medi 2023. Byddai creu ysgol newydd, neu hyd yn oed estyniad ar gyfer y dosbarth ac adnoddau ychwanegol eraill megis toiledau ac ystafelloedd eraill aml-bwrpas yn cymryd dipyn mwy o amser i'w gwireddu. Mae'n fwriad defnyddio Unedau MMC (Modern Methods of Construction) gan fod eu cyfnod adeiladu ar safle yn llawer byrrach nag adeilad o wneuthuriad traddodiadol er bod ganddynt oes o hyd at 60 mlynedd. Mae'r math yma o Unedau eisoes wedi eu defnyddio mewn ysgolion eraill yn y sir ac yn profi i fod yn ddosbarthiadau effeithiol a phoblogaidd.

### 5.6 Ymateb Estyn

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fel corff yr ymgynghorir ag ef, mae Estyn yn rhoi eu barn ar yr ymgynghoriad.

Mynegodd Estyn yn ei grynodedb:

*Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau cyfredol o leiaf o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.*

### 5.7 Ymateb plant

Paratowyd dogfennau addas ar gyfer plant oed cynradd a threfnwyd fod Pennaeth yr ysgol yn hwyluso sesiwn gyda cynrychiolaeth o blant yr ysgol i dderbyn eu hymateb i'r cynnig. Yn ogystal â'r Pennaeth, roedd Swyddog Moderneiddio Addysg hefyd yn bresennol i arsylwi'r sesiwn.

Amlygodd y sesiwn ymgynghori fod dysgwyr Ysgol Chwilog yn hapus iawn gyda'r cynnig ac roedd yn glir eu bod o'r farn y byddai hyn yn rywbeth da i Ysgol Chwilog.

Roedd rhai yn bryderus fod y neuadd a'r coridor am fod yn rhy fach i holl ddysgwyr yr ysgol, ond roeddent serch hynny yn croesawu y cynnig.

Derbyniwyd un ymateb arall gan blentyn drwy e-bost. Roedd yr ymateb yma hefyd yn cefnogi'r cynnig.

## 6. Asesiadau effaith y newid

Cwblhawyd nifer o asesiadau effaith cyn cychwyn ar y drefn ymgynghori statudol a gofynnwyd i'r ymgynghorai am unrhyw sylwadau ar yr asesiadau rheiny. Mae rhai o'r asesiadau wedi eu haddasu yn dilyn derbyn sylwadau i'r ymgynghoriad (gweler **Atodiad CH**)

Gellir gweld isod y prif sylwadau a dderbyniwyd.

### 6.1 Asesu'r effaith ar nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

*Roedd un sylw yn nodi bod rhai o'r plant yn cyrraedd yr ysgol, gyda Chymraeg annigonol i allu ymdoddi i fewn i lif naturiol yr ysgol. Oes felly angen dosbarth arall er mwyn gwella Cymraeg y plant hyn fel nad yw eu diffygion hwy yn cael effaith negyddol ar ddosbarthiadau y rhai sy'n meddu'r Gymraeg?*

Mae gan yr Adran Addysg Ganolfannau laith wedi eu lleoli ar draws y Sir, gan gynnwys un yn Nwyfor, sy'n derbyn hwyrdyfiaid sy'n cyrraedd ysgolion lleol fel Ysgol Chwilog, ac mae Penaethiaid ac

athrawon ysgolion prif lif y dalgylch yn gallu cyfeirio dysgwyr sydd heb y Gymraeg neu yn ddi-hyder eu sgiliau siarad, ysgrifennu a gwrandao y Gymraeg i sylw'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn ddiweddar, mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i athrawon a chymorthyddion ysgolion ledled y sir, er sicrhau bod trochi priodol yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, mae gan y Canolfannau Iaith draddodiad hir o ddarparu cynhaliaeth Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau Ionawr 2023, bydd yr Adran yn sicrhau parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.

Felly mae'r gwasanaeth yma ar gael i gynnig cymorth i'r plant hynny sydd angen gwella eu Cymraeg, ac i ysgolion sydd angen cymorth gyda throchi dysgwyr yn y prif lif.

*Gofynnodd un arall os yw hi'n amser i ddynodi'r ysgol yn Ysgol Gymraeg, er mwyn gwarchod buddiannau?*

Mae'r drefn genedlaethol o gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi dod i rym ers Medi 2022. Yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru ar y drefn gategoreiddio, ynghyd â gofynion Polisi Iaith Addysg Gwynedd, mae ysgolion cynradd Gwynedd, gan gynnwys Ysgol Chwilog, yn disgyn i Categori 3 Cyfrwng Cymraeg, gan fod y meini prawf yn adlewyrchu ein polisi iaith addysg presennol o ran darpariaeth cwricwlwm ac iaith weinyddol ein hysgolion, sef ysgol ble'r Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol, ac ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. O saith oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

## **6.2 Asesu Effaith Llesiant**

*Derbyniwyd sylwadau yn gofyn am addasiadau fydda'n gwella llesiant staff a disgyblion i'r dyfodol e.e. stafell staff, toiledau gwell, gofod bwyta cinio mwy.*

Mae swyddogion o'r Adrannau Addysg ac Eiddo wedi ymweld ag Ysgol Chwilog i gynnal asesiad addasrwydd er mwyn adnabod unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau amgylchedd addas a digonol ar gyfer anghenion yr ysgol.

O ganlyniad, gallwn gadarnhau y byddwn yn ymateb i'r angen i addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy gynnal addasiadau i'r prif adeilad.

## **6.3 Asesiad effaith ar y Gymuned, Ansawdd a safonau Addysg a Threfniadau Teithio**

*Roedd rhai sylwadau yn poeni am effaith y cynnydd yn niferoedd disgyblion ar nifer y ceir fyddai'n cludo'r plant i'r ysgol.*

Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed a palmentydd rhwng y stadau a'r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fyddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynnydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.

Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.

*Nododd un arall fod ambell ystafell ddosbarth ar hyn o bryd yn rhy fach*

Ni fyddwn yn gallu addasu maint unrhyw ddosbarth sy'n bodoli'n barod gan y byddai gwneud hynny'n golygu newidiadau strwythurol fyddai tu hwnt i gyllideb y prosiect.

## **B) CYFLWYNO ACHOS FUSNES I LLYWODRAETH CYMRU ER MWYN SICRHAU CYLLID O'R GRANT CYFALAF ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG**

Bu inni ddanfôn **Achos Cyfiawnhad Busnes** i Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau cyllid o **Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg** i gynyddu capasiti Ysgol Bro Lleu, Ysgol Chwilog ac Ysgol Llanllechid. Bu i Llywodraeth Cymru drafod yr achos fusnes ym Mhaneli Craffu a Buddsoddi Achosion Busnes mis Tachwedd a Rhagfyr.

Roedd y cais am £1,533,500 o gyllid cyfalaf ar gyfer creu dosbarthiadau ychwanegol yn y 3 ysgol yn ogystal a £341,874 o gyllid refeniw ar gyfer cyflogi athro ychwanegol ymhob un o'r 3 ysgol am gyfnod o 2 flynedd. Mae'r **Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg** yn golygu cyfraniad 100% gan Llywodraeth Cymru heb angen am unrhyw gyfraniad cyfatebol gan Cyngor Gwynedd.

Rydym dal i ddisgwyl cadarnhad swyddogol o'r penderfyniad, er bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cefnogi'r cais mewn egwyddor yn haf 2022.

Bydd defnyddio'r unrhyw gyllid a dderbynnir ar gyfer addasu Ysgol Chwilog yn ddarostyngedig i ganlyniad y broses statudol.

### **CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023 – bydd angen cyhoeddi rhybudd statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Yn ddarostyngedig i benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol:

<b>Chwefror 2023</b>	<b>Cyhoeddi Rhybudd Statudol:</b> os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.
<b>Ebrill 2023</b>	<b>Y Cabinet:</b> Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio.

<b>Mai 2023</b>	<b>Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:</b> Os mai'r penderfyniad fydd gweithredu'r cynnig a bod gwrthwynebiad wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w benderfynu: Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno; Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni; Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.
<b>Mai – Awst 2023</b>	Creu dosbarth ychwanegol ar safle Ysgol Chwilog
<b>Medi 2023</b>	<b>Gweithredu'r cynnig:</b> Byddwn yn gweithredu'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog o 65 i 95
<b>Chwefror 2023 – Mawrth 2026</b>	Creu gofod ychwanegol yn Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Llanllechid.  Penodi a chyflogi athro ychwanegol ymhob un o'r 3 ysgol am gyfnod o 2 flynedd.

## 9. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cael mewnbwn i'r adroddiad ac mae unrhyw sylwadau wedi eu hymgorffori.

### Y Pennaeth Cyllid:

Nid oes gennyf sylwadau i'w cynnig o safbwynt ariannol ynglŷn â chanlyniad yr ymgynghoriad. Gallaf gadarnhau fod swyddogion perthnasol o'r Adran Gyllid wedi rhoi sylw i agweddau ariannol yr Achos Cyfiawnhad Busnes a gyflwynwyd i Llywodraeth Cymru yn ystod hydref 2022, ac rwyf wedi ei gymeradwyo bryd hynny yn fy rôl fel Swyddog Cyllid Statudol y Cyngor.

### Barn yr Aelod Lleol (Cynghorydd Rhys Tudur):

Gobeithiaf fod yr addewidion a phosibiliadau sydd wedi eu rhoi a'u cynnig gan y Cyngor yn adran 4.1 o'u hymateb o'r adroddiad yn cael eu gwireddu. Dyma'r sylwadau a roddwyd gan y Cyngor:

- Creu dosbarth ychwanegol yn yr Uned newydd
- Creu toiledau plant ychwanegol yn yr Uned
- Creu toiledau staff newydd yn yr Uned
- Creu ystafell yn yr Uned ar gyfer gwaith CPA a gwaith 1:1
- Creu ystafell staff yn yr Uned
- Byddwn yn creu linc dan do o'r Uned i'r prif adeilad felly ni fydd angen i unrhyw un groesi'r iard i gyrraedd y prif adeilad.
- Byddwn yn ymestyn y ffreutur/neuadd er mwyn creu lle digonol ar gyfer y cynnydd i'r dyfodol.

Gobeithiaf hefyd y bydd y Cyngor yn ystyriol iawn o geisiadau pellach gan y Ysgol i addasu'r adeilad ymhellach yn y dyfodol petai'r galw am hynny a phetai nifer y plant yn cynyddu yn ôl y rhagolygon.



# **Ymatebion Ymgynghoriad Statudol Ysgol Chwilog**

## **Ymatebion Ymgynghoriad Statudol**

Cynnig i gynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth  
i Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023

Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol i ...  
(Cyfnod Ymgynghori Statudol 19 Hydref – 30 Tachwedd 2022)

Derbyniwyd 18 ymateb ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol

*NODER – Mae'r sylwadau wedi eu dyfynnu'n uniongyrchol o'r ymatebion.*

	Ymateb i'r Ymgynghoriad	Ymateb Cyngor Gwynedd
<b>1.</b>	<b>Cefnogaeth i'r Cynnig</b>	
1.1	Cytuno y dylid ychwanegu dosbarth ychwanegol yn Ysgol Chwilog.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
1.2	Gofynnwyd i mi eich hysbysu fod y Cyngor Cymuned yn ffafrio'r opsiwn o gael dosbarth newydd yn Ysgol Chwilog a dim y ddau opsiwn arall.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
1.3	Croesawu y cynnig	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
1.4	Mae cynyddu'r capasiti a chyfleusterau'r ysgol yn mynd i arwain y ffordd at wella'r ansawdd dysgu.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
<b>2.</b>	<b>Niferoedd plant</b>	
2.1	Rwyf yn teimlo yn gryf iawn fod yr ysgol angen y buddsoddiad hwn. Mae caniatâd wedi ei roi i adeiladu tair stad newydd o dai yn Chwilog, gydag un bellach wedi ei adeiladu a phobl wedi symud i mewn i'w tai. Mae hyn wedi cynyddu poblogaeth y pentref, sydd wedi dilyn i lawer mwy o blant yn byw yma, ac eisiau mynychu yr ysgol. Mi fydd hyn yn cynyddu eto. Mae'r pentref yn ffynnu, ac mae angen addasu'r ysgol i gyd fynd a hyn. Mae'naws Cymraeg yr ysgol yn atynnu teuluoedd ifanc i'r pentref, a byddai yn siom fawr iawn peidio gallu cynnig lle i bob plentyn sydd yn byw yn y pentref i fynychu yr ysgol.	Dyfodiad y stadau tai newydd ydi prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog gan ein bod yn rhagweld y bydd nifer o deuluoedd gyda phlant oed cynradd yn mynd i fyw ynddynt. Rydym felly yn cynllunio ar eu cyfer drwy greu 30 mwy o lefydd yn yr ysgol.

2.2	Y sylw cyntaf yw nad yw'r cynnig i weld yn cyfarch y gofyn yn llawn o ran beth yw'r amcan fydd niferoedd plant yr ysgol erbyn Medi 2027 (109), mae hynny yn effeithio'r gofyn nid yn unig ar nifer y dosbarthiadau, ond hefyd am faint y dosbarthiadau presennol.	Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar wybodaeth rydym wedi ei dderbyn gan yr ysgol ym Medi 2022 ac amcan o unrhyw blant oed cynradd newydd posib fydd yn byw yn y tai newydd yn dilyn eu hadeiladu. Mae'n rhaid nodi hefyd fod y rhagamcanion o 109 o ddysgwyr ar gyfer Medi 2027 ar gyfer plant meithrin – blwyddyn 6. Rydym felly o'r farn fod cynyddu capasiti i 95 (derbyn – blwyddyn 6) + 13 meithrin, sef 108 o ddysgwyr, yn synhwyrol i ymateb i'r rhagamcanion gan nad oes unrhyw sicrwydd y bydd y niferoedd yn cael eu gwireddu. Serch hynny, byddwn yn monitro unrhyw gynnydd yn flynyddol ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw angen i gynyddu capasiti ymhellach.
2.3	Rwy'n croesawu'r cynnig fel datrysiad dros dro. Mae'r ysgol mewn dybryd angen cynyddu ei gapasiti. Mae'r ysgol eisoes wedi profi cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion ac mae rhagolygon o gynnydd pellach heibio 95 disgybl yn y blynyddoedd nesaf. Bydd angen edrych felly ar gynyddu'r capasiti ymhellach yn y dyfodol ac ar ddatblygu adeiladau presennol ac adnoddau'r ysgol i gyfarch y cynydd.	
2.4	Er yn croesawu'r cynnig yma fel ateb dros dro i sefyllfa capasiti yr ysgol, mae angen meddwl am opsiynau hir dymor hefyd gan bod y niferoedd yn cynyddu yn bell dros 95 erbyn 2027.	
2.5	Croesawn egwyddor y cynnig yma fel datrysiad dros dro, ond yn hir dymor mae'n hollol amlwg nad ydyw yn cyfarch y rhagolygon capasiti'r ysgol o 109 erbyn 2027, sydd bellach ond pedair mlynedd addysgol i ffwrdd.	
2.6	Y mae'r opsiwn yn iawn fel opsiwn dros dro, ond gyda'r cynnydd mewn pobl yn dod i fyw i'r pentref a dwy stad o dai arall ar y ffordd mae'n bwysig bod ystyriaeth hir dymor yn cael ei roi.	
<b>3. Effaith ar trafndiaeth</b>		
3.1	Cefnogaf yn llwyr y syniad o gynyddu capasiti Ysgol Chwilog. Yr unig bryder sydd gennyf ydy beth fydd y sefyllfa ynglyn a thrafnudiaeth. Y mae'r ddarpariaeth parcio ar hyn o bryd yn hynod o annigonol ac y mae'r syniad o annog plant y pentref i gerdded i'r ysgol hefyd yn anaddas gan bod hynny yn digwydd	Fel nodwyd yn y ddogfen ymgynghori fod y Cyngor wedi adnabod y posibilrwydd y bydd cynyddu capasiti yn creu problemau parcio/ a thraffig ychwanegol.

	eisoes yn y rhan fwyaf o achosion. Y mae safle dros y ffordd a'r tro am yr ysgol wedi dod ar werth eto-oni fyddai posib i'r Cyngor wneud pryniant gorfodol ar ran o'r safle honno tybed?	<p>Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwillog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed rhwng y stadau â'r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fydd y cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynnydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.</p> <p>Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau sy'n cael eu creu o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.</p>
3.2	Cynyddu problemau parcio, na fydd yn rhai tymor byr, ond yn rhai parhaol.	
3.3	Angen sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ddiogelwch y plant wrth gyrraedd a gadael yr ysgol, gyda'r traffig sydd yno wrth gludo plant a traffig cyffredinol sy'n gyrru drwy'r pentref. Drwy gynyddu'r capasiti mae'n debyg mai gwaethygu fydd y broblem yma	
3.4	Mae parcio wedi bod yn broblem barhaus yma - nid oes lle i rieni droi rownd ayb Gall fod yn sefyllfa beryglus ar brydiau. Bydd lorïau a faniau hefyd yn dod yma gyda nwyddau i'r gegin ayb ac nid oes fawr o le iddyn hwythau droi. Heb os ac oni bai byddai safonau addysg yn gwella a byddai'r ysgol yn le brafiach i fod ynddi.	
3.5	Trefniadau Teithio - Mae parcio yn broblem. Nid oes lle i rieni droi rownd na pharcio wrth yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod y rhieni yn stopio eu ceir mewn llefydd anaddas, thu allan i giat yr ysgol. Mae hyn yn achosi traffig ac yn beryg.	
3.6	Nid oes lle parcio i'r rhieni nol ei plant, mae gallu fod yn reit beryglus amser plant dod i'r ysgol ac adref, llawer yn bagio fewn i'r iard barcio y staff oherwydd does ganddynt dim lle i droi.	
3.7	Does dim lle addas i rieni ddod a car fyny lon yr ysgol i nol y plant, diffyg lle pario.	



3.8	Mae na lot o bryder am y traffic gan mai lon fach gul iawn sy'n arwain at yr ysgol, ac yn hynny o beth mae'n biti na fyddai modd adnabod llain o dir cul i greu llwybr troed i'r ysgol o'r brif stryd yn y pentref fel nad ydi cerddwyr yn gorfod dod fyny'r lon gul at yr ysgol o gwbl. Byddai hynny hefyd yn lleihau traffic sy'n troi fyny y lon fach gul tu allan i'r ysgol	
3.9	Mae mynediad i'r ysgol ar ffordd fach gyfyng yn bryder, a ellid ystyried opsiynau lliniaru ar gyfer traffig. Mae'n rhaid sicrhau diogelwch disgyblion a rhieni a'u teuluoedd wrth gerdded i'r ysgol. Un opsiwn mae'n werth ei ystyried ydi i adnabod llain o dir addas i'r Cyngor brynu er mwyn creu llwybr troed o'r brif stryd i fyny at iard yr ysgol.	
3.10	Ystyried cynnig cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu y tu allan i ardal Chwilog.	Mae polisi cludiant Cyngor Gwynedd yn cynnig cludiant di-dâl ar gyfer dysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin). Pe byddai'r Cyngor yn ymestyn y cynnig i blant y tu allan i ddalgylch Chwilog, byddai rhaid rhoi'r un cynnig i bob ysgol ar draws y sir ac ni fyddai hynny'n gynaliadwy.
<b>4.</b>	<b>Addasrwydd yr ysgol</b>	
4.1	Er ei fod yn ateb tymor byr digon derbyniol, mae'n anodd gweld sut mae caban yn diwallu angenion yr ysgol fel un endid. Bydd cynyddu'r capasti yn cael effaith ar y gegin a'r ffreutur, ac nid oes ystafell athrawon/staff bwrpasol yn yr ysgol. Nid yw'n amlwg os oes toiledau yn y 'caban', gan o bosib fynd a'r plant yn ol i oes Victoria gyda'r angen i groesi'r iard i gael toilet. Gan eich bod wedi nodi bod niferoedd yr ysgol wedi cynyddu dros nifer o flynyddoedd, dylai strwythur mwy parhaol i wella'r ysgol fod mewn grym ers peth amser, yn hytrach na chaban 11fed awr ar ddeg.	Mae swyddogion o'r Adrannau Addysg ac Eiddo wedi ymweld ag Ysgol Chwilog i gynnal asesiad addasrwydd er mwyn adnabod unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau amgylchedd addas a digonol ar gyfer anghenion yr ysgol.  O ganlyniad, gallwn gadarnhau y byddwn yn ymateb i'r angen i addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy gynnal addasiadau i'r prif adeilad. Bydd hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu dosbarth ychwanegol yn yr Uned newydd</li> <li>• Creu toiledau plant ychwanegol yn yr Uned</li> </ul>

4.2	<p>Rwyf yn croesawu'r cynnig yn naturiol ond mae angen ystyried ychydig o bethau yn ychwanegol i'r ystafell ddosbarth newydd sef -</p> <p>Ymestyn y neuadd i allu cynnig digon o le i'r plant fwyta eu cinio a chael gwersi addysg gorfforol ayyb</p> <p>Cael ystafell staff gall: ar hyn o bryd nid oes gofod addas ar gyfer amseroedd egwyl ag ati</p> <p>Toiledau ar gyfer oedolion braidd yn anaddas yn yr oes sydd ohoni.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu toiledau staff newydd yn yr Uned</li> <li>• Creu ystafell yn yr Uned ar gyfer gwaith CPA a gwaith 1:1</li> <li>• Creu ystafell staff yn yr Uned</li> <li>• Creu mwy o le i hongian cotiau</li> <li>• Byddwn yn creu linc dan do o'r Uned l'r prif adeilad felly ni fydd angen i unrhyw un groesi'r iard l gyrraedd y prif adeilad.</li> <li>• Byddwn yn ymestyn y ffreutur/neuadd er mwyn creu lle digonol ar gyfer y cynnydd yn y dyfodol.</li> </ul>
4.3	<p>Oes posib hefyd ystyried addasrwydd y neuadd sy'n hynod o fach i ysgol o 109 blant, ynghyd â materion mwy ymarferol arall sy'n codi fel gofod storio / gofod i gynnal gwaith 1 i 1. Byddai hefyd yn braf iawn pe gellid lincio unrhyw gaban i'r prif adeilad rhyw ffordd.</p>	<p>Yn sgil y ffaith y bydd yr Uned yn creu gofod ychwanegol yn yr ysgol, bydd yn golygu digon o ofod i dderbyn plant y dosbarth meithrin yn ôl i safle'r ysgol.</p> <p>Un peth na fyddwn yn gallu ei wneud dan y cynllun hwn ydi addasu maint unrhyw ddsbarth sy'n bodoli'n barod gan y byddai gwneud hynny'n golygu newidiadau strwythurol fyddai tu hwnt i gyllideb y prosiect.</p>
4.4	<p>Mae angen edrych ar addasrwydd yr ysgol yn ei chyfanrwydd. Er diogelwch i blant a staff byddai'n fuddiol ystyried bod linc rhwng y caban a prif adeilad yr ysgol.</p>	<p>Mater i'r Adran Cynnal a Chadw ydi tamprwydd a byddwn yn rhannu eich pryderon gyda nhw.</p>
4.5	<p>Dim toiled hygyrch ar y safle o gwbl ar hyn o bryd.</p>	<p>O safbwynt y cwestiwn o pa blant fydd yn cael eu lleoli yn yr Uned, bydd hyn yn benderfyniad i'r Pennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Chwilog.</p>
4.6	<p>Rhaid sicrhau bod maint y dosbarthiadau yn addas i sicrhau ansawdd a safonau addysg uchel. Mae ambell ystafell ddsbarth ar hyn o bryd yn rhy fach. Mae hyn yn cael effaith ar lesiant staff.</p>	
4.7	<p>Bod y Cyngor yn edrych i ddatblygu ac uwchraddio'r ysgol ymhellach yn y blynyddoedd nesaf</p>	
4.8	<p>Byddwn yn bryderus ynglŷn â chapasiti arfaethedig yr ysgol a'i chymesuredd i faint ystafelloedd dosbarth, y brif neuadd, a lle</p>	

	<p>byddai'r plant yn debygol o gael eu prydau ysgol. cynyddu i 109 yn dilyn y 4 blynedd academaidd nesaf.</p> <p>Hefyd, rwyf yn lleisio pryder ynghylch ystafell staff a chyfleusterau glanhau/toiledau.</p>	
4.9	<p>Mae gennym gonsyrn nid yn unig am nifer y dosbarthiadau ond eu maint hefyd - ynghyd á gweddill adeilad yr ysgol gan gynnwys y neuadd, ystafell athrawon, toiledau staff, storfeydd addas, gofod addas a thawel i leoli grwpiau targed.</p>	
4.10	<p>O bosib ystyried edrych ar ehangu'r cyswllt rhwng y caban a mynedfa'r ysgol. Posib symud y maes parcio i'r cae ac ymestyn yr ysgol?</p>	
4.11	<p>Mae'r ysgol wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym wir angen mwy o le er mwyn cadw'r disgyblion yn ddiogel ac yn gyfforddus.</p> <p>Nid oes ar hyn o bryd , digon o le i bawb fwyta yn y neuadd, mae rhai o'r plant yn gorofd bwyta yn y cyntedd.</p> <p>Nid oes lle i bawb yn y neuadd pan yn cynnal gwasanaeth wythnosol.</p> <p>Mae rhai o'r dosbarthiadau yn gyfyng iawn hefyd e.e y dosbarth canol ble mae blynyddoedd 2 a 3.</p> <p>Byddai caban yn estyniad gwerthfawr iawn i'r ysgol a byddai'n syniad rhoi blynyddoedd hynaf yr ysgol yma gan eu bod yn fwy annibynnol ac aeddfed.</p> <p>Mae staff sydd ar GPA angen ystafell benodol sy'n ddistaw a chyfforddus ac yn cynnig digon o le.</p> <p>Nid oes ychwaith ystafell athrawon yma ar hyn o bryd sydd yn broblem arall. Does gennym ni fel staff, ddim lle diogel i gadw ein bagiau a'n cotiau. Rydym hefyd yn gorfod defnyddio un o'r dosbarthiadau i fwyta ein cinio.</p>	

	<p>Byddai'r staff yn gwerthfawrogi toiled addas sy'n fwy preifat o ran ei leoliad - ar hyn o bryd, mae'r toiled reit wrth y brif fynedfa a drws nesaf i'r swyddfa sydd ddim yn ddelfrydol iawn! Mae dynion a merched yn rhannu'r un toiled.</p> <p>Nid oes ystafell neilltuol ar gyfer y meithrin yma - ar hyn o bryd maent yn cael eu dysgu yn neuadd y pentref - nid yw hyn yn sefyllfa delfrydol.</p> <p>Gan fod niferoedd mawr ym mhob dosbarth bellach, nid oes lle i bawb roi eu cotiau ar begiau yn anffodus. Canlyniad hyn yw bod cotiau a bagiau ar hyd y lloriau yn aml sydd yn fler ac yn hynod o beryglus. Tybed a fyddai loceri yn fwy addas neu cyntedd cotiau mwy ar gyfer pob dosbarth - ond eto mae lle yn brin!</p> <p>Gan ein bod yn annog rhieni i beidio defnyddio eu ceir pan yn casglu eu plant, maent yn aml yn gorfod sefyll yn y gwynt a'r glaw ar dir yr ysgol. Tybed a fyddai modd cael rhyw fath o loches ar eu cyfer?</p> <p>Rydw i hefyd yn amau fod ystafell toiledau'r plant yn rhy fychan erbyn hyn - wrth eu gyrru i olchi eu dwylo cyn cinio, mae rhesi a rhesi o blant yn gorfod disgwyl eu tro.</p> <p>Mae tamprwydd i'w weld yn nosbarth blwyddyn 4, 5 a 6 ar hyn o bryd - cafodd ei drin sbelan yn ol, ond mae'n ei ol eto. mae plastr yn disgyn oddi ar y waliau.</p>	
4.12	<p>Yn sicr mae angen ystyried buddsoddi mewn datblygu'r ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Nid oes man penodol i'r staff gael amser CPA.</li> <li>- Nid oes ystafell i'r meithrin ar dir yr ysgol, maent ar hyn o bryd yn cael eu dysgu yn neuadd y pentref. Nid yw hyn yn ddelfrydol.</li> <li>- Dim digon o doliedau i'r plant, mae'r plant ieuengaf yn gorfod rhannu 2 doiled rhwng 31 o blant.</li> <li>- Dim ardal digon fawr i gadw bag a chotiau y plant drwy'r ysgol, mae rhai o blant Cyfnod Sylfaen yn gorfod symud eu cotiau a bagiau i fyny i dop yr ysgol er mwyn cael lle. Nid yw hyn yn briodol gan fod y plant yn gallu crwydro.</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae'r neuadd yn fach i'r niferoedd sydd gennym. Mae rhai o blant sydd ar focs bwyd yn gorfod bwyta eu cinio yn y coridor.</li> <li>- Mae dosbarth blynyddoedd 2 a 3 yn gyfyngiedig iawn ar gyfer y niferoedd sydd gennym yn dod i fyny o'r Cyfnod Sylfaen. Yn sicr byddwn yn elwa yn fawr o gael caban i ddarparu ar gyfer y niferoedd o ddisgyblion sydd gennym.</li> <li>- Mae toiledau y staff wrth y brif fynedfa, nid yw hyn yn ddelfrydol. Ac mae rhaid i ddynion a merched rannu yr un toilet.</li> <li>- Nid oes gennym ystafell staff i gael eistedd yno i gael paned a chinio. Rydym yn gorfod defnyddio un o'r dosbarthiadau i fwyta ein cinio.</li> <li>- Nid oes lle yn y neuadd i gynnal gwasanaethau a chyfarfodydd fel ysgol gyfan.</li> <li>- Llawer o damprwydd o gwmpas y ffenestri yn y dosbarthiadau</li> </ul>	
4.13	<p>Maer ysgol wedi cynyddu ers i mi gychwyn,ac rwyf yn teimlo ein bod angen fwy o le ir disgyblion ar staff.Nid oes digon o le i bawb fwyta ei cinio yr un pryd, maer amser gwasanaeth hefyd efo dim digon o le.Nid oes ystafell athrawon i ni gael mynd i bwyta ein bwyd a cael seibiant mi fuasai neis i ni fel staff gaer loceri ein hunain i gadw pethau personol a cotiau a.y.y.b ar hun o bryd rydym yn gorfod bwyta ein cinio yn un or dosbarth. Byddair staff i gyd yn gwerthfawrogi toiled fwy preifat o ran lle,ar hun o bryd mae o reit wrth y brif fynedfa a drws nesa i swyddfa y pennaeth a hefyd rydym yn gorfod rhannu efo dynion.</p> <p>nid oes ystafell neilltuol ir dosbarth meithrin teimlo nad ydynt yn perthyn ir ysgol gan eu bod nhw yn y neuadd y pentref.</p> <p>nid oes ddigon o begiau ir plant rhoid ei bagiau a cotiau,felly ar hun o bryd llawer ohonynt ar llawr yn ffler.</p> <p>mi fuasai riw fath o loches yn braf ir rhieni i gysgodi or gwynt ar glaw.</p>	

	<p>Nid oes ddigon o doiledau ir plant dosbarth blwyddyn un a derbyn. Mae yna tamprwydd yn nosbarth 4,5 a 6 ar hyn o bryd.</p>	
4.13	<p>Fel rhiant i blentyn Meithrin sydd mewn dosbarth oddi ar y safle eleni, mae'n bwysig iawn bod y caban am fod yn rhan naturiol o'r ysgol a ddim yn cael ei weld fel adnodd ar wahan. Bosib ystyried coridor neu linc o'r prif adeilad i'r caban falla.</p> <p>Gyda cynnydd yn niferoedd yr ysgol, yn naturiol mae hynny yn golygu bod ystyriaeth angen ei roi i gynyddu maint pethau eraill yn yr ysgol hefyd - storfeydd, maint y neuadd, toiledau, maint y dosbarthiadau ayyb.</p>	
4.14	<p>Mae niferoedd y plant sy'n mynychu wedi cynyddu yn sylweddol ac felly mae diffyg lle yn broblem fawr. Does dim digon o doiledau i blant Blwyddyn Derbyn ac 1. Dim ystafell pwrpasol i'r meithrin ac yn gorfod defnyddio neuadd y pentref ac felly dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn rhan o'r ysgol. Does dim lle addas i'r plant hongian eu cotiau a'u bagiau ac yn dueddol o orfod gadael y bagiau ar y llawr sydd yn beryg i bobl faglu.</p> <p>Does dim lle addas i aelodau staff i gael lle i gael paned na cinio gan ein bod y defnyddio ystafell ddosbarth i fwyta ein cinio a ddim yn cael seibiant pwrpasol gan nad oes ystafell addas ar ein cyfer. Hefyd yn ystod cyfnod cyfnodau cynllunio athrawon does dim stafell addas i gael llonyddwch heb orfod ateb y ffon neu aelod arall yn dod i mewn i estyn adnoddau.</p> <p>Mae'r neuadd yn rhy fach i bawb gael cinio gyda'u gilydd ac hefyd yn anaddas i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan am nad ydi'r neuadd ddigon mawr.</p> <p>Mi fysai'n hwylus cael lle pwrpasol i aelodau staff cael cadw pethau personol yn ddiogel gan nad oes lle/stafell i ni gadw ein</p>	

	cotiau a bagiau. Dydi toiled y staff ddim mewn lle addas chwaith gan ei fod drws nesaf i'r swyddfa ac yn rhy agos at y fynedfa.	
4.15	Bydd cael caban yn datrys y broblem o diffyg lle i un dosbarth o blant.	
4.16	Ansawdd a safonau addysg - Os byddai mwy o le ar gael rwy'n ffyddiog y byddai'r disgyblion yn llwyddo i weithio'n well. Hynny yw byddai'r dosbarthiadau yn fwy a bydd ardaloedd ymyraethau tawel yn bosib.	
<b>5.</b>	<b>Opsiynau amgen</b>	
5.1	Dylai opsiynau eraill fod wedi eu hystyried flynyddoedd yn ol, gan ei bod bellach braidd yn hwyr i hyd yn oed ystyried posibiladau eraill yn anffodus. O gysidro problemau parcio, diffyg ystafell athrawon, a chegin/ ffreutur all brofi'n annigonol, efallai mai ail-leoli'r ysgol fyddai wedi bod y syniad gorau, petai wedi cael ei gysidro ddigon buan.	Doedd yr angen am fwy o lefydd yn Ysgol Chwilog ddim yn amlwg blynyddoedd yn ôl. Dim ond yn gymharol ddiweddar mae'r niferoedd wedi dangos cynnydd sylweddol o 52 yn 2019, oedd 19 dan gapasiti yr ysgol, i 76 yn Medi 2021.  Nodir eich sylw mai ail-leoli'r ysgol efallai fyddai wedi bod y syniad gorau ond byddai ystyried gwneud hynny wedi golygu proses fyddai'n cymryd blynyddoedd pan fo angen datrysiad brys i sefyllfa'r ysgol.
5.2	Opsiwn arall yn hytrach na chaban fyddai estyniad iawn i'r ysgol fel bod y disgyblion i gyd o dan yr un to.	Oherwydd ein bod angen creu'r dosbarth ychwanegol yma erbyn 1 Medi 2023, er mwyn ymateb i sefyllfa brys am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog. Mae'n fwriad i wneud hyn drwy ddefnyddio Unedau MMC (Modern Methods of Construction). Mae'r rhain yn barod wedi eu defnyddio mewn ysgolion eraill yn y sir ac yn profi i fod yn ddosbarthiadau effeithiol a phoblogaidd.
5.3	Estyniad parhaol i'r ysgol yn hytrach na chaban.	
5.4	Estyniad iawn ar gyfer cael y disgyblion i gyd o dan yr un to	
5.5	Opsiwn yn lle caban yw cael estyniad i'r ysgol lle fysar plant i gyd o dan yr un to.	Mae llawer o fanteision i ddefnyddio'r Unedau MMC gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o gysondeb yn y deunyddiau sydd yn cael eu defnyddio</li> </ul>

5.6	Byddai cael estyniad yn fwy addas er mwyn rhoi'r cyfleuoedd addysgu gorau posib i'r disgyblion yn ogystad a cael pawb o deulu'r ysgol o dan yr un to i gael teimlad o berthyn.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Haws defnyddio deunyddiau ysgafnach sydd yn arbed ynni</li> <li>• Yr adeiladau yn medru cael eu hadeiladu i unrhyw faint a siâp.</li> <li>• Adeiladau yn llawer haws i'w cynhesu, gyda llai o ddefnydd o ynni nag adeiladau traddodiadol.</li> <li>• Mae'r adeiladau yn cydymffurfio, neu'n rhagori ar ofynion ynni y Rheoliadau Adeiladu.</li> <li>• Strwythur modiwl yr adeiladau yn golygu fod mwy o hyblygrwydd wrth ddylunio'r gofod mewnol.</li> <li>• Cyfnod adeiladu ar y safle yn llawer byrrach nag adeilad o wneuthuriad traddodiadol</li> </ul>
<b>6.</b>	<b>Effaith ar y Gymraeg</b>	
6.1	Nifer o rieni sy'n medru'r Gymraeg yn dymuno peidio ei siarad a'u plant. Rhai o'r plant yn cyrraedd yr ysgol, gyda Chymraeg annigonol i allu ymdoddi i fewn i lif naturiol yr ysgol. Oes felly angen dosbarth arall er mwyn gwella Cymraeg y plant hyn fel nad yw eu diffygion hwy yn cael effaith negyddol ar ddsbarthiadau y rhai sy'n meddu'r Gymraeg?	<p>Mae gan yr Adran Addysg Ganolfannau Iaith wedi eu lleoli ar draws y Sir, gan gynnwys un yn Nwyfor, sy'n derbyn hwyrdyfodiaid sy'n cyrraedd ysgolion lleol fel Ysgol Chwilog, ac mae Penaethiaid ac athrawon ysgolion prif lif y dalgylch yn gallu cyfeirio dysgwyr sydd heb y Gymraeg neu yn ddi-hyder eu sgiliau siarad, ysgrifennu a gwrandao y Gymraeg i sylw'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn ddiweddar, mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i athrawon a chymorthyddion ysgolion ledled y sir, er sicrhau bod trochi priodol yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, mae gan y Canolfannau Iaith draddodiad hir o ddarparu cynhaliath Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau Ionawr 2023, bydd yr Adran yn sicrhau parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.</p> <p>Felly mae'r gwasanaeth yma ar gael i gynnig cymorth i'r plant hynny sydd angen gwella eu Cymraeg, ac i ysgolion sydd angen cymorth gyda throchi dysgwyr yn y prif lif.</p>



6.2	A yw hi'n amser i ddynodi'r ysgol yn Ysgol Gymraeg, er mwyn gwarchod buddiannau?	Mae'r drefn genedlaethol o gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg wedi dod i rym ers Medi 2022. Yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru ar y drefn gategoreiddio, ynghyd â gofynion Polisi Iaith Addysg Gwynedd, mae ysgolion cynradd Gwynedd yn disgyn i Categori 3 Cyfrwng Gymraeg, gan fod y meini prawf yn adlewyrchu ein polisi iaith addysg presennol o ran darpariaeth cwricwlwm ac iaith weinyddol ein hysgolion, sef ysgol ble'r Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol, ac ysgol sydd ag ethos Gymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.
6.3	Cyhyd â bod yr ysgol yn parhau i gynnig y Gymraeg fel iaith gyntaf, nid wyf yn ystyried hyn yn bryder.	Bydd Ysgol Chwilog yn parhau i gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r Polisi Iaith Addysg Gwynedd.
<b>7</b>	<b>Effaith ar Llesiant</b>	
7.1	Oes posibl ystyried yr ardal staff bresenol mewn unrhyw ddatblygiad o ran eu llesiant nhw? Mae'r ardal bresenol yn fychan iawn fel mae nifer staff wedi tyfu. Mae hyn hefyd yn wir am nifer y cyfleusterau megis toiledau i staff a phlant, ynghyd â lle i fwyta cinio	Bydd ychwanegu Uned yn creu opsiwn i greu gofod ar gyfer y staff.  Mae'n fwriad hefyd i leoli toiledau ychwanegol yn yr Uned a chreu toiledau staff newydd. Byddwn yn ymestyn y neuadd/ffreutur presennol er mwyn creu mwy o le i blant fwyta eu cinio.
7.2	Llesiant staff - angen gofod pwrpasol iddynt gael eu cinio (ystafell athrawon addas). Angen adolygu cyfleusterau toiledau staff a disgyblion.	
7.3	Llesiant disgyblion - angen gofod addas i gynnal sesiynau grwpiau targed.	Bydd creu'r Uned yn cynnig cyfle i allu lleoli adnoddau yn ychwanegol i ddsbarth gan gynnwys gofod ar gyfer cynnal sesiynau grwpiau targed.
7.4	Ystyried disgyblion a all fod ag anabledd corfforol a chynnig cyfleusterau priodol	Bydd anghenion unrhyw blentyn gydag anghenion anabledd corfforol yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydarddoldeb yr Adran Addysg.

7.5	Bydd y caban yn cynnig mwy o le i'r disgyblion a'r staff fydd yn creu awyrgylch brafiach a mwy diogel i weithio ynddo. Felly yn effeithio ar les pawb yn y bôn. Gallwn wedyn gael ystafelloedd mwy preifat ar gyfer CPA, grwpiau ymyrraeth ayb	Bydd creu'r Uned yn cynnig cyfle i allu lleoli adnoddau yn ychwanegol i ddsbarth ychwanegol gan gynnwys gofod ar gyfer CPA, grwpiau ymyrraeth ayb
7.6	Bydd llawer mwy o le sy'n golygu bydd mwy o chwarae teg i'r disgyblion e.e. tawelwch i weithio ac ardaloedd i gynnal sesiynau ymyrraethau amrywiol.	
7.7	Yn sicr bydd y caban yn sicrhau awyrgylch brafiach i'r disgyblion a'r staff.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
7.8	Mi fuasai caban yn brafiach ir plant ar staff, hefyd mi fuasent yn teimlo ei bod yn perthyn ir ysgol gweld ni gyd o dan yr un to.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
<b>8</b>	<b>Ymateb Estyn</b>	

<p>Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Gwynedd i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddisgyblion trwy ychwanegu ystafell ddosbarth a fydd yn weithredol o 1 Medi 2023. Bydd hwn yn gynydd o dros 25% i nifer y lleoedd presennol.</p> <p><b>Cyflwyniad</b> Mae hwn yn gynnig gan Gyngor Gwynedd i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddisgyblion trwy ychwanegu ystafell ddosbarth a fydd yn weithredol o 1 Medi 2023.</p> <p>Mae'r cynigiwr yn nodi bod nifer y disgyblion yn Ysgol Chwilog wedi cynyddu'n gyson ers sawl blwyddyn a bod yr ysgol wedi cyrraedd ei llawn gapasiti, sef 65 o ddisgyblion, er 1 Medi 2022.</p> <p>Dywed y cynigiwr fod ystâd dai newydd wedi'i hadeiladu yn y pentref dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a bod caniatâd cynllunio ar gyfer dwy ystâd arall. Gallai hyn arwain at gyfanswm o hyd at 39 o dai ychwanegol, a disgwylir y bydd hyn yn arwain at fwy o alw am leoedd yn Ysgol Chwilog.</p> <p>Mae'r cynigiwr yn esbonio'r ymresymiad y tu ôl i'r cynnig yn glir. Mae hyn yn cynnwys diffyg lle yn yr ysgol i fodloni'r cynnydd cyfredol yn nifer y disgyblion, ynghyd â'r rhagamcanion ar gyfer cynnydd pellach yn nifer y disgyblion o ganlyniad i dai newydd sydd wedi'u lleoli yn nalgylch yr ysgol.</p> <p><b>Crynodeb/Casgliad</b> Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau cyfredol o leiaf o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.</p> <p><b>Disgrifiad a manteision</b></p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.</p>
--	---

Mae'r cynigiwr wedi nodi sail resymegol glir ar gyfer y cynnig ac yn rhoi rhesymau ynghylch pam y mae angen newid.

Mae'r cynigiwr wedi nodi cryfderau a gwendidau'r sefyllfa bresennol yn briodol. Mae'r cryfderau'n cynnwys cydnabyddiaeth gan Estyn o'r defnydd a wneir gan ddisgyblion o'r Gymraeg a'r gwelliannau amlwg yn y defnydd o TGCh ar draws llawer o weithgareddau'r ysgol. Y prif wendid, a'r hyn y mae'r ymgynghoriad yn ceisio ymateb iddo, yw'r diffyg lle o ganlyniad i gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Mae'r cynigiwr yn cydnabod yr angen i gynnwys manylion ac ystadegau am bob un o'r pedair ysgol gyfagos y gallai'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori effeithio arnynt. Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r ysgolion, gan mai cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog yw unig nod yr ymgynghoriad.

Mae'r cynigiwr yn cynnwys data cyfredol sy'n ymwneud â datblygiadau tai newydd, gan ragamcanu y gallai nifer y plant mewn 39 o dai newydd fod yn gyfystyr â thuag 16 o ddisgyblion oed cynradd.

Mae'r cynigiwr yn cynnwys arfarniad manwl o'r opsiynau, sy'n archwilio modelau posibl i ymateb i'r problemau y mae Ysgol Chwilog yn eu hwynebu. Mae'r 3 opsiwn yn cynnwys gwneud dim; creu capasiti ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion trwy leoli dosbarth newydd yn Ysgol Chwilog; neu greu capasiti ar gyfer cynnydd yn nifer y disgyblion yn nalgylch Chwilog trwy leoli dosbarth newydd ar safle ysgol arall gyfagos.

Ar ôl cymharu'r 3 opsiwn yn erbyn 8 ffactor allweddol, daeth y cynigiwr i'r casgliad mai'r opsiwn dewisol oedd creu capasiti ar

gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion yn nalgylch Chwilog trwy leoli dosbarth newydd ar safle Ysgol Chwilog, a fydd yn weithredol o fis Medi 2023.

#### **Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau'r cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn datgan ei nod o gynnig addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y medrau a'r hyder sydd eu hangen ar ddisgyblion i'w galluogi i ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth fwriadus i adroddiad arolygu diweddaraf Estyn, gan gynnwys prif bwyntiau'r adroddiad, fel yr arweinyddiaeth gref, corff llywodraethol ymroddgar a chefnogol, lefelau uchel o waith tîm ymhlith y staff, staff sy'n cyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel a hyrwydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae hefyd wedi cyfeirio at y 2 argymhelliad. Mae'r cynigiwr o'r farn, trwy roi'r cynnig ar waith i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol trwy greu dosbarth newydd, y bydd yn cefnogi'r ysgol i gyflawni ymhellach, er enghraifft trwy gynnig amgylchedd dysgu gwell i staff addysgu a dysgwyr yn yr ysgol, gan alluogi disgyblion yr ysgol i gael profiadau a chyfleoedd addysgol gwell.

Mae'r cynigiwr wedi sicrhau y byddai cyn lleied â phosibl o darfu ar ddisgyblion, gan y byddai'r gwaith i gynyddu nifer y lleoedd yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau'r haf. Byddai'r holl gostau o fewn y gyllideb, gan gynnwys cyllid i gyflogi athro am 2 flynedd. Byddai hyn yn caniatáu amser i'r niferoedd yn yr ysgol gynyddu o ganlyniad i ddatblygiadau tai ac i'r ysgol gynllunio strwythur staffio priodol i ymateb i'r cynnydd.

9.	Ymateb Plant	
Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda cynrychiolaeth disgyblion yr Ysgol (ymatebion i'w gweld yn <b>Atodiad B</b> ) a derbyniwyd un ymateb annibynnol isod		
9.1	<p>Cael mwy o le yn yr ysgol fel bod dim angen i'r meithrin fynd i neuadd y pentref.</p> <p>Does dim byd yn fy mhoeni am hyn.</p> <p>Y pethau pwysicaf i mi yn yr ysgol ydi mynd i'r ysgol bob dydd a dysgu pethau newydd</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.</p>

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog – Ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc 2022

Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar **19 Gorffennaf 2022**, cymeradwyodd y Cabinet y bwriad i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng **19 Hydref a 30 Tachwedd 2022**, yn seiliedig ar y bwriad i weithredu'r cynnig ar 1 Medi 2023.

Paratowyd dogfennau addas ar gyfer plant oed cynradd a threfnwyd fod Pennaeth yr ysgol yn hwyluso sesiwn gyda cynrychiolaeth disgyblion yr Ysgol i dderbyn eu ymateb i'r cynnig. Yn ogystal a'r Pennaeth, roedd Swyddog Moderneiddio Addysg hefyd yn bresennol i arsylwi'r sesiwn.

Esboniwyd bod y newid yn golygu:

- Creu Uned ar gyfer mwy o le i Ysgol Chwilog gan fod niferoedd yr ysgol yn cynyddu

Cymerwyd oeddeutu hanner awr i gwblhau'r sesiwn. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig, mynd drwy cyflwyniad a chwblhau holiadur ar ddiwedd y sesiwn.

Roedd 10 o blant wedi cymryd rhan yn ystod y sesiwn ymgynghoriad.

Gweler isod manylion y sesiwn ymgynghori gyda disgyblion:

<b>Dydd Iau, 10 Tachwedd 2022</b>	<b>1.30pm Ysgol Chwilog</b>
---------------------------------------	---------------------------------

## Gweler isod yr ymatebion a dderbyniwyd gan y disgyblion

NODER - Mae sylwadau'r plant wedi eu dyfynnu'n uniongyrchol o'u hymatebion.

<b>Sut wyt ti'n teimlo am hyn?</b>			
<u>Ysgol</u>	<u>Hapus</u>	<u>Ddim yn Sicr</u>	<u>Anhapus</u>
Ysgol Chwilog	10	0	0
Cyfanswm	10	0	0

<b>Cwestiwn 1 – Sut wyt ti yn teimlo am hyn?</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Rydw i'n hoffi'r ysgol</li><li>• Yr ysgol ydir lle gorau</li><li>• oce nai adal ichi tyfu yr ysgol</li><li>• rydan ni cytuno i wneud y neuadd yn mwy ac i gael dosbarth i cae.</li><li>• Rydw'i yn meddwl y bod cael ystafell arall i'r ysgol yn Syniad da oherwydd Mae llawer o blant yn y'r ysgol</li></ul>

<b>Cwestiwn 2 – Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o'r cynnig yma?</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• rhes gwell</li><li>• lle cotiau Mwy</li><li>• sleid</li><li>• gael lle bwyta mwy, Pwll nofio ac gael mwy o offer amser chwarae.</li><li>• fyswn i yn hoffi cael mwy o pethau ar y lard neu cae. Ee hoop Pel rwyd neu goliau. Hefyd fyswn yn hoffi cael mwy o le yn y neuadd bwyta.</li><li>• oce</li><li>• Fyswn i yn hoffi gael mwy o offer i chwarae efo amser chwilog fadda swings ag ffens rownd y swings rhagofn i blant bach frifo.</li><li>• Byddan ni wneud neuadd mwy ac gael tŷ gwydur i'r llyisiau.</li><li>• Mi faswn ni yn hoffi cael neuadd fwyta mwy i'r holl blant ac ystafell athrawon fwy i Mr Jones.ac yr holl athrawon eraill.</li><li>• Fyswn i yn hoffi Neuadd mwy. Ac llawr meddal o dan y Parc ysgol.</li></ul>



### Cwestiwn 3 – Beth sy'n dy boeni am hyn?

- dim bud
- dim bud
- na
- na
- Nac Oes
- na
- Na
- does dim byd yn Poini ni.
- Does dim byd yn fy mhoeni i.
- Nac oes

### Cwestiwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol?

- Y prif athro
- Yr athrawes a Prif athro
- y plant ac y athrawon
- Plant ddim yn briffo, Plant yn hapus, Plant yn Dysgu
- Bod gan blant digon o le a rhyddid i ddysgu a gwranddo
- i blant fod yn hapys
- cael lle i Pawb yn yr ysgol.
- cael lle i'r holl blant yn y'r ysgol
- Plant yn cael lle i gerdded yn y coridor.

## Casgliad

Beth ddaeth yn amlwg o'r sesiwn ymgynghori oedd fod disgyblion Ysgol Chwilog yn hapus iawn gyda'r cynnig ac roedd yn glîr fod hyn yn rywbeth da i Ysgol Chwilog. Roedd pob disgybl yn hapus i roid eu sylwadau ar lafar ac yn trafod y newid yn hyderus.

Roedd rhai yn bryderus fod y neuadd a'r coridor am fod yn rhy fach i holl ddisgyblion yr ysgol ond roeddent serch hynny yn croesawu y cynnig.

### Prif bwyntiau'r ymgynghori:

Ysgol Chwilog
Pawb o blaid cynyddu capasiti.
Roedd rhai yn bryderus fod y neuadd a'r coridor am fod yn fach i holl ddisgyblion yr ysgol.
Mae'n amlwg fod y Pennaeth, athrawon a'r disgyblion eraill yn golygu llawer i'w gilydd sydd yn rhoi ymdeimlad o garedigrwydd yn yr ysgol. Roedd pob un disgybl yn dangos balchder mewn bod yn aelodau o'r ysgol.



# CYNGOR CYMUNED LLANYSTUMDWY

Clerc : **BETHAN PARRY JONES**

Ffôn : (01766 810 614)  
e.bost : [clercccllanystumdwy@gmail.com](mailto:clercccllanystumdwy@gmail.com)

Eich cyf:

DERWEN GAM,  
CHWILOG  
PWLLHELI,  
GWYNEDD.  
LL53 6SP

18fed o Dachwedd, 2022.

Adran Moderneiddio Addysg,  
Cyngor Gwynedd,  
Pwllheli.

Annwyl Syr/Fadam,

## **Ymgynghoriad statudol cynyddu capacity Ysgol Chwilog**

Mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor Cymuned ar 03.11.2022 trafodwyd yr ymgynghoriad uchod.

**Gofynwyd i mi eich hysbysu fod y Cyngor Cymuned yn ffafrio'r opsiwn o gael dosbarth newydd yn Ysgol Chwilog a dim y ddau opsiwn arall.**

Yn gywir,

*Bethan Parry Jones,*  
Clerc Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Gwynedd i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddisgyblion trwy ychwanegu ystafell ddosbarth a fydd yn weithredol o 1 Medi 2023. Bydd hwn yn gynydd o dros 25% i nifer y lleoedd presennol.**

### **Cyflwyniad**

Mae hwn yn gynnig gan Gyngor Gwynedd i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddisgyblion trwy ychwanegu ystafell ddosbarth a fydd yn weithredol o 1 Medi 2023.

Mae'r cynigiwr yn nodi bod nifer y disgyblion yn Ysgol Chwilog wedi cynyddu'n gyson ers sawl blwyddyn a bod yr ysgol wedi cyrraedd ei llawn gapasiti, sef 65 o ddisgyblion, er 1 Medi 2022.

Dywed y cynigiwr fod ystâd dai newydd wedi'i hadeiladu yn y pentref dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a bod caniatâd cynllunio ar gyfer dwy ystâd arall. Gallai hyn arwain at gyfanswm o hyd at 39 o dai ychwanegol, a disgwylir y bydd hyn yn arwain at fwy o alw am leoedd yn Ysgol Chwilog.

Mae'r cynigiwr yn esbonio'r ymresymiad y tu ôl i'r cynnig yn glir. Mae hyn yn cynnwys diffyg lle yn yr ysgol i fodloni'r cynnydd cyfredol yn nifer y disgyblion, ynghyd â'r rhagamcanion ar gyfer cynnydd pellach yn nifer y disgyblion o ganlyniad i dai newydd sydd wedi'u lleoli yn nalgylch yr ysgol.

### **Crynodeb/Casgliad**

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau cyfredol o leiaf o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigiwr wedi nodi sail resymegol glir ar gyfer y cynnig ac yn rhoi rhesymau ynghylch pam y mae angen newid.

Mae'r cynigiwr wedi nodi cryfderau a gwendidau'r sefyllfa bresennol yn briodol. Mae'r cryfderau'n cynnwys cydnabyddiaeth gan Estyn o'r defnydd a wneir gan ddisgyblion o'r Gymraeg a'r gwelliannau amlwg yn y defnydd o TGCh ar draws llawer o weithgareddau'r ysgol. Y prif wendid, a'r hyn y mae'r ymgynghoriad yn ceisio ymateb iddo, yw'r diffyg lle o ganlyniad i gynydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Mae'r cynigiwr yn cydnabod yr angen i gynnwys manylion ac ystadegau am bob un o'r pedair ysgol gyfagos y gallai'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori effeithio arnynt. Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r ysgolion, gan mai cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog yw unig nod yr ymgynghoriad. Mae'r cynigiwr yn cynnwys data cyfredol sy'n ymwneud â datblygiadau tai newydd, gan ragamcanu y gallai nifer y plant mewn 39 o dai newydd fod yn gyfystyr â thuag 16 o ddisgyblion oed cynradd.

Mae'r cynigiwr yn cynnwys arfarniad manwl o'r opsiynau, sy'n archwilio modelau posibl i ymateb i'r problemau y mae Ysgol Chwilog yn eu hwynebu. Mae'r 3 opsiwn yn cynnwys gwneud dim; creu capasiti ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion trwy

leoli dosbarth newydd yn Ysgol Chwilog; neu greu capasiti ar gyfer cynnydd yn nifer y disgyblion yn nalgylch Chwilog trwy leoli dosbarth newydd ar safle ysgol arall gyfagos.

Ar ôl cymharu'r 3 opsiwn yn erbyn 8 ffactor allweddol, daeth y cynigiwr i'r casgliad mai'r opsiwn dewisol oedd creu capasiti ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion yn nalgylch Chwilog trwy leoli dosbarth newydd ar safle Ysgol Chwilog, a fydd yn weithredol o fis Medi 2023.

### **Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau'r cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn datgan ei nod o gynnig addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y medrau a'r hyder sydd eu hangen ar ddisgyblion i'w galluogi i ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth fwriadus i adroddiad arolygu diweddaraf Estyn, gan gynnwys prif bwyntiau'r adroddiad, fel yr arweinyddiaeth gref, corff llywodraethol ymroddgar a chefnogol, lefelau uchel o waith tîm ymhlith y staff, staff sy'n cyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae hefyd wedi cyfeirio at y 2 argymhelliad. Mae'r cynigiwr o'r farn, trwy roi'r cynnig ar waith i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol trwy greu dosbarth newydd, y bydd yn cefnogi'r ysgol i gyflawni ymhellach, er enghraifft trwy gynnig amgylchedd dysgu gwell i staff addysgu a dysgwyr yn yr ysgol, gan alluogi disgyblion yr ysgol i gael profiadau a chyfleoedd addysgol gwell.

Mae'r cynigiwr wedi sicrhau y byddai cyn lleied â phosibl o darfu ar ddisgyblion, gan y byddai'r gwaith i gynyddu nifer y lleoedd yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau'r haf. Byddai'r holl gostau o fewn y gyllideb, gan gynnwys cyllid i gyflogi athro am 2 flynedd. Byddai hyn yn caniatáu amser i'r niferoedd yn yr ysgol gynyddu o ganlyniad i ddatblygiadau tai ac i'r ysgol gynllunio strwythur staffio priodol i ymateb i'r cynnydd.

**Estyn's response to the proposal by Gwynedd Council to increase the capacity of Ysgol Chwilog from 65 to 95 pupils, by adding an additional classroom to be operational from 1 September 2023. This will be an increase of over 25% to the existing capacity.**

## **Introduction**

This is a proposal by Gwynedd Council to increase the capacity of Ysgol Chwilog from 65 to 95 pupils, by adding an additional classroom to be operational from 1st September 2023.

The proposer notes that the number of pupils at Ysgol Chwilog has increased consistently for several years, and the school has reached its full capacity of 65 pupils since 1 September 2022.

The proposer states that during recent years, a new housing estate has been built in the village and there is planning consent for another two. This could result in a total of up to 39 additional houses and it is anticipated that this will lead to further demand in the need for places at Ysgol Chwilog

The proposer clearly explains the reasoning behind the proposal. These include a lack of space in the school to meet the current increases in pupil numbers and to meet the projection of further pupil increases as a result of new housing located within the school's catchment area.

## **Summary/Conclusion**

Estyn believes that the proposal is likely to at least maintain the current standards in terms of education, provision, and leadership and management.

## **Description and benefits**

The proposer has identified a clear rationale for the proposal and gives reasons why change is necessary.

The proposer has suitably identified strengths and weaknesses of the current situation. Strengths include recognition by Estyn of the use made of the Welsh language by pupils and the clear improvements in the use of ICT across many of the school's activities. The main weakness, and what the consultation is seeking to respond to, is the lack of space as a result of an increase in the number of children attending the school.

The proposer recognises the need to include the details and statistics of each of the four nearby schools that may be affected by the proposal in the consultation document. The proposer clearly states that none of the schools would be adversely affected by the proposal, since increasing the capacity of Ysgol Chwilog is the only aim of the consultation. The proposer includes current data that relates to new housing developments, projecting that the number of children in 39 new houses could translate into approximately 16 primary age pupils.

The proposer includes a detailed, options appraisal, that explores potential models to respond to the problems facing Ysgol Chwilog. The 3 options include, to do nothing;

to create capacity for increased pupil numbers by locating a new classroom at Ysgol Chwilog; or to create capacity for an increase in the number of primary pupils in the Chwilog catchment area, by locating a new class on the site of another nearby school.

After comparing the 3 options against 8 key factors, the proposer concluded that the preferred option was to create capacity for the increase in primary pupils in the Chwilog catchment area by locating a new class on the Ysgol Chwilog site, to be operational from September 2023.

### **Educational aspects of the proposal**

The proposer has considered appropriately the effects of the proposal on the quality of outcomes, provision, and leadership and management of the school. The local authority states its aim to providing an education of the highest possible quality that will give pupils the experiences, skills and confidence to enable them to develop into bilingual, successful and well-rounded citizens.

The proposer has given purposeful consideration to the latest Estyn inspection report, including the main points of the report, such as, the strong leadership, a dedicated and supportive governing body, high levels of staff teamwork, staff who deliver high quality learning experiences and the promotion of the Welsh language and culture of Wales. It has also referred to the 2 recommendations. The proposer believes that by implementing the proposal of increasing the school's capacity by creating an extra class, it will support the school to achieve further, for example by offer a better learning environment for teaching staff and learners at the school thus enabling the school's pupils to have better educational experiences and opportunities.

The proposer has ensured that there would be minimal disruption to all pupils as work to increase capacity would take place during the summer break. All costs would be within budget, including funding to employ a teacher for 2 years. This would allow time for the numbers at the school to increase as a result of housing developments and for the school to plan an appropriate staffing structure in response to the increase.



# Beth wyt ti'n feddwl?

## Holiadur disgyblion cynradd.

Gall pethau newid yn eich ysgol yn fuan, a rydym eisiau gwybod beth ydych chi fel disgyblion yn ei feddwl am hyn.

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried Cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023

1. Sut wyt ti'n teimlo am hyn? (Ticiwch un dewis)



Unrhyw sylwadau eraill?

2. Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o'r cynnig yma?

3. Oes rhywbeth yn dy boeni am hyn? Beth?

4. Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol?

Diolch yn fawr am eich amser i lenwi'r holiadur yma.

Byddwn yn ystyried eich atebion fel rhan o'r ymgynghoriad.  
Defnyddiwch dudalen ychwanegol os hoffech ysgrifennu mwy.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## I) Manylion

### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynyddu capasiti Ysgol Chwilog

### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Cynyddu gofod Ysgol Chwilog er mwyn sicrhau digon o le i'r dysgwyr presennol ac ymateb i ragamcanion twf ym mhoblogaeth plant yn nalgylch yr ysgol i'r dyfodol

### I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gareth Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg)

#### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mehefin 2022 (fersiwn 1)  
Rhagfyr 2022 (fersiwn 2)

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Adran Addysg Cyngor Gwynedd

Staff, llywodraethwyr, rhieni a phlant fydd yn rhan o'r ymgynghoriad

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rydym wedi cyfathrebu'r bwriad gyda'r ysgol dan sylw.

Rydym wedi trafod yr angen am gynnal trefn statudol gyda phennaeth Ysgol Chwilog a chyfathrebu'r angen gyda'r Corff Llywodraethol.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn Gorffennaf 2022, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig gyda buddiolwyr Ysgol Chwilog er mwyn derbyn eu mewnbwn. Gwnaethpwyd hyn oherwydd fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn 'ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.'

Gan y bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65 sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma, rydym wedi cynnal trefn statudol ar y cynnig cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fydd yn arwain at gynyddu capasiti'r ysgol.

Bu inni ymgynghori gyda staff, rhieni, plant a'r gymuned ehangach yn Chwilog ac ysgolion cyfagos i dderbyn eu sylwadau ar gynyddu capasiti yr ysgol gan gynnwys eu sylwadau ar unrhyw effaith ar gydraddoldeb, y gymuned neu'r iaith Gymraeg.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Yn dilyn ymgysylltu gyda'r holl fuddeiliaid perthnasol yn ystod y broses ymgynghori statudol yn Chwilog derbyniwyd y sylwadau isod fel ymateb i'r asesiad effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol a gellir gweld ymateb y Cyngor iddynt:

- 1) *Nifer o rieni sy'n medru'r Gymraeg yn dymuno peidio ei siarad a'u plant. Rhai o'r plant yn cyrraedd yr ysgol, gyda Chymraeg annigonol i allu ymdoddi i fewn i lif naturiol yr ysgol. Oes felly angen dosbarth arall er mwyn gwella Cymraeg y plant hyn fel nad yw eu diffygion hwy yn cael effaith negyddol ar ddsbarthiadau y rhai sy'n meddu'r Gymraeg?*

Mae Cylch Meithrin Chwilog wedi ei leoli yn festri Capel Uchaf, gyferbyn ag Ysgol Chwilog. Mae'r Cylch Meithrin wedi derbyn canmoliaeth yn ddiweddar o ran eu darpariaeth, ac maent yn gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg i blant meithrin cyn-oed ysgol drwy ddulliau trochi cynnar, sydd o gymorth wrth i'r plant drosglwyddo maes o law o'r Cylch Meithrin i'r Dosbarth Meithrin yn Ysgol Chwilog.

At hyn, mae gan yr Adran Addysg Ganolfannau Iaith wedi eu lleoli ar draws y Sir, gan gynnwys un yn Nwyfor, sy'n derbyn hwyrddyfodiaid sy'n cyrraedd ysgolion lleol fel Ysgol Chwilog, ac mae Penaethiaid ac athrawon ysgolion prif lif y dalgylch yn gallu cyfeirio dysgwyr sydd heb y Gymraeg neu yn ddi-hyder eu sgiliau siarad, ysgrifennu a gwrando y Gymraeg i sylw'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn ddiweddar, mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i athrawon a chymorthyddion ysgolion ledled y sir, er sicrhau bod trochi priodol yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, mae gan y Canolfannau Iaith draddodiad hir o ddarparu cynhaliath Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau Ionawr 2023, bydd yr Adran yn sicrhau parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.

Felly mae'r gwasanaeth yma ar gael i gynnig cymorth i'r plant hynny sydd angen gwella eu Cymraeg, ac i ysgolion sydd angen cymorth gyda throchi dysgwyr yn y prif lif.

- 2) *A yw hi'n amser i ddynodi'r ysgol yn Ysgol Gymraeg, er mwyn gwarchod buddiannau?*

Mae'r drefn genedlaethol o gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi dod i rym ers Medi 2022. Yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru ar y drefn gategoreiddio, ynghyd â gofynion Polisi Iaith Addysg Gwynedd, mae ysgolion cynradd Gwynedd, gan gynnwys Ysgol Chwilog, yn disgyn i Categori 3 Cyfrwng Cymraeg, gan fod y meini prawf yn adlewyrchu ein polisi iaith addysg presennol o ran darpariaeth cwricwlwm ac iaith weinyddol ein hysgolion, sef ysgol ble'r Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol, ac ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

3) Cyhyd â bod yr ysgol yn parhau i gynnig y Gymraeg fel iaith gyntaf, nid wyf yn ystyried hyn yn bryder.

Bydd Ysgol Chwilog yn parhau i gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith Addysg Gwynedd.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i'r ysgol, aelodau lleol, a'r cyrff llywodraethol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgol i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn y dalgylch.

Cyflwynwyd cais am *Grant Cyfalaf y Gymraeg* Llywodraeth Cymru i greu dosbarth ychwanegol yn yr ysgol er mwyn ymateb i'r sefyllfa, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol.

## 2.5 Oes yna unrhyw bylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Byddwn yn parhau i gasglu gwybodaeth yn y cyfnod gwrthwynebu.

## 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	dim	O safbwynt hil, nid oes dystiolaeth y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. Bydd pob plentyn yn derbyn yr un addysg a chyfleoedd beth bynnag yw eu hil neu chenedligrwydd.
Anabledd	dim	Nid oes dystiolaeth y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. Bydd yr Uned yn cynnwys mynediad hygyrch addas i bob plentyn, o safbwynt addasrwydd gweddill adeilad Ysgol Chwilog, bydd anghenion unrhyw blentyn gydag anabledd yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg

<b>Rhyw</b>	dim	Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma.
<b>Oedran</b>	Positif	Bydd y newid yn golygu mwy o lefydd yn yr ysgol ar gyfer holl blant y dalgylch i'r dyfodol. Heb y newid mae'n debygol y byddai rhai plant y dalgylch yn gorfod teithio ymhellach a gadael eu cymuned leol i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion eraill unwaith y bydd Ysgol Chwilog wedi cyrraedd ei chapasiti.
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	dim	Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma.
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	dim	Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma.
<b>Ailbennu rhywedd</b>	dim	Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma.
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Positif / negyddol / dim	Ddim yn berthnasol
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Positif / negyddol / dim	Ddim yn berthnasol
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Positif	<p>Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned yn Chwilog a'r ardal ehangach.</p> <p>Mae Chwilog yn ardal o arwyddocâd ieithyddol, gyda dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Yn ddiweddar, gwelwyd datblygiad stad o dai marchnad agored yn y pentref sydd wedi arwain at nifer o deuluoedd ifanc Cymraeg eu hiaith yn symud i fyw i'r pentref, gan arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr sydd yn dewis mynychu eu hysgol leol, sef Ysgol Chwilog. Yn sgil datblygiad y stad dai yma, dwy stad dai arall arfaethedig, ynghyd ac ail-agor tafarn leol Y Madryn gan wŷr busnes lleol, mae yna bellach fwrllwm o weithgareddau cymunedol Cymraeg yn y pentref, sydd yn fodd o sicrhau gobeithio y bydd Chwilog yn parhau ardal o arwyddocâd ieithyddol, sef ardal gyda dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg am flynyddoedd i ddod.</p> <p>Er mwyn cefnogi newydd-ddyfodiaid i ymdoddi i'r gyfundrefn addysg a'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, mae gan yr Adran Addysg Ganolfannau Iaith</p>

		<p>wedi eu lleoli ar draws y Sir, gan gynnwys un yn Nwyfor, sy'n derbyn hwyrddefodiaid sy'n cyrraedd ysgolion lleol fel Ysgol Chwilog, ac mae Penaethiaid ac athrawon ysgolion prif lif y dalgylch yn gallu cyfeirio dysgwyr sydd heb y Gymraeg neu yn ddi-hyder eu sgiliau siarad, ysgrifennu a gwrandao y Gymraeg i sylw'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn ddiweddar, mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i athrawon a chymorthyddion ysgolion ledled y sir, er sicrhau bod trochi priodol yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, mae gan y Canolfannau Iaith draddodiad hir o ddarparu cynhaliath Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau Ionawr 2023, bydd yr Adran yn sicrhau parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.</p> <p>Felly mae'r gwasanaeth yma ar gael i gynnig cymorth i'r plant hynny sydd angen gwella eu Cymraeg, ac i ysgolion sydd angen cymorth gyda throchi dysgwyr yn y prif lif.</p>
<b>Anfantais Economaidd-Gymdeithasol</b>	Positif	<p>Drwy gynyddu capasiti Ysgol Chwilog byddwn yn sicrhau llefydd i holl blant oed cynradd yn eu hysgol leol beth bynnag yw eu cefndir economaidd – gymdeithasol. Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn creu'r amodau gorau ar gyfer ffyniant y gymuned. Heb y newid mae'n debygol y byddai rhai plant y dalgylch yn gorfod teithio ymhellach a gadael eu cymuned leol i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion eraill unwaith y bydd Ysgol Chwilog wedi cyrraedd ei chapasiti, gallai hyn greu anfantais economaidd 'gymdeithasol i rai plant a theuluoedd. Mae sicrhau gofod digonol yn yr ysgol leol, yn fodd o sicrhau fod y gwasanaeth mae'r teuluoedd eu hangen o fewn eu cymuned leol.</p>

\* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**



<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham- wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Nac ydi	Bydd dyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn parhau yn sgil y cynnig.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	<p>Bydd cynyddu capasiti yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch yn eu hysgol leol. Bydd hyn yn fodd o sicrhau fod holl blant y dalgylch yn gallu derbyn addysg yn eu cymuned leol, gan felly fod yn fodd o hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i holl blant y dalgylch a'r gymuned. Mae gwersi ABCh yn cael eu cynnal yn yr ysgol sydd yn addysgu plant ynglŷn â hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Bydd trefniadau presennol yr ysgol yng nghyd-destun hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn parhau yn sgil y cynnig.</p> <p>Bydd y cynnig yn gwella gallu'r ysgol i “<i>gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn</i>” yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.</p>
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	<p>Bydd cynyddu capasiti yr ysgol yn fodd o feithrin perthnasau da drwy sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch gael mynediad i'w hysgol leol. Bydd hyn yn fodd o sicrhau fod holl blant y dalgylch yn gallu derbyn addysg yn eu cymuned leol, gan felly fod yn fodd o feithrin perthnasau da rhwng y plant â'i gilydd, ynghyd a rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae gwersi ABCh yn cael eu cynnal yn yr ysgol sydd yn addysgu plant ar sut i feithrin perthynas dda. Bydd trefniadau presennol yr ysgol yng nghyd-destun meithrin perthnasau da yn parhau yn sgil y cynnig.</p> <p>Bydd y cynnig yn gwella gallu'r ysgol i “<i>gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn</i>” yn unol â</p>

		gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.
--	--	--

\* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Ni rhagwelir y bydd ychwanegu dosbarth a chynyddu capasiti Ysgol Chwilog yn newid y ffordd mae'r ysgol yn ymdrin a'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd, a bydd yr ysgol yn parhau i fanteisio ar pob cyfle i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned.

Bydd cynyddu capasiti'r ysgol yn fodd o sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch yn eu hysgol leol, ac yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol yn Ysgol Chwilog rhoddwyd cyfle i fuddiolwyr gynnig sylwadau ar unrhyw effaith y gallai'r argymhelliad ei gael ar yr iaith Gymraeg gan ymateb i unrhyw bryderon fydd yn cael eu datgan.

Bydd cynyddu capasiti'r ysgol yn fodd o sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch yn eu hysgol leol, ac yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Drwy gynyddu capasiti Ysgol Chwilog byddwn yn sicrhau llefydd i holl blant oed cynradd yn eu hysgol leol beth bynnag yw eu cefndir economaidd – gymdeithasol. Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn creu'r amodau gorau ar gyfer ffyniant y gymuned. Heb y newid mae'n debygol fydd rhai plant y dalgylch yn gorfod teithio ymhellach a gadael eu cymuned leol i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion eraill unwaith y bydd Ysgol Chwilog wedi cyrraedd ei capasiti gallai hyn greu anfantais economaidd 'gymdeithasol i rai o'r plant a theluoedd. Byddai'r plant hyn hefyd yn methu allan ar y cyfle i gymysgu gyda chyfoedion yn eu cymuned leol yn ystod oriau ysgol ac fe all hyn arwain at anawsterau creu cylch ffrindiau a manteisio ar wasanaethau yn eu cymuned. Mae sicrhau gofod digonol yn yr ysgol leol, yn fodd o sicrhau fod y gwasanaeth y mae'r teuluoedd ei angen o fewn eu cymuned leol.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Yn sgil y cynnig, bydd yr ysgol yn parhau i weithredu yn unol â'i pholisïau a disgwyliadau'r Adran Addysg i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol.

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Rhagwelir y bydd cynyddu capasiti Ysgol Chwilog yn cael effaith bositif ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac economaidd-gymdeithasol oherwydd rhagwelir y bydd yn creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch gan greu seilwaith gadarn ar gyfer y gymuned a chreu'r amodau gorau i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned. Bydd plant y dalgylch yn gallu derbyn addysg yn eu cymuned, gan gyfrannu at ffyniant yr iaith Gymraeg mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol. Heb y newid mae'n debygol fydd rhai plant y dalgylch yn gorfod teithio ymhellach a gadael eu cymuned leol i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion eraill unwaith y bydd Ysgol Chwilog wedi cyrraedd ei chapasiti gallai hyn greu anfantais economaidd 'gymdeithasol i rai o'r plant a theluoedd. Byddai'r plant hyn hefyd yn methu allan ar y cyfle i gymysgu gyda chyfoedion yn eu cymuned leol yn ystod oriau ysgol ac fe all hyn arwain at anawsterau creu cylch ffrindiau a manteisio ar wasanaethau yn eu cymuned. Mae sicrhau gofod digonol yn yr ysgol leol, yn fodd o sicrhau fod y gwasanaeth y mae'r teuluoedd ei angen o fewn eu cymuned leol.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Ni ragwelir y bydd cynyddu capasiti Ysgol Chwilog yn cael effaith sylweddol negyddol ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg nac economaidd-gymdeithasol gan y bydd yr ysgol yn parhau i wasanaethu ei dalgylch yn union fel ac y mae hi ar hyn o bryd.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	Parhau
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	

Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Er nad ydym yn rhagweld unrhyw effaith negyddol byddwn yn parhau i fonitro ac yn gweithredu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol yn ôl y galw.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Does dim effaith negyddol wedi ei adnabod ar y cam yma.

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Byddwn yn monitro effaith unrhyw newid er mwyn sicrhau bod y deilliannau'n bositif ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith negyddol. Bydd hyn yn digwydd mewn cydweithrediad â'r ysgol yn dilyn creu'r dosbarth ychwanegol a derbyn mwy o ddysgwyr i'r ysgol h.y o Medi 2023 ymlaen.

# Adroddiad asesiad effaith llesiant cynyddu capasiti Ysgol Chwilog

## 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel byd-eang
<b>Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:</b>							
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel							
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau							
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd							
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud							
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl							
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg							
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.							

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

### 1.1 Cyd-destun

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i gorff llywodraethol Ysgol Chwilog a'i aelodau lleol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgol i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn ei ddalgylch naturiol.

Gwelwyd cyfle i gyflwyno cais am Grant Cyfalaf y Gymraeg i geisio ymateb i sefyllfa'r ysgol, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol (cymunedau dros 70% o siaradwyr Cymraeg).

Drwy gyfrwng y cais hwn, mae'r Adran Addysg yn awyddus i gefnogi datblygiadau economaidd, tai a mentrau cymdeithasol mewn cymuned o arwyddocâd ieithyddol yn y sir, drwy gynyddu capasiti'r ysgol mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth yn sgil y datblygiadau hyn. O blethu'r holl elfennau adfywio cymunedol hyn yn gelfydd ynghyd, gall greu seilwaith cadarn ar gyfer y gymuned, gan greu'r amodau gorau un i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned.

Yn Chwefror 2022 derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru fod cais Adran Addysg, Cyngor Gwynedd wedi derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn 'ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.'

Gan y bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynydd o dros 25% o'r 65, sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma, cynhaliwyd trefn statudol ar y cynnig yn ystod Hydref – Tachwedd 2022.

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Cynyddu capasiti Ysgol Chwilog	
<b>Amcanion</b>	Manylion:
<b>Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel</b>	Bydd mwy o le yn yr ysgol. Bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sydd yn cynnig gofod addas. Bydd holl ddisgyblion y dalgylch yn gallu derbyn eu haddysg o fewn eu cymuned leol.
<b>Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau</b>	Dim effaith
<b>Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd</b>	Dim effaith
<b>Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud</b>	Bydd y cynnig yn gwella gallu'r ysgol i "gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn" yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.

	<p>Byddai'r cynnig yn golygu fod digon o le yn yr ysgol ar gyfer dysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas ar gyfer y niferoedd. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion.</p> <p>Bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog hefyd yn gyfle i greu mwy o adnoddau newydd a mwy o le yn yr ysgol fydd yn gwella amgylchedd dysgu i'r holl blant a staff.</p> <p>Mae Ysgol Chwilog wedi cael adroddiad Estyn cadarnhaol iawn (haf 2022), felly bydd holl blant y dalgylch yn gallu cael mynediad at addysg o'r radd flaenaf yn Ysgol Chwilog.</p>
<b>Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl</b>	Dim effaith
<b>Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg</b>	<p>Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau fydd yn cefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned.</p> <p>Mae Chwilog yn ardal o arwyddocâd ieithyddol, gyda dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Drwy gynyddu capasiti'r ysgol mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth yn sgil datblygiadau tai a datblygiad economaidd Y Madryn gall greu seilwaith cadarn ar gyfer y gymuned, gan greu'r amodau gorau un i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned.</p>
<b>Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir</b>	Dim effaith.

### 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

Nod	Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma?	Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma:
<b>Cymru lewyrchus</b> Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.	Byddai'r cynnig yn golygu fod digon o le yn yr ysgol ar gyfer dysgu holl blant eu dalgylch mewn dosbarthiadau addas ar gyfer y niferoedd. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion.	Dim effaith.
<b>Cymru gydnherth</b> Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
<b>Cymru iachach</b> Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b> Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).	Bydd y cynnig yn gwella gallu'r ysgol i " <i>gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn</i> " yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.	Dim effaith
<b>Cymru o gymunedau gydlynus</b> Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.	Byddai addasu'r ysgol er mwyn sicrhau digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn golygu y byddai'r disgyblion yn gallu cael addysg yn eu cymuned.	Dim effaith
<b>Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b> Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.	Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned.	Dim effaith
<b>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.</b> Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith



## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

Egwyddorion Datblygu cynaliadwy	A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?
<p><b>Hirdymor</b> Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.</p>	<p>Mae niferoedd presennol a rhagamcanion niferoedd disgyblion yn ogystal â datblygiadau tai lleol yn dangos yr angen am gynyddu capasiti yn yr ysgol a bydd y cynnig yn sicrhau digon o lefydd ar gyfer tymor byr a hir.</p>
<p><b>Atal</b> Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion?</p>	<p>Bydd gweithredu'r argymhelliad yn helpu'r Cyngor i osgoi problemau diffyg gofod yn yr ysgol.</p>
<p><b>Integreiddio</b> Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.</p>	<p>Bu i'r awdurdod gychwyn y broses o adolygu sefyllfa'r ysgol yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol.</p>
<p><b>Cydweithio</b> Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.</p>	<p>Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgol unigol yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgol a phlant y dalgylch</p>
<p><b>Cynnwys</b> Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu.</p>	<p>Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol megis rhieni, staff a'r gymuned ehangach yn Chwilog. Roedd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys ymgynghoriad penodol gyda phlant a phobl ifanc. Bu i'r awdurdod gydymffurfio â'r gofynion ymgynghori a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.</p>

## 5. CASGLIAD

---

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf Llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf Llesiant ac amcanion Llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant y dalgylch yn cael eu haddysgu mewn ysgol addas eu maint ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Byddai addasu'r ysgol er mwyn sicrhau digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn golygu y byddai'r disgyblion yn gallu cael addysg yn eu cymuned.

Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned.



**Adroddiad Asesu Effaith  
ar y Gymuned,  
Ansawdd a Safonau Addysg, a  
Threfniadau Teithio**

**Ysgol Chwilog**

- Rhagfyr 2022

# Adroddiad Asesu Effaith ar y Gymuned

Mae Ysgol Chwilog wedi ei lleoli ynghanol pentref Chwilog, sydd rhwng Y Ffôr a Chricieth yng Ngwynedd. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys y pentref ac ardal gyfagos, sydd wedi ei lleoli rhwng dalgylchoedd Ysgolion Bro Plenydd (Y Ffor), Ysgol Abererch, Ysgol Llanystumdwy ac Ysgol Llangybi.

Mae Ysgol Chwilog wedi ei lleoli yn Nwyfor ac yn ward Llanystumdwy. Dengys data (cyfrifiad 2011) fod poblogaeth ward Llanystumdwy yn 2,080.

## 1.1 Yr Economi

Mae 1,460 o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed yn byw o fewn ward Llanystumdwy. Mae 1,020 yn weithgar yn economaidd. Mae 440 o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 65 o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (13.7%) yn gweithio yn y maes Addysg.

Mae nifer o fusnesau yn weithredol yn y pentref, gan gynnwys tafarndy, swyddfa bost, a pharc carafanau.

## 1.2 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Chwilog, gan gynnwys;

- Cylch Meithrin
- Ysgol Sul
- Aelwyd Chwilog
- Merched y Wawr
- Cymraeg i Oedolion yn Y Madryn
- Y Gymdeithas
- Clwb Snwcer
- Eisteddfod Flynyddol
- Gweithgareddau Ffitrwydd
- A gweithgareddau amrywiol eraill yn y Neuadd Goffa

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y pentref, gan gynnwys Capel Siloh a Chapel Uchaf, Neuadd Bentreff, Swyddfa Bôst, Cigydd, Tafarn a Pharc Chwarae Plant.

## 1.3 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol

Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)	
Aelwyd yr Urdd	✓
Dramâu	
Grwpiau Gwirfoddol	
Bore/Noson Goffi	✓
Arwerthiant Cymunedol	✓
Llyfrgell Gymunedol	
Ymarfer Côr	
Cymraeg i Oedolion	✓
Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned	

Cylch/Ysgol Feithrin	✓
Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon	
Clwb Brecwast	✓
Clwb ar ôl Ysgol	
Clwb Diddordeb Lleol	

Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022

#### 1.4 Crynodeb O'r Amrywiol Gyfleusterau Sydd Yn Y Cymunedau

Mae'r wybodaeth isod wedi ei gasglu am ardal yr ysgolion sydd o dan sylw:

Canolfan Gymuned Neuadd Bentref	✓
Capel/Eglwys	✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓
Siop	✓
Caffi/Tafarn	✓
Swyddfa Bost	✓
Meddygfa/Fferyllfa	X
Llyfrgell	X
Cae Chwarae Plant	✓
Banc	X
Cartref Henoed	X
Canolfan Hamdden	X
Garej	X
Atyniad Twristaidd	X
Cylch Ti a Fi + Meithrin	✓

Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022

#### 1.5 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi	✓
Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)	✓
Adrannau'r Urdd	✓
Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd	✓
Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)	✓

Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022

#### 1.6 Amddifadedd

Mae Ward Llanystumdwy (sydd yn ardal ehangach nac arwynebedd daearyddol dalgylch Ysgol Chwilog) yn y 50% o wardiau lleiaf difreintiedig yng Nghymru (rheng 1,102 allan o 1,909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai (gweler y tabl isod).

Nodir fod ward Llanystumdwy o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Yn ogystal, mae ward Llanystumdwy o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorllawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Mae crynodeb isod o sut mae ward Llanystumdwy wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

Maes	Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. 1 = mwyaf difreintiedig 1909 = lleiaf difreintiedig	Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru
Incwm	1,475	ymlith y 50% lleiaf difreintiedig
Cyflogaeth	1,589	ymlith y 50% lleiaf difreintiedig
Iechyd	1,485	ymlith y 50% lleiaf difreintiedig
Addysg	1,460	ymlith y 50% lleiaf difreintiedig
Mynediad i wasanaethau	152	ymlith y 10% mwyaf difreintiedig
Diogelwch cymunedol	1.339	ymlith y 50% lleiaf difreintiedig
Amgylchedd ffisegol	1,273	ymlith y 50% lleiaf difreintiedig
Tai	54	ymlith y 10% mwyaf difreintiedig

### 1.7 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn (Mai 2022)

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Chwilog gan arolygwyr Estyn.

*“Mae'r modd y mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn gryfder sylweddol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae balchder y disgyblion yn eu Cymreictod yn hynod effeithiol. Mae'r ethos Cymraeg a Chymreig sy'n bodoli yn yr ysgol yn ymledu'n llwyddiannus i'r gymuned leol.”*

*“Mae'r staff yn annog y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill. Yn yr ysgol mae nifer o bwyllgorau gweithgar sydd yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae eu cyfraniad at waith yr ysgol a'r gymuned yn werthfawr iawn. Maent yn hybu llais y disgybl a'u hannog i gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau doeth.”*

## 1.8 Aseiad O Effaith Debygol Ar Y Gymuned

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd greu meini prawf yn unol â argymhellion ystyriaethau aseiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

<b>Positif</b>	<b>Niwtral</b>	<b>Negyddol</b>
----------------	----------------	-----------------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Dim newid	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Dim newid	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Dim newid	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	<p>Yn dilyn cynnal yr ymgynghoriad statudol derbyniwyd rhai sylwadau yn poeni am effaith y cynnydd yn niferoedd disgyblion ar nifer y ceir fyddai'n cludo'r plant i'r ysgol.</p> <p>Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed rhwng y stadau a'r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fyddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynnydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.</p> <p>Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.</p>	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Bydd cynyddu'r capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgol ar gyfer holl blant y dalgylch gan felly sicrhau addysg i'r plant yn eu cymuned, fyddai'n fodd o wneud y gymuned yn fwy deniadol i deuluoedd a phlant oedran ysgol i aros neu symud i'r gymuned.	Positif
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Dim newid	Niwtral

Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Dim newid	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Bydd cynyddu'r capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgol ar gyfer holl blant y dalgylch gan felly sicrhau addysg i'r plant yn eu cymunedau, fyddai'n fodd o wneud y gymuned yn fwy deniadol i deuluoedd a phlant oedran ysgol i aros neu symud i'r gymuned.	Positif

## 2. CRYNODEB

---

Yn dilyn ystyried effaith y cynnig ar gymuned Ysgol Chwilog mae'n bosib y bydd cynyddu capasiti'r ysgol drwy ychwanegu dosbarth yn cael effaith negyddol ar nifer rhieni fydd yn dewis cludo plant i'r ysgol mewn ceir. Byddwn yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.

Rhagwelir y bydd cynyddu'r capasiti yn creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch gan greu seilwaith gadarn ar gyfer y gymuned a chreu'r amodau gorau i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned.



# Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg Ysgol Chwilog

## 1. YSGOL CHWILOG

Bu i Ysgol Chwilog gael ei harolygu gan Estyn ym Mai 2022. Bu i Estyn newid eu ffordd o arolygu ysgolion yn 2022 a bellach nid ydyw eu hadroddiadau yn cynnwys graddau crynodol e.e. 'Rhagorol', 'Da', 'Digonol' ac anfoddfaol. Bellach, mae eu hadroddiadau yn canolbwyntio ac yn manylu ar ba mor dda mae darparwyr yn helpu plentyn i ddysgu. Golyga hyn nad yw bellach yn bosibl dangos asesiad o effaith tebygol y cynnig ar bum maes arolygu perthnasol Estyn fel sydd yn cael ei nodi yn 'Ansawdd a safonau mewn addysg' yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Gellir gweld yr adroddiad llawn drwy ddilyn y linc isod:

[Adroddiad arolygiad Y.G. Chwilog 2022 \(llyw.cymru\)](#)

Fel y gwelir o adroddiad Estyn mae nifer o gryfderau gan Ysgol Chwilog gan gynnwys canmoliaeth o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan y dysgwyr.

Mae adroddiad Estyn hefyd yn cyfeirio at elfennau i'w gwella gan gynnwys y defnydd o TGCh ar draws gweithgareddau'r ysgol.

### 1.1 Asesiad o Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg

	Positif	Niwtral	Negyddol
Meini Prawf Effaith	Disgrifiad		Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Dim newid		Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Dim newid		Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Bydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir. Yn ystod yr ymgynghoriad statudol bu i rhai nodi diffyg lle ac anaddasrwydd yr ysgol i dderbyn llawer mwy o blant. Mae swyddogion o'r Aadrannau Addysg ac Eiddo wedi ymweld ag Ysgol Chwilog i gynnal asesiad addasrwydd er mwyn adnabod unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau amgylchedd addas a digonol ar gyfer anghenion yr ysgol.		Positif

	O ganlyniad, gallwn gadarnhau y byddwn yn ymateb i'r angen i addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy gynnal addasiadau i'r prif adeilad.	
Arweiniad a chymorth gofal	Dim newid	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Dim newid	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Dim newid	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Bydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir.	Positif

## 2. CASGLIAD

---

Yn dilyn cynnal asesiad effaith y cynnig ar ansawdd a safonau addysg, rydym o'r farn y byddai cynyddu capasiti yr ysgol drwy ychwanegu dosbarth ac addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy gynnal addasiadau i'r prif adeilad yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir.

# Asesiad Effaith ar Drefniadau Teithio

## 1. POLISI CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD

---

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, mae cludiant am ddim ar gael:

- ar gyfer dysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin).
- pan fo dysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch ac nad oes ganddynt felly hawl i gludiant di-dâl, ond yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn.

Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni:

(<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Talu-eich-ysgol/Gwybodaeth-i-Rieni-2019-20-2.pdf>)

## 2. Y SEFYLLFA BRESENNOL

---

Ar hyn o bryd mae 4 disgybl yn derbyn cludiant am ddim i Ysgol Chwilog.

## 3. SYLWADAU YN DILYN YMGYNGHORIAD STATUDOL

---

Yn dilyn cynnal yr ymgynghoriad statudol derbyniwyd rhai sylwadau yn poeni am effaith y cynnydd yn niferoedd disgyblion ar nifer fydd o bosib yn defnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol.

Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed rhwng y stadau a'r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fyddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.

Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.

## 4. CASGLIAD

---

Gan ein bod yn edrych ar gynyddu capasiti yr ysgol er mwyn ymateb i ragamcanion cynnydd o fewn y dalgylch, a'n rhagweld bydd cartrefi mwyafrif y plant o fewn 2 filltir i'r ysgol, gan gymryd y niferoedd presennol sy'n derbyn cludiant am ddim fel meincnod, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar drefniadau teithio o ganlyniad i gynyddu capasiti yr ysgol dan sylw. Serch hynny, byddwn yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

**Dyddiad y cyfarfod:** 24 IONAWR 2023  
**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD IOAN THOMAS  
**Swyddog Cyswllt:** DEWI A MORGAN, PENNAETH CYLLID  
**Rhif Cyswllt:** 34684  
**Pwnc:** ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID

---

#### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

#### Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd-aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Mae'r holl faterion a gyflwynir yn yr adroddiad yma wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf fi, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, mewn Cyfarfod Herio Perfformiad a gynhaliwyd ar 21<sup>ain</sup> Rhagfyr, ble roedd Tîm Rheoli'r Adran a'r rheolwyr gwasanaeth yn bresennol.
- 1.3 Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad yr Adran Cyllid wedi aros yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf. Mae'r Adran hefyd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiect blaenoriaeth perthnasol.

## **2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)**

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiect blaenoriaeth yr Adran.

### **2.2 Cyflawni Arbedion**

2.2.1 Yn unol â phenderfyniadau blaenorol y Cabinet a'r Cyngor llawn, mae gwerth £595,000 o gynlluniau arbedion wedi eu tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23.

2.2.2 Cyhoeddwyd y setliad refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr 2022. Yn unol â'r disgwyl mae'r setliad hwn yn is na'r hyn sydd ei angen i ymdrin â chwyddiant, ond mae'n well setliad na'r hyn roeddem wedi ei ofni.

2.2.3 Er mwyn gosod cyllideb gytbwys ar 2023/24 bydd angen adnabod arbedion ychwanegol ac mae camau yn eu lle i wneud hyn. Mae tri gweithdy wedi cael eu cynnal yn Rhagfyr ac Ionawr er mwyn blaenoriaethu'r arbedion angenrheidiol ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

2.2.4 Yn hanesyddol, mae rhai o'r cynlluniau arbed sydd wedi llithro yn rhai sydd wedi profi i fod yn anodd iawn eu gwireddu, ond rhaid cofio fod amseru yn ffactor hefyd. Rydym wedi defnyddio rhai o'n cronfeydd i oedi ambell un o'r cynlluniau arbed hyn a phontio'r bwch cyllidebol, ond nid yw defnyddio cronfeydd yn ateb parhaol.

2.2.5 Mae'r symiau perthnasol eisoes wedi cael eu tynnu allan o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23; mae adolygiadau ffurfiol wedi cael eu cynnal ar ddiwedd Awst 2022 a Tachwedd 2022 ac mae unrhyw orwariant wedi cael ei amlygu a'i drafod gyda'r adrannau. Mae adroddiad manwl ar gynlluniau arbedion fesul adran yn cael ei gyflwyno mewn eitem ar wahân ar raglen cyfarfod Cabinet heddiw.

### 3. PERFFORMIAD

3.1 Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers cyflwyno'r adroddiad cynnydd ddiwethaf ym mis Medi. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

3.2 **Gwasanaeth Archwilio Mewnol.** Yn ôl yr arfer, bu Archwilio Mewnol yn treulio misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol yn cwblhau archwiliadau ar ran cleientiaid allanol, 4.48% o'r Cynllun Blynyddol 2022/2023 oedd wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin. Rwyf yn falch o adrodd fod gwaith y gwasanaeth ar gynllun archwilio Cyngor Gwynedd wedi cyflymu'n sylweddol erbyn hyn – hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2022, llwyddwyd i gwblhau 43% o gynllun blynyddol 2022/23. Mae hyn yn cynrychioli 21 archwiliad allan o 49, a bydd amryw o adroddiadau eraill wedi cael eu cyhoeddi yn derfynol ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r gwasanaeth yn hyderus y bydd modd cwrdd â'i dargedau o fewn y flwyddyn.

3.3 **Gwasanaeth Budd-daliadau.** Mae'r gwasanaeth wedi gallu parhau i berfformio yn erbyn ei fesurau cyflawni craidd, sef y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal, a'r amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau. Serch hynny, mae cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd ar gyfer mis Tachwedd yn 24.10 diwrnod sy'n dangos dirywiad i'w gymharu yn erbyn yr un cyfnod yn 2021/22, sef 20.72 diwrnod. Mae hyn yn ganlyniad gyfuniad dros dro o swyddi gwag a salwch hir-dymor, ond hefyd y gwaith ychwanegol o brosesu taliadau tanwydd gaeaf yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith ar y cynllun yma yn dirwyn i ben erbyn hyn, a bydd modd ail-gyfeirio adnoddau yn ôl i'r gwaith prosesu ceisiadau budd-dal.

Mae gennyf beth pryder fod y gwasanaeth wedi colli profiad sylweddol gydag ymddeoliad swyddogion ac eraill yn gadael swydd, ond yn falch o adrodd brwdfrydedd y gwasanaeth i gymryd rhan gynnar mewn dau gynllun corfforaethol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, sef Cynllun Datblygu'r Gweithlu a'r Chynllun Meithrin Talent.

3.4 **Gwasanaeth Incwm a Dyledion.** Mae maint yr ôl-ddyledion sydd dros 6 mis oed yn parhau i gynyddu ac yn sefyll yn £1,921,780 ar 30 Tachwedd (ond wedi addasu am ddyledion y Bwrdd Iechyd mae'r cyfanswm yn gostwng i £1,406,971). Dylid nodi fod gwerth £493K o ddyledion am ofal yn gynwysedig yn y swm yma, ac mae'r rhain angen triniaeth ad-ennill mwy sensitif na'r arferol.

3.5 **Gwasanaeth Pensiynau.** Rwyf yn fodlon â pherfformiad y Gwasanaeth Pensiynau. Adroddais yn yr adroddiad diwethaf bod y maes arbenigol hwn yn un o'r rhai lle gall recriwtio a chadw staff fod yn gonsyrn. Rwyf yn falch o adrodd fod y sefyllfa wedi gwella dros y misoedd diwethaf ac mae pob swydd (parhaol a dros dro) wedi ei lenwi erbyn hyn.

**3.6 Gwasanaeth Trethi.** Adroddais yn yr adroddiad blaenorol fod y Gwasanaeth wedi cynorthwyo i ddosbarthu taliadau Cymorth Costau Byw o £150 yr un i 39,486 o aelwydydd cymwys o fewn Gwynedd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Erbyn hyn gallaf gadarnhau fod £431,700 pellach wedi ei ddosbarthu, sef £150 yr un i 2,878 aelwyd ychwanegol, trwy'r cynllun dewisol a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 25 Hydref.

Erbyn diwedd Tachwedd, roedd y gyfradd gasglu Treth Cyngor yn 72.85%, sydd ychydig yn is nag yr oedd yr un pryd yn 2021 (74.73%). Yn yr un modd, rodd cyfradd gasglu Ardrethi Annomestig erbyn diwedd Tachwedd yn 72.85%, sydd hefyd yn is na'r un cyfnod yn 2021 (74.73%).

Mae Trethi yn wasanaeth arall ble mae recriwtio a chadw staff wedi bod yn broblem gynyddol, ond gallaf adrodd fod pob swydd wedi ei llenwi ar 21 Rhagfyr 2022. Er hynny, bydd yn cymryd peth amser i hyfforddi staff newydd yn yr arbenigeddau angenrheidiol.

Adroddais i'r Cabinet ym mis Medi fod y Gwasanaeth wedi comisiynu adolygiad o'r galw gyda chymorth y Tîm Ffordd Gwynedd. Mae'r gwaith hwn yn parhau, ond mae nifer o bwyntiau eisoes wedi codi sydd wedi eu cyfeirio i sylw'r Rheolwr Trethi a'r Pennaeth Cyllid am ystyriaeth bellach.

**3.7 Gwasanaethau Cyllid a Chyfrifeg / Taliadau.** Nodais yn fy adroddiad ym mis Medi fod y Gwasanaeth wedi llwyddo i gwblhau pump set o Ddatganiadau o Gyfrifon 2021/22 yn amodol ar archwiliad (cyfrifon Cyngor Gwynedd, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Harbyrau) yn amserol yn ystod Mai a Mehefin. Erbyn hyn mae pob un wedi cael ei gyhoeddi'n derfynol yn dilyn archwiliad, ag eithrio cyfrifon Cyngor Gwynedd ble bu oedi oherwydd mater technegol cenedlaethol oedd yn effeithio ar yr archwiliadau o ddatganiadau cyfrifon pob un o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'r mater hwnnw wedi ei ddatrys gan Lywodraeth Cymru a bydd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y Cyfrifon Terfynol ar 26 Ionawr.

Mae'r Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg wedi treulio cyfran helaeth o amser yn paratoi cyllideb 2023/24 ac yn ystyried oblygiadau'r setliad refeniw a chyfalaf ar gyfer cyllideb 2023/24. Ar yr un pryd mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw i sefyllfa gyllidebol 2022/23; mae adroddiadau i'r perwyl yma yn ymddangos fel eitemau ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.

Yn ogystal â hyn, mae'r Gwasanaeth hefyd wedi nodi peth rhwystredigaeth mewn derbyn anfonebau yn amserol gan weddill y Cyngor er mwyn eu prosesu i'w talu. Mae'r Gwasanaeth mewn trafodaethau gyda gwahanol adrannau er mwyn ceisio cyflymu pethau a chyflwyno gweithdrefnau mwy llyfn er mwyn talu cyflenwyr yn gyflymach.

- 3.8 Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth – Isadeiledd.** Mae'r tîm hwn yn parhau i weithio'n ddygn i gynnal a chryfhau gwytnwch systemau'r cyngor. Rwyf yn falch o adrodd bod argaeledd y gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel iawn a ni chafwyd unrhyw ddigwyddiad o ymyrraeth difrifol i'r gwasanaeth. Dangosodd y rhwydwaith craidd argaeledd o 99.99% ym mis Tachwedd, gyda'r systemau critigol hefyd yn arddangos argaeledd o 99.99%. Yn ogystal â'r gwaith rhagorol o gefnogi'n systemau, fe gyflawnwyd sawl prosiect i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach, gan gynnwys uwchraddio'r cyswllt rhwydwaith i'r ail ganolfan ddata. Bu'r gwasanaeth yn treulio cyfran helaeth o'u hamser yn y chwarter diwethaf yn diweddarau systemau yr ysgolion.
- 3.9 Gwasanaeth TG – Datblygu.** Rwyf yn falch o adrodd fod y tîm wedi bod yn llwyddiannus gyda'i ymdrechion diweddar i lenwi swyddi gwag yn dilyn cyfnod rhwystredig o fethu penodi. Bydd hyn yn gymorth mawr gyda'r gwaith o ddatblygu a chynnal systemau i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor.
- 3.10 Gwasanaeth TG – Cefnogol.** Rwyf yn awyddus fod holl wasanaethau'r Cyngor yn rhoi mwy o adborth i'r Gwasanaeth Cefnogol fel bod modd iddo barhau i roi o'i orau. O'r 1850 o alwadau am gymorth a gaewyd yn ystod y cyfnod, dim ond 72 nodyn adborth a dderbyniwyd yn ôl. Fodd bynnag, o'r rhai a wnaeth ymateb, rhoddwyd adborth positif iawn (97% "Bodlon iawn" a 1.5% "Bodlon"). Dim ond un ymateb oedd yn "Anfodlon iawn", ac mae datrysiaid parhaol amgen nawr wedi cael ei roi yn ei le mewn ymateb i'r adborth yma.
- 3.11 Gwasanaeth TG – Rheolaeth Rhaglen.** Un o prif brosiectau y tîm yma yn ystod y cyfnod oedd paratoi ystafelloedd cyfarfod hybrid, ond bu llithriad yn y rhaglen. Disgwylir erbyn hyn bydd y prosiect wedi cael ei gwblhau yn gynnar yn 2023.
- O safbwynt **argaeledd systemau allanol**, bu peth trafferth yn ystod y cyfnod gydag argaeledd y system WCCIS (Gofal) oherwydd gwaith cynnal a chadw rhaglunedig gyda'r canlyniad o rwystro mynediad i'r system gyda'r nos. Cywirwyd y diffyg yn syth yn y bore. Gallaf sicrhau fy nghyd-aelodau na fu digwyddiad oherwydd y diffyg argaeledd yma, ac mae gwaith wedi ei gwblhau i adnabod camau amgen er mwyn osgoi'r sefyllfa yn y dyfodol.
- 3.12 Gwasanaeth TG – Gwasanaeth Dysgu Digidol.** Mae hwn yn wasanaeth newydd sydd yn parhau i sefydlu a "ffeindio ei draed". Mae darpariaeth sylweddol wedi ei wneud i gyflenwi gliniaduron yn ein ysgolion cynradd ac uwchradd a rhaglen yn ei le i barhau â'r ddarpariaeth yn yr uwchradd gan gyflenwi 500 gliniadur y mis i wireddu gweledigaeth y strategaeth ddigidol o gyflwyno gliniadur i pob disgybl blwyddyn 3 hyd 11. Mae'r swyddogion yn y tîm yma yn llai profiadol na staff rhai o'r timau eraill ond maent yn datblygu'n gyflym. O ran adnabod patrymau, gwelwyd fod oddeutu hanner y galwadau yn ganlyniad i hen gyfarpar yn yr ysgolion – bydd y sefyllfa yma yn gwella dros amser.



#### **4. ARBEDION ADRANNOL**

- 4.1 Mae'r adran wedi cyflawni ei holl gynlluniau arbed ar gyfer y cyfnod 2015/16 hyd 2021/22. Mae un cynllun arbed yn parhau o fewn rhaglen 2022/23, sef *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol*. Nid wyf yn rhagweld erbyn hyn bydd y cynllun am wireddu'r targed arbedion o £25k felly mae'r Adran yn edrych am gynllun amgen.

---

#### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

##### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

##### **Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma, ac yn cadarnhau'r cynnwys.

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i'r Cabinet

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>24 Ionawr 2023</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Beca Brown</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Garem Jackson</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>32089</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg</b>

#### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

#### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

#### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor, gwaith dydd i ddydd yr Adran a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

3.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Rhagfyr 2022. Rwyf am eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod y flwyddyn. Rwyf yn arbennig o falch o berfformiad yr Adran a'n hysgolion, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

#### 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

##### Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

##### 4.1 Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

4.1.1 Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posibl.

4.1.2 Yn ddiweddar, mae Ysgol Y Faenol wedi derbyn estyniad sylweddol sydd wedi galluogi cynyddu capasiti'r ysgol i 315 o ddysgwyr. Er bod llithriad yn yr amserlen wedi bod o ganlyniad i'r pandemig, bu i'r estyniad gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ac mae'r dysgwyr bellach yn gallu manteisio ar yr amgylchedd dysgu newydd. Er hynny, mae trafodaethau ynglŷn â throsglwyddiadau tir yn parhau ac o ganlyniad nid oes modd cwblhau'r gwaith ar faes parcio'r ysgol ar hyn o bryd. Mae'r

adeilad wedi ei gynllunio i fod yn hwb i'r ardal leol hefyd gyda chanolfan gymunedol newydd wedi'i chodi fel rhan o'r datblygiad.

- 4.1.3 Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth prosiect Ysgol Ein Harglwyddes wedi eu cytuno gyda'r Esgobaeth, sy'n golygu y bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am hwyluso trefniadau'r prosiect a chyflwyno'r achos fusnes i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith dichonoldeb cychwynnol wedi'i gwblhau i adnabod yr anghenion, ac mae cytundeb i leoli'r ysgol newydd ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau), ac mae'r lleoliad hwn yn cyd-fynd gyda dyheadau'r gymuned, gyda chynlluniau cysyniadol wedi eu creu ar gyfer sefydlu Ysgol Ein Harglwyddes ar y safle hwnnw.
- 4.1.4 Yn sgil y buddsoddiad diweddar yn Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, rwyf i a'r Adran yn cydnabod yr angen i fuddsoddi ymhellach a gwella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hirael hefyd. Bydd hyn yn gyfrwng i wella profiad y dysgwr a galluogi'r ysgol i ddarparu addysg a'r cwricwlwm yn yr 21ain ganrif. Rwy'n edrych ymlaen i weld ein bwriadau ar gyfer Ysgol Hirael yn symud ymlaen dros y misoedd nesaf.
- 4.1.5 Rwyf i a'r Adran hefyd yn llwyr ymwybodol nad oes gan Ysgol Tryfan yr adnoddau y byddem yn dymuno iddi ei chael a bod hynny'n effeithio ar brofiad y dysgwr. O ganlyniad, rydym wedi cychwyn y broses o ystyried y cyfleoedd posib ar gyfer sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yno, gan sicrhau dilyniant priodol i'r buddsoddiad sydd eisoes wedi ei wneud yn yr ysgolion cynradd yn ardal Penrhosgarnedd o'r ddinas.
- 4.1.6 Yn sgil cyflwr gwael adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Trefferthyr, byddwn yn adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu. Mae'r Cabinet eisoes wedi cefnogi'r bwriad i gynyddu capasiti Ysgol Trefferthyr i 150 o ddysgwyr, ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle'r A497 yn unol â'r drefn statudol. Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais cynllunio ar gyfer adleoli'r ysgol, cododd dau fater technegol ynglŷn â'r safle, ond bellach mae'r gwaith archeolegol wedi ei gwblhau, ac mae arolwg llwybrau saff i'r ysgol hefyd wedi ei gwblhau ac adroddiadau wedi eu cyflwyno i'r Adran Gynllunio. Yn sgil y cynnydd mewn costau deunyddiau adeiladu yn sgil Covid, Brexit, ynghyd â chwyddiant, dw i'n hynod o falch fod y Cabinet wedi cymeradwyo cynyddu'r gyllideb ar gyfer gwireddu'r ysgol newydd i £8.1m. Edrychaf ymlaen i weld y gwaith adeiladu'n symud yn ei flaen yn fuan ac i weld y plant yn manteisio ar y cyfleusterau gorau un.
- 4.1.7 Yn sgil amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn Addysg ôl-16 yn Arfon, rhoddodd y Cabinet ganiatâd i'r Adran ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithwir gyda phenaethiaid, llywodraethwyr, staff, rhieni, dysgwyr a'r gymuned yn ehangach er mwyn cyflwyno'r weledigaeth newydd ar gyfer addysg ôl-16, ynghyd â chasglu barn a syniadau am y ffordd orau i wireddu'r weledigaeth. Rydym wedi adrodd ar negeseuon cychwynnol yr ymgysylltu yma gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror y llynedd, ac rydym nawr mewn sefyllfa i allu bwrw ymlaen efo'r prosiect hwn yn sgil yr oedi a fu dros y flwyddyn ddiwethaf.

4.1.8 Pwrpas y prosiect Cyflwr ac Addasrwydd yw gwella cyflwr adeiladau presennol ein hysgolion, gan wneud addasiadau i'r adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael. Yn ystod y flwyddyn, fel gyda'r flwyddyn flaenorol, bu i effaith prisiau deunyddiau adeiladu yn sgil Covid a Brexit effeithio ar ein gallu i wireddu rhai o'n cynlluniau i wella cyflwr ac addasu adeiladau rhai ysgolion. Yn sgil hynny, yn ystod y flwyddyn bu'r Adran Addysg ar y cyd gyda'r Adran Tai ac Eiddo yn ail-edrych ar y cynlluniau gan ystyried beth y gellir ei gyflawni'n ymarferol ar sail blaenoriaeth yn sgil yr angen i orfod cyfarch costau uwch gyda'r gyllideb sydd ar gael. Er hynny, rwy'n falch o ddweud y llwyddwyd i gwblhau'r buddsoddiad yng nghyflwr ac addasrwydd Ysgol Bethel, Ysgol Glan y Môr ac Ysgol Cymerau yn ystod y flwyddyn, gyda gwaith yn parhau ar safleoedd Ysgol Llanrug ac Ysgol Botwnnog, ynghyd â gwaith ar fin cychwyn yn Ysgol Eifionydd ac Ysgol Syr Hugh Owen.

## 4.2 **Gagendor Lles a Chyrhaeddiad**

4.2.1 Yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo, mae'r Adran Addysg a'r Cyngor wedi adnabod y gagendor lles a chyrhaeddiad fel un o'r prif flaenoriaethau yn sgil pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles.

4.2.2 Y tu hwnt i'r ysgol, mae dau gyfnod ym mywyd plant a phobl ifanc wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth o ran ymateb i'r gagendor lles a chyrhaeddiad, sef plant 0-5 oed, ynghyd â phobl ifanc ôl-16. Yn sicr, mae'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, gydag anghysondeb ar draws y sir o ran ystod ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r ystod o bartneriaid sydd yn rhan o'r ddarpariaeth ynghyd â chyfeiriad strategol y maes yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i saerïo ein gwasanaethau ni yma yng Ngwynedd. Mae'r grŵp prosiect wedi cytuno ar ffrydiau gwaith penodol ac wedi blaenoriaethu cynnal asesiad digonolrwydd darpariaeth gofal ac addysg ar draws yr awdurdod. Ar yr un amser mae gwaith yn cael ei wneud ar fodelau ariannu gwahanol ynghyd ag oblygiadau pryddlesi rhwng darparwyr a Chyngor Gwynedd.

4.2.3 Hefyd mae'r grŵp oedran 16-24 wedi eu heffeithio'n anghymesur gan y pandemig gan fod mwy o gyfeiriadau am gymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd ymysg y grŵp oedran hwn. Mae bwriad i roi sylw penodol er mwyn lliniaru unrhyw sgil- effeithiau gan sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cefnogaeth a darpariaeth briodol i'w galluogi i ffynnu. Yn gysylltiedig â'r grŵp oedran yma, rwy'n hynod o falch o nodi ein bod wedi diddymu'r ffi ar gyfer y tocyn teithio ôl-16 i'n holl ddysgwyr o fis Medi 2022 ymlaen. Bydd hyn yn gyfrwng i annog dysgwyr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith (NEETS) yn ôl i addysg. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau nad ydym fel Cyngor yn gosod unrhyw rwystrau rhag galluogi ein pobl ifanc i barhau a'u haddysg wedi 16 oed, ac yn bwysicach fyth y dyddiau hyn o ystyried y cynnydd aruthrol yng nghostau byw. Yn y cyd-destun yma hefyd, rwyf wedi gofyn i'r Adran edrych ar gost y diwrnod ysgol, ac rwyf wedi cysylltu gydag ysgolion yn gofyn iddynt beidio newid gwisg ysgol a bod yn effro i gostau gwisg ysgol i rieni a theuluoedd.

4.2.4 I gefnogi llesiant ein plant a'n pobl ifanc, mae'r Adran hefyd yn gweinyddu'r grant tlodi mislif sy'n dod yn flynyddol gan y Llywodraeth. Drwy gydweithio'n drawsadrannol gyda gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor a chyda mentrau

cymunedol rydym yn cyrraedd trigolion ar hyd a lled y sir, gan ddarparu nwyddau eco gyfeillgar ac aml-ddefnydd i unrhyw un sydd eu hangen a hynny am ddim. Yn ychwanegol, mae cyflenwad ar gael ym mhob ysgol drwy'r sir a hynny mewn modd urddasol sy'n osgoi embaras i'n plant a'n pobl ifanc.

### **4.3 Cinio am ddim yn yr ysgolion cynradd**

- 4.3.1 Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd ar draws Cymru. Ers y cyhoeddiad mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a'r Tîm Datblygu Eiddo sydd yn golygu ein bod o flaen yr amserlen genedlaethol ar gyfer darparu cinio am ddim i holl ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd.
- 4.3.2 O ddechrau Medi ymlaen mae pob dysgwr ym Mlwyddyn Derbyn ac Un yng Ngwynedd yn cael cynnig cinio ysgol am ddim, ers dechrau Ionawr mae holl ddysgwyr Blwyddyn 2 yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim, ac erbyn Medi 2023 anelwn at sicrhau y bydd holl ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd yn derbyn cinio ysgol am ddim. Rwyf yn awyddus i gynifer o deuluoedd â phosibl fanteisio ar ginio ysgol am ddim, yn arbennig yn yr hinsawdd ariannol presennol, ac felly byddaf yn gofyn i'r Adran wneud popeth posibl i annog cynifer o deuluoedd â phosibl i fanteisio ar y cynllun hwn.

### **4.4 Cydweithio Meirionnydd**

- 4.4.1 Pwrpas y prosiect yma yw edrych yn benodol ar sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol yn ysgolion uwchradd Meirionnydd. Mae'r cynnydd ar y prosiect wedi bod yn araf ac wedi ei effeithio yn sgil heriau amlwg y pandemig a phrysurdeb ysgolion uwchradd.
- 4.4.2 Serch hynny, rydym wedi casglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, megis recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Mae trafodaethau pellach i'w cynnal gyda'r ysgolion er mwyn cydweithio i ganfod datrysiadau posib i heriau capasiti a recriwtio a chadw staff ym Meirionnydd.

### **4.5 Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc**

- 4.5.1 Yn dilyn cyfnod estynedig o addysgu gartref, a'r pryder cenedlaethol a fynegwyd am effaith andwyol Covid ar safonau'r Gymraeg, yn ystod y flwyddyn bu i'r adran gasglu data drwy gyfrwng amrywiol holiaduron er mwyn cael gwell trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg ein plant a'n pobl ifanc. Roedd y dystiolaeth o'r holiaduron yn dangos mai sgiliau llafaredd oed y pryder mwyaf ar draws y sir.

### **4.6 Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

- 4.6.1 Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor, ac yn fwyfwy allweddol wrth gwrs yn sgil y pandemig. Mae'r Adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r Adran Addysg a gwasanaethau Dysgu a Datblygu'r Cyngor hefyd wedi cydweithio i ddatblygu pecyn hyfforddiant ym maes trais domestig. Mae'r pecyn

Gofyn a Gweithredu wedi ei ddatblygu ar y cyd ac yn parhau i gael ei gyflwyno i staff yr Adran Addysg.

4.6.2

Pwrpas y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yw sicrhau darpariaeth a chefnogaeth addas i'n dysgwyr mwyaf bregus. Rwy'n hynod o falch o allu adrodd fod y gwaith o drosglwyddo o'r hen Ddeddfwriaeth AAA i'r Ddeddfwriaeth ADY newydd yn parhau i gadw momentwm ac ar drac, ac mae'r defnydd o Feini Prawf newydd wedi cael eu hymestyn ymhellach er mwyn gallu adrodd ar gynnydd plant yn ehangach, gan fod dangos cynnydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gofyn am dduilliau holistaidd. Mae'r gwaith o addasu'r model darpariaeth cynhwysiad wedi cymryd lle ac yn weithredol erbyn hyn. Er hynny, rydym yn ymwybodol fod ymddygiadau plant a phobl ifanc yn peri pryder yn y cyfnod ôl—bandemig, a bydd y gwasanaeth yn rhoi sylw i hyn yn y dyfodol agos er mwyn cefnogi ein hysgolion.

4.6.3

Rwy'n hynod falch o barodrwydd ein hysgolion i ymgymryd â gofynion y cwricwlwm newydd, sef Cwricwlwm i Gymru. Yma, hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad i GwE sef y gwasanaeth gwella ysgolion a gomisiynir gan yr Adran Addysg i gefnogi ein hysgolion ym maes y cwricwlwm. Fel y gwyddoch, mae rhai agweddau o'r cwricwlwm wedi derbyn sylw cyhoeddus dros y misoedd diwethaf, megis y cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb sydd wedi bod yn heriol, ond rwy'n hynod falch o broffesiynoldeb ein hysgolion wrth ymateb i'r gofyn hwn, ac wrth iddynt barhau fel bob amser i gefnogi ein dysgwyr yn y maes hynod bwysig hwn.

4.6.4

Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd sydd yn rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi i gaffael y Gymraeg. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau ar safle Ysgol Eifionydd ac Ysgol Tryfan ym Mangor, ond mae oedi gyda'r broses gynllunio'n golygu fod amserlen safle Tywyn wedi llithro, ac felly, mae safle addysg drochi dros dro wedi cael ei sefydlu yn Ysgol Bro Idris o ddechrau Ionawr 2023 ymlaen.

4.6.5

Rwyf hefyd yn hynod o falch o gefnogaeth unfrydol y Cabinet ar 19eg Gorffennaf 2022 i symud ymlaen i gyflwyno achos fusnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid o £1.1m pellach o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg i gysoni capasiti a gwella amgylchedd dysgu gweddill Canolfannau Iaith cynradd y sir sef Maesincla, Llangybi a Dolgellau.

4.6.6

Yn ogystal mae llawer o waith cyffrous wedi digwydd yng nghyd-destun arian grant refeniw Llywodraeth Cymru. Mae staff y Gyfundrefn a'r awdures Anni Llŷn wedi ysgrifennu cynllun trochi newydd yn seiliedig ar bentref dychmygol Aberwla. Mae'n gynllun sy'n ymgorffori patrymau iaith priodol o fewn y continiwm iaith yng Nghwricwlwm i Gymru. I gefnogi'r cynllun rydym mewn cydweithrediad â chwmni 'Animated Technologies' wedi datblygu elfen rithwir i'r pentref. Dyma brosiect arloesol sy'n galluogi ein hwyrdyfiaid i gamu i Aberwla ar blatfform rithwir i ymarfer patrymau iaith yn yr archfarchnad. Yno cânt gyfle i chwarae gemau efo'i gilydd wrth lenwi eu basged trwy ddarllen cyfarwyddiadau a dilyn rhestr siopa.

- 4.6.7 Rwy'n hynod o falch fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i rannu'r adnodd arloesol hwn a grëwyd yng Ngwynedd yn genedlaethol ac mae trafodaethau ar y gweill i wneud hynny yn y dyfodol agos. Dyma gydnabyddiaeth i'n gweledigaeth arloesol, ac fel cyfundrefn rydym yn ymfalchïo yn yr adnodd rhithwir arloesol hwn ac yn falch o'r cyfle i'w rannu er budd dysgwyr a chefnogi nod y Llywodraeth yn *Cymraeg 2050* ar hyd a lled Cymru.
- 4.6.8 Ym mis Medi, bu staff y Gyfundrefn Drochi hefyd yn darparu hyfforddiant ar egwyddorion trochi i holl weithlu Cyfnod Sylfaen ein hysgolion, yn athrawon a chymorthyddion. Cynhaliwyd yr hyfforddiant fesul dalgylch, gyda'r gobaith ei fod o gymorth i ysgolion allu trochi dysgwyr ieuengaf ein cyfundrefn ysgolion yn y Gymraeg cyn gynted â phosibl.
- 4.6.9 Ar yr un pryd, mae gan y Canolfannau Iaith (Cefn Coch yn benodol) draddodiad hir o ddarparu cynhaliath Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau'r flwyddyn, dw i'n awyddus i weld parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.
- 4.6.10 Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn ddogfen statudol ar gyfer pob awdurdod lleol er mwyn i ni gynllunio'n strategol dros gyfnod o ddeng mlynedd ar gyfer twf a chynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bu ymgynghoriad llawn ar ddrafft o CSGA newydd Gwynedd yn nhymor yr Hydref 2021, ac yn dilyn hynny, aeth y CSGA gerbron y Cabinet am gymeradwyaeth ym mis Mawrth 2022, a gerbron y Pwyllgor Iaith ddechrau'r haf. Rwy'n hynod o falch y bu iddo dderbyn cymeradwyaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 24 Mehefin 2022, ac yn sgil hynny, mae'r CSGA newydd wedi dod i rym ar 1 Medi 2022. Mae'r Adran, yr ysgolion a'r holl weithlu addysg rŵan wedi cychwyn gweithredu yn unol â'r ymrwymadau a nodir yn y ddogfen, ac mae'r Adran wedi sefydlu Fforwm Iaith Addysg er sicrhau cynnydd priodol yn erbyn pob un o'r deilliannau. Byddaf yn edrych ymlaen i roi diweddariad pellach i chi ar y CSGA yn fy adroddiad nesaf i chi.
- 4.6.11 Ochr yn ochr â'r CSGA, ar 1 Medi 2022 daeth y drefn gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i rym hefyd. Yn sgil Polisi Iaith Addysg Gwynedd, mae pob un o ysgolion cynradd Gwynedd (namyn un) yn disgyn i gategori 3, tra bod pob un ysgol uwchradd (namyn 2) yn disgyn i gategori 3 yn unol â'r diffiniad hefyd. Bydd yr Adran yn gweithio gyda'r holl ysgolion categori 3 rŵan er sicrhau cynnydd priodol, ac nad oes unrhyw ysgol yn cymryd cam yn ôl o safbwynt eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd yr Adran hefyd yn sicrhau cefnogaeth fwy dwys i'r 3 ysgol sydd yng nghategori 3T (trosiannol) er sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol ar hyd y continiwm iaith, ac edrychaf ymlaen i adrodd ar gynnydd y gwaith yma yn fy adroddiad perfformiad nesaf.
- 4.6.12 Pwrpas y gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yw darparu bwyd maethlon ac iachus i ddysgwyr ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lân a diogel er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr i gyrraedd eu potensial. Yn ddiweddar, mae'r

gwasanaeth yma wedi bod yn cynllunio a gweithredu i allu darparu cinio am ddim i bob plentyn blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 1 erbyn Medi 2022, a phob plentyn Blwyddyn 2 erbyn Ionawr 2023.

- 4.6.13 Ers ei sefydlu yn Medi 2019 mae'r Ganolfan Fusnes Ysgolion wedi cynnig nifer o wasanaethau allweddol i'n ysgolion gan gynnwys rheolaeth ariannol, gweinyddu penodiadau, trefnu athrawon llanw, a sicrhau fod system gwybodaeth am ddisgyblion yn gyfredol. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddatblygu gwasanaethau gweinyddol ychwanegol gan gynnwys y cynllun ateb galwadau ffôn, cynllun sydd wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn. Mae archebion gan ysgolion ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau drwy gerdyn credyd y Ganolfan Fusnes Addysg yn parhau i fod o fudd i'r ysgolion. Eleni mae'r gwasanaeth wedi datblygu mewnwyd gynhwysfawr sydd yn cynnwys adnoddau defnyddiol mewn un lleoliad hwylus, fe fydd hwn yn cael ei rannu a phob ysgol yn y flwyddyn newydd. Mae'r ganolfan yn esblygu'n barhaus i allu cynnig rhagor o wasanaethau i ysgolion yn y dyfodol, gan chwilio am bob cyfle i leihau baich gwaith penaethiaid.
- 4.6.14 Rhaid cydnabod mai crynodeb yn unig a geir yn yr adroddiad o holl waith yr Adran a'r ysgolion dros y misoedd diwethaf, ac o ganlyniad hoffwn gydnabod a nodi fy ngwerthfawrogiad i'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn yr Adran ac yn ein hysgolion er sicrhau'r addysg gorau i'n plant ynghyd â diogelwch, iechyd a lles ein holl ddysgwyr a staff.

## **5. SEFYLLFA ARBEDION**

- 5.1 Mae'r Adran wedi cyflawni holl gynlluniau arbedion hanesyddol. Nid oes gan yr Adran dargedau arbedion yn 2022/23.

## **6. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Addysg.



# Eitem 14

## BLAENRAGLEN WAITH

### CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet	Eitemau i'w trafod	Aelod Cabinet
<b>Chwarter 4 2022/23</b> <b>1 Ionawr – 31 Mawrth</b>		
<b>24 Ionawr 2023</b>	Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG – Trefniadau Llywodraethu a Gweithredu	Cyng. Dyfrig Siencyn
	Cyllideb Refeniw 2022/23 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2022	Cyng. Ioan Thomas
	Trosolwg Arbedion 2022/23 – Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion	Cyng. Ioan Thomas
	Rhaglen Gyfalaf 2022/23 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2022	Cyng. Ioan Thomas
	Cynllun Fflyd Werdd 2023-2029	Cyng. Berwyn Parry Jones
	Adroddiad Ymgynghoriad Statudol Ysgol Chwilog a diweddariad ar y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg	Cyng. Beca Brown
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gyllid	Cyng. Ioan Thomas
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg	Cyng. Beca Brown
	Blaen Raglen y Cabinet	Cyng. Dyfrig Siencyn
<b>14 Chwefror 2023</b>	Diweddariad ar y Gwasanaeth YGC	Cyng. Berwyn Parry Jones

Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet	Eitemau i'w trafod	Aelod Cabinet
	Ysgol Hirael	Cyng. Beca Brown
	Strategaeth Ariannol a Chyllideb 2023/24	Cyng. Ioan Thomas
	Strategaeth Gyfalaf 2023/24	Cyng. Ioan Thomas
	Cyllideb 2023/24	Cyng. Ioan Thomas
	Strategaeth Cyfranogiad	Cyng. Menna Jones
	Cynllun y Cyngor 2023-28	Cyng. Dyfrig Siencyn
	Cynllun Economi Ymweld	Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys
	Economi Cylchol	Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Economi	Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Corfforaethol	Cyng. Menna Jones
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo	Cyng. Craig ab Iago
<b>7 Mawrth 2023</b>	Adroddiad ar ddefnydd y Premiwm Treth Cyngor	Cyng. Craig ab Iago
	Cynllun Ffordd Gwynedd	Cyng. Menna Jones
	Cronfa Ffyniant Bro	Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys
	Prosiect Addysg Ôl-16 Arfon	Cyng. Beca Brown
<b>28 Mawrth 2023</b>	Cynllun Gweithredu Strategol Ynni Gogledd Cymru & Cynlluniau Ynni Ardal Lleol	Cyng. Dyfrig Siencyn
	Adroddiad Gosod Ffioedd	Cyng. Dilwyn Morgan

<b>Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet</b>	<b>Eitemau i'w trafod</b>	<b>Aelod Cabinet</b>
	Mabwysiadu Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd	Cyng. Berwyn Parry Jones
	Cynllun Goleuadau LED	Cyng. Craig ab Iago
<b>Chwarter 1 2023/24 1 Ebrill – 30 Mehefin</b>		
<b>25 Ebrill 2023</b>		
<b>Dyddiadau pellach heb eu pennu</b>		